# Rhagymadrodd

Mae hi'n bleser arbennig i mi gyflwyno'r adnodd cyffrous hwn sy'n ymdrin â gallu ariannol. Mae **pfeg** yn elusen annibynnol sy'n ceisio sicrhau bod gan bob person ifanc yr hyder, y sgiliau a'r wybodaeth mewn materion ariannol sydd eu hangen arnynt i gymryd eu lle'n llawn mewn cymdeithas wedi iddynt adael ysgol. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf rydym wedi bod yn darparu gwasanaeth arbenigol yn rhad ac am ddim i ysgolion uwchradd ar hyd a lled Lloegr. Buom yn cynorthwyo timau arwain ysgolion ac athrawon unigol wrth iddynt gynllunio a chyflwyno addysg ariannol. Wrth wneud hyn daethom yn ymwybodol o'r diffyg adnoddau dysgu ar gyfer pobl ifanc ag anawsterau dysgu canolig ac anawsterau ymddygiadol, emosiynol a chymdeithasol. Buom yn gofyn i bobl broffesiynol yn y maes nodi anghenion allweddol y bobl ifanc hyn a'r ffordd orau o gyflwyno adnoddau dysgu i'w hathrawon. Canlyniad hyn oll ydy 'Rheoli Arian'.

Anelir Rheoli Arian at ddysgwyr lefel un. Ynddo mae syniadau a gweithgareddau sy'n cefnogi dysgu cyllido personol a chynnal pobl ifanc wrth iddynt fyw bywyd yn annibynnol. Gwneir hyn mewn cyd-destun sy'n berthnasol i Gyfnodau Allweddol Tri a Phedwar. Gellir addasu'r adnoddau hyn yn rhwydd. Mantais hyn yw y gall athrawon drefnu bod lefelau'r gweithgareddau yn addas ar gyfer y myfyrwyr sydd ganddynt. Gellir argraffu'r adnoddau o Word a'i lungopïo ac mae ar gael ar ffurf papur printiedig ac ar y we. Rydym yn hynod ddiolchgar i'r Awdurdod Gwasanaethau Ariannol (FSA) am ariannu'r gwaith hwn fel rhan o'n menter Learning Money Matters. Gwn y bydd hwn yn ychwanegiad defnyddiol a buddiol at eich casgliad chi o ddeunyddiau dysgu.



Wendy van den Hende
**Prif Weithredwr, pfeg**

Mae hi wedi bod yn bleser i **nasen** fod yn rhan o ddatblygu'r adnodd rhagorol hwn. Mae **pfeg** wedi'i ymrwymo i gwrdd ag anghenion pob plentyn a pherson ifanc. Cadarnhad o'u hymrwymiad i gynnal y bobl ifanc mwyaf bregus yn ein hysgolion yw'r casgliad hwn o adnoddau. Mae Addysg Ariannol Bersonol yn sgìl sylfaenol a dylai fod ar gael i bob person ifanc. Mae **pfeg** yn sicrhau nid yn unig bod ymwybyddiaeth o hyn yn cael ei godi yn yr ysgolion, ond mae hefyd yn cynnig cynhaliaeth ac arweiniad i athrawon yn eu dosbarthiadau. Gwneir hyn drwy ddarparu cynnyrch ac adnoddau o safon fydd yn gymorth iddynt gyflwyno gwersi o'r radd flaenaf.

Gellir addasu'r gweithgareddau sydd yn y pecyn adnoddau hwn yn rhwydd i gwrdd ag anghenion pob person ifanc. Mae'r gweithgareddau'n hybu dadlau a thrafod. Ynddynt mae enghreifftiau o sefyllfaoedd real y bydd pobl ifanc yn debygol o'u hwynebu yn y dyfodol. Mae ymrwymiad gan y llywodraeth i sicrhau bod pob plentyn yn derbyn addysg ariannol bersonol ac mae eisoes yn rhan annatod o'r cwricwlwm uwchradd newydd. Mae disgwyliad y bydd ysgolion yn sicrhau bod gan y cenedlaethau sydd i ddod y gallu, y sgiliau a'r priodoleddau i wneud y gorau o'r byd sy'n newid o'n cwmpas. Tystiaf y bydd y pecyn hwn yn gymorth ymarferol a chynorthwyol i'ch dysgu ond yn bwysicach fyth rwyf yn gobeithio y daw â hwyl a mwynhad i addysg eich disgyblion.



Lorraine Petersen
**Prif Weithredwr, nasen**

# Cynnwys

## Cefndir 4

Gallu ariannol
Ynglŷn â'r adnodd hwn
Cysylltiadau â'r cwricwlwm
- Y gorchymyn mathemateg ar gyfer dysgwyr 7 i 16 oed
- Fframwaith addysg bersonol a chymdeithasol ar gyfer dysgwyr 7 i 19 oed yng Nghymru
- Gyrfaoedd a'r byd gwaith: fframwaith i bobl ifanc 11 i 19 oed yng Nghymru

Iaith gallu ariannol
Cyfleoedd asesu
Diweddglo

## Adran 1: Prynu a gwerthu 9

**Gweithgaredd 1: Siopa** 9
Gwerth arian, adnabod darnau arian, cyfrif y newid

**Gweithgaredd 2: Rhybudd i brynwyr** 17
Chwilio am y prisiau gorau, trin â thrafferthion wrth brynu

**Gweithgaredd 3: Dodrefnu a threfnu** 27
Cyllido a blaenoriaethu gwariant wrth ystyried byw yn annibynnol

**Gweithgaredd 4: Pupur gwyrdd neu domato coch** 35
Cyfrifo costau coginio wrth fyw yn annibynnol

**Gweithgaredd 5: Carys a Mo** 39
Cyllido er mwyn osgoi mynd i ddyled, ystyried goblygiadau gwario arian

**Gweithgaredd 6: Chi sy'n dewis** 49
Ystyriaethau moesegol wrth siopa am fwyd

**Gweithgaredd 7: Y busnes hysbys** 55
Dylanwad hysbysebion ar gwsmeriaid

## Adran 2: Ffynonellau incwm 59

**Gweithgaredd 8: Diwrnod tâl** 59
Slipiau cyflog, incwm a didyniadau

**Gweithgaredd 9: Budd-daliadau** 67
Budd-daliadau a sut mae gwneud cais amdanynt

**Gweithgaredd 10: Ydy hi'n iawn?** 79
Ffyrdd gwahanol o ennill arian – yn gyfreithiol ac yn anghyfreithlon

**Gweithgaredd 11: Beth ydy'r siawns?** 85
Peryglon gamblo a'r tebygolrwydd o ennill

**Gweithgaredd 12: Arian annisgwyl** 95
Cloffi rhwng gwario a chynilo

# Cynnwys

## Adran 3: Datrys problemau 101

**Gweithgaredd 13: Fy nghar cyntaf** 101
Ariannu pryniant mawr a chyfrifo'r costau rhedeg

**Gweithgaredd 14: Byw heddiw, talu fory** 107
Cardiau credyd a dyled

**Gweithgaredd 15: Arwyddwch yma** 113
Deall ystyr cytundebau a darllen y print mân

**Gweithgaredd 16: Methu credu'n lwc** 117
Adnabod cynlluniau sgam a sut i'w hosgoi

**Gweithgaredd 17: Ydy hi'n werth mentro?** 121
Asesu risg a phenderfynu ar yswiriant

**Gweithgaredd 18: Help!** 127
Dod o hyd i'r cymorth priodol pan fo'i angen

## Rhestr termau 131

Mae fersiwn electronig o'r adnoddau hyn i'w geld ar-lein ar **www.ngfl-cymru.org.uk**.

# Cefndir

## Gallu ariannol

Mae Gallu ariannol yn rhan annatod o'r cwricwlwm a gyflwynwyd i ysgolion a gynhelir yng Nghymru ym mis Medi 2008. Mae addysg ariannol yn y gorchymyn mathemateg o 7 hyd at 16 oed, yn y Fframwaith addysg bersonol a chymdeithasol ar gyfer dysgwyr 7 i 19 oed yng Nghymru, ac yn Gyrfaoedd a byd gwaith: fframwaith i bobl ifanc 11 i 19 oed yng Nghymru. O'r herwydd, dylai ysgolion a cholegau ddatblygu gwybodaeth a sgiliau dysgwyr yn y meysydd hyn a defnyddio pob cyfle i adeiladu arnynt drwy ddulliau dysgu trawsgwricwlaidd.

Sefydlwyd Yr Uned Addysg Ariannol Gymreig i gynnal ysgolion a cholegau wrth iddynt ymgymryd â hyn. Mae'r Uned yn cydnabod pwysigrwydd gallu ariannol i fod yn rhan o addysg sylfaenol pob person ifanc. Gellir dadlau bod hyn yn bwysicach fyth i bobl ifanc sydd ag anghenion addysgol arbennig. Mae'n bosibl y bydd y rhain yn fwy tebygol o gael eu niweidio gan y bydd sawl her mewn bywyd a gwaith o'u blaenau. Bydd tlodi a dyledion ymysg trafferthion eraill yn eu hwynebu wrth iddynt geisio byw'n annibynnol. Y nod o ddysgu gallu ariannol ydy darparu'r sgiliau bywyd mwyaf ymarferol iddynt. Mae gallu ariannol yn ganolbwynt ein bywydau ni i gyd a dylai fod yn rhan allweddol o'r cwricwlwm ar gyfer pob un disgybl sydd ag anghenion addysgol arbennig.

**pfeg** (Personal Finance Education Group) yw'r prif sefydliad addysg ariannol yn y DU sy'n cynorthwyo ysgolion i gynllunio a dysgu'r gallu ariannol sy'n berthnasol i anghenion ein disgyblion. Mae **pfeg** yn estyn cymorth, adnoddau a chymhorthion dysgu am ddim i athrawon, timau arwain ysgolion ac awdurdodau lleol er mwyn iddyn nhw allu datblygu'r addysg ariannol sy'n gymwys i anghenion eu hysgolion. Gellir cyrchu deunyddiau **pfeg** drwy ymweld â'r wefan www.pfeg.org. Wrth weithio gydag athrawon gwelsom yn glir bod diffyg adnoddau addas ar gyfer yr 20% tybiedig o ddisgyblion sydd ag anghenion arbennig. Dyna pam y daethom i'r penderfyniad bod angen cynhyrchu Rheoli Arian er mwyn llenwi'r bwlch penodol hwn.

Roeddem o'r farn y dylid cynllunio a threialu unrhyw adnodd newydd gydag athrawon sy'n gweithio yn eu hysgolion ac sy'n ymwybodol o'r hyn sydd ei angen ar eu disgyblion. Ym mis Chwefror 2008, daeth gweithgor at ei gilydd oedd yn cynnwys athrawon o ysgolion arbennig ac ysgolion prif lif, **nasen**, Sefydliad Troseddau'r Ifanc, ymgynghorwyr **pfeg** a chynghorwyr awdurdodau lleol i drafod yr hyn oedd yn bosibl. Barn y grŵp oedd y dylid anelu'r adnodd at blant a phobl ifanc y cytunwyd bod ganddynt anawsterau dysgu canolig (ADC = 29% o fyfyrwyr ag anghenion arbennig) ac anawsterau ymddygiadol, emosiynol a chymdeithasol (AYECh = 26.4% o fyfyrwyr ag anghenion arbennig) sydd mewn addysg prif ffrwd. Byddai hyn yn sicrhau bod y nifer mwyaf o bobl ifanc yn elwa o'r adnodd hwn. Gall athrawon mewn ysgolion arbennig addasu'r gweithgareddau a'u symleiddio ymhellach er mwyn iddynt fod yn addas ar gyfer y grwpiau penodol y maent hwy yn eu dysgu.

Penderfynodd y grŵp paratoi y dylai cyd-destun yr adnodd fod yn berthnasol i fywyd grwpiau amrywiol o bobl ifanc. Y teimlad oedd y byddai gwario a siopa yn thema a allai gyrraedd y nod hwn. Barn yr athrawon yn y grŵp oedd y dylai cynllun pob testun eu galluogi i ddewis rhannau ohono i'w cyflwyno yn ôl y gofyn. Byddai hyn yn rhoi'r cyfle mwyaf eang i athrawon ddefnyddio'r gweithgareddau o fewn eu dysgu. Roedd galw hefyd am strategaethau dysgu gweithredol er mwyn lleihau'r pwyslais ar waith ysgrifenedig yn y tasgau.

## Ynglŷn â'r adnodd hwn

Mae'r adnodd hwn mewn tair rhan yn ôl cais gan yr athrawon anghenion addysg arbennig:

- Adran 1: **Prynu a gwerthu**
- Adran 2: **Ffynonellau incwm**
- Adran 3: **Datrys problemau**

Mae pob adran wedi'i rhannu yn gyfres o weithgareddau sy'n ymdrin â'r testunau hynny y gwelwyd bod prinder deunyddiau addas ar eu cyfer. Y nod yw llenwi'r bylchau yn y ddarpariaeth bresennol ac nid ailgyflwyno deunyddiau sy'n bodoli eisoes. Dyna paham nad yw'r gweithgareddau yn ymdrin â phob agwedd o ariannu personol. Does dim yma, er enghraifft, ar sut i agor cyfrif banc gan fod digon o ddeunyddiau'n bodoli eisoes ar hyn.

Mae pob gweithgaredd yn dechrau â disgrifiad o'r cefndir ar gyfer yr athrawon ynghyd â chysylltiadau gwe i'w dilyn er mwyn paratoi ar gyfer cyflwyno'r gweithgaredd. Yna mae amcanion y dysgu sydd wedi'u gwahaniaethu yn ôl y categorïau 'rhaid', 'dylent' a 'gallent'. Gellir gwahaniaethu ymhellach drwy ddefnyddio rhai o'r syniadau a restrir ar gyfer amrywio'r gweithgareddau. Yna mae cyfeiriadau at rannau perthnasol Gorchmynion a Fframweithiau'r cwricwlwm cenedlaethol dan y pennawd 'Cysylltiadau â'r cwricwlwm'. Rhestrir geiriau allweddol y gweithgaredd gan efallai y byddai trafod yr eirfa berthnasol yn ddefnyddiol cyn rhoi cynnig ar y gweithgaredd. Mae yno awgrymiadau ar gyfer cynllunio gwersi sy'n seiliedig ar y testunau. Mae pob tasg wedi'i rhannu'n gamau llai. Y bwriad yma yw defnyddio'r camau un ar ôl y llall, ond gall athrawon benderfynu hepgor rhai ohonynt a defnyddio ond un neu ddau. Er y gellir cwblhau rhai gweithgareddau mewn un wers, gall eraill ymestyn dros gyfres o wersi.

Mae'r gweithgareddau yn enghreifftiau o ymarfer da a/neu ymarfer diddorol. Maent wedi bod drwy'r felin, oedd yn cynnwys treialu deunyddiau gan athrawon a myfyrwyr, er mwyn ennill Marc Ansawdd y **pfeg** (www.pfeg.org). Byddai hi'n amhosibl ymateb i holl ystod gofynion anghenion arbennig mewn un pecyn adnoddau felly nid ydym wedi cynnwys, er enghraifft, fersiynau 'widgit' o'r gweithgareddau. Byddai rhai gweithgareddau yn hwylusach pe byddai'r myfyrwyr yn gallu defnyddio'r rhyngrwyd, er ein bod yn sylweddoli bod polisïau ar hyn yn amrywio'n fawr a'i fod wedi'i wahardd yn llwyr mewn sefydliadau troseddau'r ifanc. Mae'r holl weithgareddau ar gael ar y we fel y gellir eu haddasu a'u diweddaru gan athrawon. Ceir gwybodaeth bellach a chymorth ar wefan y **pfeg**.

## Cysylltiadau â'r cwricwlwm

Y cysylltiadau i'r cwricwlwm sydd yn Rheoli Arian yw'r amcanion dysgu sy'n berthnasol i'r oedran 11 i 19 yn y tair dogfen cwricwlwm y cyfeirir atynt yn y paragraff cyntaf ar dudalen pedwar, sef:

## Y gorchymyn mathemateg ar gyfer dysgwyr 7 i 16 oed

**Oedran 11–14**

Dylid rhoi cyfleoedd i'r dysgwyr:

- ddeall a defnyddio'r dull confensiynol o gofnodi arian
- cyfrifo gydag arian a datrys problemau sy'n ymwneud â chyllidebu, cynilo a gwario, gan gynnwys cyfraddau newid arian cyfred
- dehongli dangosydd cyfrifiannell mewn perthynas ag arian.

**Oedran 14–16**
Dylid rhoi cyfleoedd i'r dysgwyr:
- ddeall a defnyddio'r dull confensiynol o gofnodi arian
- cyfrifo gydag arian a datrys problemau sy'n ymwneud â chyllidebu, cynilo a gwario, gan gynnwys cyfraddau newid arian cyfred, elw a cholled, disgownt, hurbwrcas, y bargeinion gorau, biliau tŷ ac adlog
- dehongli dangosydd cyfrifiannell mewn perthynas ag arian.

## Fframwaith addysg bersonol a chymdeithasol ar gyfer dysgwyr 7 i 19 oed yng Nghymru

Mae angen i ddysgwyr ddatblygu dealltwriaeth o rôl a phwysigrwydd arian hefyd.  Mae angen cymorth arnynt i ddeall eu rôl a'u cyfrifoldebau fel defnyddwyr, a chymorth i feithrin gallu ariannol a fydd yn eu galluogi i ffurfio barn effeithiol a gwneud penderfyniadau effeithiol mewn perthynas â materion economaidd.  Mae ABCh, yn arbennig y thema Paratoi ar gyfer dysgu gydol oes, yn darparu cyfleoedd clir i ddysgwyr ddatblygu eu gallu ariannol.

**Oedran 11–14**
Dylid rhoi cyfleoedd i'r dysgwyr ddeall:
- canlyniadau economaidd a moesegol y penderfyniadau ariannol personol y maent yn eu gwneud fel defnyddwyr, e.e. Masnach Deg
- sut i reoli'u materion ariannol personol yn fedrus a sylweddoli bod cynilo arian yn arwain at annibyniaeth ariannol.

**Oedran 14–16**
Dylid rhoi cyfleoedd i'r dysgwyr ddeall:
- eu hawliau fel defnyddwyr a'u cyfrifoldebau o safbwynt rheoli cyllideb
- pwysigrwydd cynllunio ar gyfer eu dyfodol ariannol a sut i gael gafael ar gyngor ariannol.

**Oedran 16–19**
Dylid rhoi cyfleoedd i'r dysgwyr ddeall:
- eu hannibyniaeth gynyddol o safbwynt rheoli'u materion ariannol personol a chael gafael ar gredyd.

## Gyrfaoedd a'r byd gwaith: fframwaith i bobl ifanc 11 i 19 oed yng Nghymru

**Oedran 11–14**
Dylid rhoi cyfleoedd i'r dysgwyr:
- archwilio priodoleddau entrepreneuriaid a rôl menter wrth greu cyfoeth.

**Oedran 14–16**
Dylid rhoi cyfleoedd i'r dysgwyr:
- archwilio rôl menter/creu cyfoeth a datblygu eu gallu eu hunain i weithredu mewn ffordd entrepreneuraidd.

**Oedran 16–19**
Dylid rhoi cyfleoedd i'r dysgwyr:
- ymroi i weithgareddau sy'n annog ymagwedd entrepreneuraidd at waith a chreu cyfoeth.

## Iaith gallu ariannol

Mae hi yn natur gallu ariannol bod cynifer o'r termau a ddefnyddir yn anghyfarwydd a bod y cysyniadau eu hunain yn anodd i'r myfyrwyr eu deall. Rydym ni wedi ceisio gwneud y gweithgareddau mor hygyrch â phosibl drwy ddefnyddio brawddegau byr a geiriau byr. Er hynny, bydd rhai dysgwyr am ddefnyddio adnoddau sy'n gofyn am sgiliau darllen sy'n uwch na'u gallu. Rydym wedi nodi rhai o'r 'geiriau allweddol' yn y nodiadau sydd i athrawon ar ddechrau pob gweithgaredd, ac mae diffiniadau syml ar gyfer pob gweithgaredd i'w gweld yn y rhestr termau. Er mwyn i'r myfyrwyr elwa cymaint â phosibl o'r gweithgareddau byddai'n dda pe gallai athrawon wneud peth gwaith rhagarweiniol gyda'r myfyrwyr er mwyn datblygu'u geirfa. Yn ôl anghenion y dysgwyr, gellir gwneud hyn drwy ddefnyddio cardiau fflach, posau chwilio am eiriau, paru geiriau neu drwy gynnal cwis. Efallai y bydd angen dysgu sillafu drwy ddefnyddio dulliau megis cofrifau, delweddu, ac 'edrych – amlinellu – cuddio – ysgrifennu – gwirio'; yn ogystal â chreu 'banc termau'. Bydd argraffu deunyddiau i'r myfyrwyr ar bapur llwydfelyn hefyd yn gymorth i'w darllenadwyedd.

## Cyfleoedd asesu

Mae cyfleoedd i asesu drwy gydol y gweithgareddau. Gall hunanasesu, asesu gan gyfoedion a/neu athrawon ddefnyddio'r cwestiynau canlynol:

- Wnaeth y dysgwyr orffen y gweithgaredd yn llwyddiannus?
- Wnaeth y dysgwyr gwrdd ag amcanion dysgu'r gweithgaredd?
- Ydy'r dysgwyr yn gallu egluro'r termau a'r cysyniadau?
- Wnaeth y dysgwyr gymryd rhan yn llwyddiannus?
- Ydy'r dysgwyr yn gallu darparu tystiolaeth o'u dysgu?
- Ydy'r dysgwyr yn gallu cynnal a chymhwyso'u gwybodaeth?

## Diweddglo

Mae Rheoli Arian yn dangos yn glir y diddordeb sydd gan **pfeg** yng ngallu pobl ifanc sydd ag anghenion addysgol arbennig. Ein gobaith ni yw y byddwch yn defnyddio ac yn datblygu'r gweithgareddau hyn ar gyfer eich disgyblion chi, ond hefyd y byddwch yn edrych arnynt fel ysgogiad i'ch gwaith chi ar ddatblygu'r cwricwlwm. Mae diddordeb parhaol gan **pfeg** mewn cyhoeddi astudiaethau achos o safon fydd yn eich galluogi chi i rannu'ch profiadau â nifer eang o athrawon ar draws y DU. Bydd rhagor o enghreifftiau ar ein gwefan www.pfeg.org.

# Gweithgaredd 1: Siopa

## Cefndir

Mae ymdrin ag arian papur a darnau arian wrth brynu nwyddau yn un o sgiliau sylfaenol ein gallu ariannol. Er mwyn gwneud hyn yn gywir rhaid deall gwerth arian, gallu cyfrifo faint sydd i'w dalu a gwybod os ydy'r newid cywir wedi'i roi. Mae defnyddio arian ffug gyda myfyrwyr hŷn wedi cael ei feirniadu yn y gorffennol, felly mae'n well defnyddio arian iawn yn yr ymarfer hwn. Bydd hyn, wrth gwrs, yn gofyn am drefn fydd yn sicrhau bod yr holl arian yn cael ei ddychwelyd ar ddiwedd yr ymarfer. Gellir lleihau'r trafferthion posibl drwy i'r myfyrwyr chwarae unrhyw ran sy'n ymwneud â thrafod yr arian fesul un o flaen gweddill y grŵp. Gallan nhw ymarfer mewn parau cyn defnyddio'r arian iawn o flaen gweddill y dosbarth.

| Amcanion y dysgu | |
|---|---|
| **Rhaid** | deall gwerth darnau arian ac arian papur, a gallu cynnal pryniant syml |
| **Dylent** | allu cymharu prisiau a phenderfynu ar y gwerth gorau am yr arian |
| **Gallent** | ddeall gwahanol fathau o gynigion arbennig wrth brynu nwyddau |

| Cysylltiadau â'r cwricwlwm | |
|---|---|
| **Mathemateg** | • deall a defnyddio'r dull confensiynol o gofnodi arian<br>• cyfrifo gydag arian a datrys problemau sy'n ymwneud â chyllidebu a gwario. |
| **ABCh** | Sgiliau<br>• gwneud penderfyniadau a dewisiadau gwybodus yn effeithiol<br>• datblygu sgiliau ymarferol sy'n angenrheidiol ar gyfer bywyd bob dydd.<br>Ystod<br>• sut i reoli'u materion ariannol personol yn fedrus<br>• deall eu cyfrifoldebau o safbwynt rheoli cyllideb. |
| Cysylltiadau posibl eraill: bwyta'n iach, uwchfarchnad yn erbyn siopau lleol, prynwriaeth, trachwant. | |

| Geiriau allweddol |
|---|
| cronfa barod, cwsmer, defnyddiwr, newid, |

| Awgrymiadau |
|---|
| Defnyddiwch www.mysupermarket.co.uk i gymharu prisiau yn eich ardal chi |

## Tasgau

### Cam 1

Cyn dechrau'r sesiwn dylech sicrhau bod digon o arian ar gael ar gyfer y prynwyr a bod 'cronfa barod' ar gael i'r gwerthwyr er mwyn iddyn nhw roi newid i'r prynwyr. Bydd trefnu bod y chwarae rhan yn digwydd fesul pâr yn ei gwneud hi'n haws i chi gadw llygad ar yr arian. Rhannwch y myfyrwyr yn barau (neu fesul pedwar os bydd angen help ychwanegol arnyn nhw). Eglurwch mai prynu bydd un tra bo'r llall yn gwerthu. Gofynnwch iddyn nhw benderfynu pwy fydd yn prynu a phwy fydd yn gwerthu ar ddechrau'r gweithgaredd a gofynnwch am wirfoddolwyr ar gyfer y sesiwn gyntaf. Dylech egluro swyddogaeth y gwerthwr a'r cwsmer.

**Gwerthwyr**

Mae'r gwerthwyr yn cynnal siop bob peth neu siop gornel. Mae cronfa barod ganddyn nhw er mwyn gallu rhoi newid i'r cwsmeriaid. Bydd y cwsmer yn dod i mewn i'r siop a dylai'r gwerthwr estyn croeso i'r cwsmer. Bydd angen iddyn nhw egluro pa ddewis o nwyddau sydd ar gael. Bydden nhw'n cymryd arian gan y cwsmer, yn rhoi'r newid cywir yn ôl ac yn dweud diolch wrthyn nhw am siopa yno.

# Gweithgaredd 1: Siopa

**Cwsmeriaid**
Bydd y cwsmeriaid am brynu rhywbeth yn y siop a bydd y cerdyn yn dweud faint y gallan nhw'i dalu fel pris isaf a phris uchaf amdano. Canllawiau sy'n dweud wrthyn nhw faint o arian ddylai fod ganddyn nhw wrth fynd i siopa am yr eitem honno ydy'r rhain. Bydd dewis o dri brand neu eitem ganddyn nhw. Byddan nhw'n penderfynu pa un i'w brynu, yn trosglwyddo'r arian i'r gwerthwr a gweld os ydyn nhw wedi cael y newid cywir.

Bydd y rhai sydd ddim yn rhan o'r prynu a'r gwerthu yn gwylio hyn oll, a gallan nhw gael rhan yn arsylwi ac asesu eu cyfoedion. Bydd hyn yn rhoi pwrpas i'r gwylio.

## Cam 2
Trefnwch fod Gwerthwr A yn sefyll y tu ôl i ddesg (cownter) a bod y set gyntaf o gardiau nwyddau ar gael (byddai'n well os gallwch ddefnyddio eitemau go iawn). Bwriad y rhain fydd rhoi dewis o nwyddau gwahanol sydd â phrisiau gwahanol i'r cwsmer. Bydd angen 'cronfa barod' ar y gwerthwr. Bydd maint y gronfa yn dibynnu ar werth y nwyddau a maint yr arian papur fydd ar gael i'w ddefnyddio. Rhowch y cerdyn cwsmer a swm o arian sy'n fwy na digon i brynu'r nwyddau i gwsmer A. Dylai'r arian fod yn amrywiaeth o arian papur a darnau arian. Bydd Cwsmer A yn penderfynu faint o arian fydd ei angen i wneud y siopa. Yna bydd y 'prynu' yn dechrau. Bydd y cwsmer yn 'ymweld' â'r siop ac yn dewis o'r nwyddau sydd ar gael. Yna bydd yn trosglwyddo arian i dalu am y nwyddau (mae hi'n debygol na fydd yr arian cywir ar gael i wneud y taliad). Bydd y gwerthwr yn cyfrifo faint fydd y newid ac yn ei roi i'r cwsmer. Bydd y cwsmer yn gwirio maint y newid. Casglwch yr arian yn ôl er mwyn bod yn barod am yr ail sesiwn o 'brynu'. Bydd hyn yn digwydd rhwng Gwerthwr B a Chwsmer B ac felly ymlaen hyd nes bod pob myfyriwr wedi cael tro ar hyn.

## Adolygu
Gofynnwch y cwestiynau canlynol i'r myfyrwyr:
- *Pa mor rhwydd oedd hi i gyfrifo'r newid cywir tra oedd y cwsmer yn aros yn y siop?*
- *Pa mor rhwydd oedd hi i'r cwsmeriaid wirio'r newid?*
- *Pam ei bod hi'n beth da i gael mwy o arian nag sydd wir ei angen arnoch chi? (Er mwyn gallu manteisio ar gynigion arbennig)*

## Amrywiadau
- Casglwch daflenni 'bargeinion' o siopau lleol sy'n dangos prisiau nwyddau cyffredin. Trefnwch y rhain mewn grwpiau a gofynnwch i'r myfyrwyr pa rai allan nhw eu fforddio.
- Cyflwynwch set o gardiau â nwyddau â phris isel iawn arnyn nhw i helpu myfyrwyr sy'n gweithio ar lefel sylfaenol (Bydd defnyddio melysion yn enghraifft o hyn - y Gwerthwr i gael Cardiau nwyddau 4 a'r Cwsmer i gael Cerdyn cwsmer E).

# Gweithgaredd 1: Siopa

## Cardiau'r cwsmer

### Cwsmer A

Rydych chi am brynu brwsh dannedd newydd.

Pris isaf £1.50

Pris uchaf £3.50

### Cwsmer D

Rydych chi am brynu torth o fara.

Pris isaf £1.00

Pris uchaf £2.50

### Cwsmer B

Rydych chi am brynu 1 neu 2 CD gan eich hoff fand.

Pris isaf £9.50

Pris uchaf £16.00

Penderfynwch os ydy'r cynnig 3 am bris 2 yn gynnig da ai peidio.

### Cwsmer Dd

Rydych chi am brynu papur ysgrifennu.

Pris isaf £1.25

Pris uchaf £3.00

### Cwsmer C

Rydych chi am brynu afalau – hanner cilo neu un cilo.

Pris isaf £1.00 y cilo

Pris uchaf £3.00 y cilo

### Cwsmer E

Rydych chi am brynu melysion.

Pris isaf 10c

Pris uchaf 50c

### Cwsmer Ch

Rydych chi am brynu batris AAA.

Pris isaf £3.00 am 4

Pris uchaf £6.50 am 8

# Gweithgaredd 1: Siopa

## Cardiau'r gwerthwr


**Gwerthwr A**

**Brwshys dannedd**



**Gwerthwr B**

**CD cerddoriaeth**



**Gwerthwr C**

**Afalau**



**Gwerthwr Ch**

**Batris**



**Gwerthwr D**

**Bara**




**Gwerthwr Dd**

**Papur ysgrifennu**



**Gwerthwr E**

**Melysion**



# Gweithgaredd 1: Siopa

## Cardiau nwyddau 1


















# Gweithgaredd 1: Siopa

## Cardiau nwyddau 2



















# Gweithgaredd 1: Siopa


## Cardiau nwyddau 3
















# Gweithgaredd 1: Siopa

## Cardiau nwyddau 4









# Gweithgaredd 2: Rhybudd i brynwyr

## Cefndir

Mae'r gweithgareddau hyn yn cyflwyno prynu nwyddau ar-lein i bobl ifanc ac yn nodi'r manteision a'r anfanteision o wneud hyn o'i gymharu â siopa 'wyneb yn wyneb'. Bydd angen i'r myfyrwyr wybod ychydig am ddulliau talu, gan gynnwys cardiau credyd a debyd a gwybod sut mae cyfrif banc yn gweithredu. Bydd hi'n eithaf tebyg y bydd rhai o'r bobl ifanc eisoes wedi prynu rhywbeth drwy eBay neu o leiaf yn adnabod rhywun sydd wedi gwneud hynny, felly bydd eu profiadau nhw yn fan cychwyn da. Bydd angen cryn wybodaeth gefndir cyn dechrau ar y gweithgareddau hyn, felly da o beth fyddai cadarnhau hyn wrth weithio drwy gam cyntaf y tasgau. Dylech chi hefyd fod yn gyfarwydd ag eBay drwy edrych ar www.ebay.co.uk a gwefannau cymharu prisiau megis www.ciao.co.uk.

| Amcanion y dysgu | |
|---|---|
| **Rhaid** | bod yn ymwybodol o brisiau cymharol a dod i benderfyniadau ar sail y gwerth gorau |
| **Dylent** | ddeall y trafferthion sy'n bosibl wrth siopa ar-lein a sut mae eu hosgoi |
| **Gallent** | ddod at benderfyniad gwybodus am brynu eitem ar-lein |

| Cysylltiadau â'r cwricwlwm | |
|---|---|
| **Mathemateg:** | • cyfrifo gydag arian a datrys problemau sy'n ymwneud â chyllidebu, gwario a bargeinion gorau. |
| **ABCh** | Sgiliau<br>• defnyddio TGCh mewn modd diogel a chyfrifol, gan ddilyn arferion diogel<br>• gwneud penderfyniadau a dewisiadau gwybodus yn effeithiol<br>• datblygu sgiliau ymarferol sy'n angenrheidiol ar gyfer bywyd bob dydd<br>• gwerthuso cyngor ariannol, cymryd cyfrifoldeb am waith cynllunio personol, a rheoli'u materion ariannol yn effeithiol.<br>Ystod<br>• sut i reoli'u materion ariannol personol yn fedrus<br>• deall eu hawliau fel defnyddwyr. |

| Geiriau allweddol |
|---|
| adborth, amgryptiad, ar-lein, arwerthiant, cerdyn credyd, cerdyn debyd, cymharu prisiau, dull talu, dychweliadau, gwarantwr, gwefan ddiogel, nwydd, PayPal, prynu, Safonau Masnachu, sgam, siec bersonol, yswiriant |

| Awgrymiadau |
|---|
| Os na fydd modd i chi gyrchu'r rhyngrwyd yn ystod y wers gwnewch gopïau electronig o dudalennau eBay i'w dangos ar fwrdd gwyn rhyngweithiol neu dosbarthwch gopïau ohonynt ar bapur. |

## Tasgau

### Cam 1

Holwch faint o'r myfyrwyr sydd eisoes wedi prynu nwyddau ar-lein neu sydd wedi prynu rhywbeth drwy eBay. Gofynnwch i'r myfyrwyr sut y gwnaethon nhw hyn ac a allan nhw egluro'r broses o gael cyfrif banc cyn iddyn nhw allu gwneud hyn. Nodwch y cysyniadau a'r geiriau allweddol y bydd gofyn i'r myfyrwyr eu defnyddio wrth drafod y ffyrdd o wneud hyn. Defnyddiwch y gweithgareddau sydd yn y Rhestr Termau i sicrhau bod y myfyrwyr yn deall ystyr y geiriau allweddol.

### Cam 2

Dylai bod cyfrifiadur ar gael i'r myfyrwyr (neu o leiaf bod un derfynell i'w rhannu rhwng dau). Dywedwch wrthyn nhw mai eu tasg ydy dod o hyd i'r pris isaf am ryw nwydd penodol: iPod, ffôn symudol

# Gweithgaredd 2: Rhybudd i brynwyr

(dywedwch chi pa fodel); gemau cyfrifiadur neu gonsol (eto, dywedwch chi pa frand a pha fodel) neu unrhyw beth arall y tybiwch chi fyddai'n eu diddori. Gallwch gasglu lluniau o'r rhain mewn papurau newydd neu gylchgronau i'w defnyddio fel cymhorthion gweledol. Dylid annog y myfyrwyr i ystyried pam eu bod yn tybio mai eu pris nhw ydy'r un rhataf. Soniwch yma am injan brynu (e.e. PriceRunnner: www.pricerunner.co.uk). Gofynnwch iddyn nhw ganfod faint fyddai'r pris am yr un nwydd ar eBay, ond dylech ond caniatáu eitemau â phris Prynu Nawr ('Buy it Now') neu un sydd ag ond awr ar ôl i'w werthu os ydy'r pris ar ffurf arwerthiant. Fel arall, gall y prisiau fod yn artiffisial o isel.

### Cam 3
Dylai'r myfyrwyr gofnodi'u canlyniadau ar y Daflen Gofnodi Rhybudd i Brynwyr. Holwch am nifer y prisiau gwahanol gafodd y myfyrwyr a gofynnwch ai'r pris oedd yr unig ystyriaeth wrth brynu ar-lein. Holwch ymhellach pa ffactorau sydd rhaid iddynt eu hystyried wrth brynu ar-lein. Cwestiynau megis: Ydy'r costau pacio a phostio neu ddanfon yn rhai rhesymol? Oedd y wefan yn un ddiogel? Ydyn nhw wir yn gwybod beth y maen nhw'n ei brynu? Oes rhywun ar gael i ddelio â phroblem, os bydd un yn codi? Beth oedd yr adborth am y gwerthwr ar eBay?

### Cam 4
Cyfeiriwch at eich profiadau chi o siopa ar-lein. Soniwch am rai o'r trafferthion (a'r cynllluniau sgam) sy'n wynebu pobl sy'n defnyddio eBay neu'n siopa ar-lein yn gyffredinol. Defnyddiwch y cardiau sydd ar gael a gofynnwch i'r myfyrwyr weithio mewn grwpiau o ddau neu dri i osod y problemau mewn trefn gan roi'r trafferthion neu'r materion maen nhw'n eu hystyried bwysicaf ar ben y pentwr. Trafodwch y trafferthion a'r materion sy'n digwydd fynychaf. Pa rai o'r rhain fyddai ddim yn digwydd pe byddai'r myfyrwyr yn prynu'r nwyddau o siop? Beth ydy prif fanteision prynu o siop?

### Cam 5
Gall y dulliau sy'n diogelu prynwyr wrth iddyn nhw brynu dros y rhyngrwyd neu o siop fod yn gymhleth tu hwnt (deddfwriaeth cwsmeriaid, codau ymarfer, cymdeithasau masnachu) felly bwriad yr ymarfer hwn ydy nodi rhai o'r prif drafferthion y mae hi'n debygol y caiff pobl ifanc drwy brynu ar-lein. Gwnewch gopïau o'r cardiau trafferthion ac atebion ar bapur o liwiau gwahanol. Torrwch y cardiau i ffurfio setiau Trafferthion ac Atebion Rhybudd i brynwyr. Gofynnwch i'r myfyrwyr weithio mewn grwpiau bach o dri i osod yr ymateb cywir wrth y trafferthion sydd o brynu ar lein (o Gam 4) gyda rhai atebion priodol.
Y parau cywir ydy: 1/Ff; 2/F; 3/E; 4/Dd; 5/D; 6/Ch; 7/C; 8/B; 9/A.

### Adolygu
Gofynnwch i'r myfyrwyr beth ydy'r prif bethau y dylent gofio amdanynt wrth iddyn nhw brynu pethau ar-lein:

- *Pa fath o drafferthion y maen nhw'n debygol o gael?*
- *Beth ydy'r prif fanteision ac anfanteision o brynu ar-lein o'i gymharu â phrynu mewn siop?*

Crynhowch y prif drafferthion a thrafodwch rhai ffyrdd o'u goresgyn.

### Amrywiadau
- Gofynnwch i'r myfyrwyr ddylunio poster neu daflen fydd yn rhybuddio pobl ifanc eraill ynglŷn â pheryglon siopa ar-lein.
- Mae hi'n werth sôn sut gall siopa ar-lein fod o fudd i'r siopwr. Gofynnwch i'r myfyrwyr ddylunio 'canllawiau defnyddiol ar gyfer siopa ar-lein' sydd wedi'u seilio ar eu profiad o ddefnyddio gwefan dda megis Amazon.
- Mae rhywbeth wedi'i brynu ar-lein ond mae'n ddiffygiol, neu dydyn nhw ddim wedi anfon y peth cywir, neu does dim wedi cyrraedd eto, neu fod rhyw drafferth arall wedi codi. Gofynnwch i'r myfyrwyr baratoi rhestr o gwestiynau a chwarae rhan eu bod yn ffonio'r gwerthwyr am eglurhad.

# Gweithgaredd 2: Rhybudd i brynwyr

Taflen gofnodi



Enw(au): ......................................................................................................................................

| | |
|---|---|
| Nwydd | |
| Brand a model | |
| Pris | |
| Rhoddion am ddim | |
| Postio a phacio | |
| Cyfanswm y gost | |
| Sut mae talu? | |
| Enw'r gwerthwr | |
| Cyfeiriad y gwerthwr | |
| Rhif ffôn y gwerthwr | |
| Cyfeiriad y wefan | |
| Nwydd mewn sêl? | |
| Pris eBay | |
| Pris 'Prynu Nawr' | |
| Nifer y cynigion | |




# Gweithgaredd 2: Rhybudd i brynwyr

## Trafferthion 1











# Gweithgaredd 2: Rhybudd i brynwyr

## Trafferthion 2









# Gweithgaredd 2: Rhybudd i brynwyr

## Trafferthion 3












# Gweithgaredd 2: Rhybudd i brynwyr

## Atebion 1








# Gweithgaredd 2: Rhybudd i brynwyr

## Atebion 2








# Gweithgaredd 2: Rhybudd i brynwyr

## Atebion 3









# Gweithgaredd 3: Dodrefnu a threfnu

## Cefndir

Mae byw yn annibynnol yn destun sy'n codi'n aml mewn gwaith datblygiad personol gyda phobl ifanc yng Nghyfnod Allweddol 4. Mae'r gweithgaredd hwn yn canolbwyntio ar ailgynllunio a dodrefnu ystafell wely yn eu cartref neu ystafell mewn fflat diddodrefn os ydyn nhw'n byw yn annibynnol gyda phobl ifanc eraill. Rhaid iddyn nhw benderfynu ar yr hyn yr hoffen nhw ei roi yn yr ystafell ar ôl gwybod mesuriadau a chynllun y llawr. Yna gydag £800 i'w wario, maen nhw i ddodrefnu'u hystafell gan ddefnyddio gwerthwyr ar-lein. Gallan nhw hefyd ychwanegu at y swm hwn drwy fentro i'r 'Twba Lwcus'. Bydd yn rhaid i'r myfyrwyr ystyried gwerth am arian ac effaith ildio i demtasiwn.

| Amcanion y dysgu | |
|---|---|
| **Rhaid** | deall y cysyniad o brynu nwyddau o fewn ffiniau cyllideb bendant |
| **Dylent** | ddeall sut mae rheoli cyllideb yn llwyddiannus |
| **Gallent** | ddeall y goblygiadau o ddefnyddio dulliau talu gwahanol |

| Cysylltiadau â'r cwricwlwm | |
|---|---|
| **Mathemateg** | • cyfrifo gydag arian a datrys problemau sy'n ymwneud â chyllidebu, gwario a bargeinion gorau. Hefyd graddfa, arwynebedd a thebygolrwydd (dewisol) |
| **ABCh** | Sgiliau<br>• gwneud penderfyniadau a dewisiadau gwybodus yn effeithiol<br>• datblygu sgiliau ymarferol sy'n angenrheidiol ar gyfer bywyd bob dydd<br>• gwerthuso cyngor ariannol, cymryd cyfrifoldeb am waith cynllunio personol, a rheoli'u materion ariannol yn effeithiol<br>Ystod<br>• deall eu cyfrifoldebau o safbwynt rheoli cyllideb<br>• deall yr angen i fyfyrio ar benderfyniadau personol am ddewisiadau ffordd o fyw. |
| Cysylltiadau posibl eraill: ailgylchu o'i gymharu â phrynu'n newydd. | |

| Geiriau allweddol |
|---|
| cyllideb, diddodrefn, dimensiynau, disgownt, wedi'i ddodrefnu |

| Awgrymiadau |
|---|
| Beth am ddefnyddio www.freecycle.org i weld os oes posibl dodrefnu'r ystafell am ddim? |

## Tasgau

### Cam 1

Eglurwch fod tri dewis ganddyn nhw:

- Maen nhw i ddodrefnu ystafell yn eu cartref
- Maen nhw i ddodrefnu ystafell mewn fflat lle maen nhw'n byw yn annibynnol gyda phobl eraill
- Mae ffrind wedi gofyn iddyn nhw i ddewis dodrefn ar gyfer ystafell y ffrind

Mae'r ystafell yn ddiddodrefn ond mae rhai pethau ganddyn nhw'n barod (offer cerddoriaeth, cyfrifiadur, ac ati) i'w roi yn yr ystafell. Gallan nhw ddewis tri pheth o'r 'banc' gan ddefnyddio cardiau Twba Lwcus A ond rhaid i'r cardiau 'Dewiswch chi' fod yn rhywbeth gwahanol i'r eitemau safonol y mae gofyn iddyn nhw eu prynu. Mae swm o £800 ganddyn nhw i'w wario ar-lein. Cyn dechrau ar y dasg trafodwch beth ydy

# Gweithgaredd 3: Dodrefnu a threfnu

dodrefn hanfodol a dodrefn a phethau eraill sy'n ddewisol mewn ystafell wely. Mae rhestr o'r dodrefn sy'n hanfodol ar gyfer eu hystafell ar y daflen Cyllideb. Dosbarthwch gopïau o'r daflen, un i bob disgybl. Gofynnwch iddyn nhw ysgrifennu eu henw ar frig y dudalen, yna gan weithio mewn parau, gofynnwch iddyn nhw greu cyllideb ar gyfer yr eitemau y maen nhw am eu prynu. Bydd hyn wedi'i seilio ar eu hamcangyfrifon nhw o bris pob eitem a/neu faint y maen nhw'n dewis ei wario. Dylent ysgrifennu'r symiau yn y golofn Cyllideb ac ni ddylai'r cyfanswm fod yn fwy na £800 (mae'n haws gwneud hyn mewn pensil i ddechrau).

### Cam 2

Eglurwch iddyn nhw bod cyfle ganddyn nhw erbyn hyn i gynyddu'u cyllideb drwy dynnu un cerdyn o'r pymtheg sydd yn Twba Lwcus B. Ond mentro maen nhw wrth wneud hyn gan y bydd tri o'r cardiau yn lleihau eu cyllideb. Mae siawns o 1 mewn 5 y bydden nhw'n colli arian a siawns o 4 mewn 5 o ennill. Cymysgwch y cardiau a gofynnwch i unigolion ddewis un (os oes 2–15 o fyfyrwyr defnyddiwch un dudalen o gardiau, os oes mwy na 15, defnyddiwch ddwy set). Os nad ydyn nhw am fentro colli arian o'u cyllideb, does dim rhaid iddyn nhw ddewis cerdyn. Mae hyn yn cyflwyno'r elfen o 'gêm' i'r gweithgaredd.

### Cam 3

Dosbarthwch gopïau o gynllun y llawr sy'n dangos ystafell sgwâr, syml a diddodrefn. Bydd angen i bob myfyriwr allu cyrchu'r we i siopa am eu dodrefn. Y cyngor fyddai defnyddio nifer bychan o werthwyr a gwefannau sy'n gwerthu dodrefn cymharol rad, e.e. www.ebay.co.uk; www.argos.co.uk neu www.homebase.co.uk.

Os na all y myfyrwyr gyrchu'r we, gallan nhw ddefnyddio catalogau. Y nod ydy prynu'r holl eitemau angenrheidiol o fewn eu cyllideb (ar ôl iddyn nhw gael siawns yn y Twba Lwcus). Yna byddan nhw'n ysgrifennu'r manylion am enw'r gwerthwr, enw'r eitem a'r pris ar y daflen Cyllideb. Gallan nhw ddarlunio'u hystafell drwy gopïo lluniau o'r eitemau a'u gludio o amgylch cynllun y llawr a thynnu saethau i ddangos ymhle yn hollol y byddan nhw'n eu gosod yn yr ystafell. (Bydd angen pensiliau, prennau mesur, sisyrnau a glud ar gyfer hyn.) Dylen nhw ystyried a fydd posibl i'r eitemau ffitio drwy'r drws a bod yr eitemau sydd ganddyn nhw ddim yn rhy fawr i faint yr ystafell. Tasg ychwanegol fyddai llunio cynllun o'r ystafell a dangos ymhle yn hollol y byddai pob dodrefnyn yn cael ei osod. Gellir dod o hyd i faint pob eitem ar y gwefannau. Mae caniatâd ganddyn nhw orwario hyd 20% o'r gyllideb (os allan nhw gyfrifo faint fydd hyn) ond iddyn nhw ddweud sut y bydden nhw'n dod o hyd i'r arian ychwanegol (efallai y bydd bargeinion arbennig ar gael ar y we).

Gofynnwch i'r myfyrwyr osod eu cynllun llawr, eu lluniau a'u taflen gyllideb at ei gilydd. Rhowch beth amser i'r myfyrwyr edrych ar gynlluniau a chyllidebau ei gilydd ac i ofyn cwestiynau. Yna gwahoddwch wirfoddolwyr i egluro sut y maen nhw wedi dodrefnu eu hystafell a faint oedd cost yr holl eitemau.

Gallwch holi:
- *Pa mor hawdd neu anodd oedd hi i gadw at y gyllideb?*
- *Pa gynigion arbennig oedd yna i annog pobl i wario'u harian?*
- *Pa eitemau oedd yn ddrutach na'r disgwyl? Pa eitemau oedd yn rhatach na'r disgwyl?*
- *Pa mor hawdd neu anodd oedd hi i ffitio'r eitemau i gyd i'r ystafell?*
- *Ydyn nhw'n tybio bod hyn yn gyllideb realistig i brynu'r holl bethau yr hoffen nhw eu cael yn yr ystafell?*

# Gweithgaredd 3: Dodrefnu a threfnu

Twba Lwcus A1



























# Gweithgaredd 3: Dodrefnu a threfnu

## Twba Lwcus A2







Dewiswch chi

Dewiswch chi

Dewiswch chi

# Gweithgaredd 3: Dodrefnu a threfnu

Twba Lwcus B1

Rydych chi'n etifeddu
**£250**
mewn ewyllys

Rydych chi'n ennill
**£100**
ar y bondiau premiwm

Rydych chi'n cael
**£100**
ar eich pen-blwydd

Rydych chi'n cael
**£50**
ar eich pen-blwydd

Rydych chi'n cael
**£300**
ar eich pen-blwydd

Rydych chi'n ennill
**£150**
am wneud mân swyddi

Rydych chi'n ennill
**£120**
mewn arwerthiant cist car

Mae rhywun yn rhoi gwely newydd i chi

# Gweithgaredd 3: Dodrefnu a threfnu

Twba Lwcus B2

Mae rhywun yn rhoi bwrdd a dwy gadair i chi

Rhaid i chi dalu dirwy o **£50**

Mae'ch teulu'n rhoi **£500** i'ch helpu chi

Rhaid i chi dalu dyled o **£100**

Mae'ch teulu'n rhoi **£200** i'ch helpu chi

Mae'ch teulu'n rhoi **£100** i'ch helpu chi

Rhaid i chi dalu bil o **£80**

# Gweithgaredd 3: Dodrefnu a threfnu

## Cyllideb


Enw(au):

Cyllideb = **£800** + y Twba Lwcus = Eich cyllideb newydd: **£**

| Eitem | Cyllideb | Gwerthwyr/ disgrifiad | Pris | Cyfanswm cronnus |
|---|---|---|---|---|
| Gwely | | | | |
| Cwpwrdd bach | | | | |
| Golau bach | | | | |
| Bwrdd neu ddesg | | | | |
| 2 gadair | | | | |
| Cadair esmwyth neu soffa | | | | |
| Lluniau neu bosteri | | | | |
| Mat | | | | |
| Cyfanswm | **£800** | | | |

# Gweithgaredd 3: Dodrefnu a threfnu

## Cynllun y llawr



# Gweithgaredd 4: Pupur gwyrdd neu domato coch

## Cefndir

Yn sgil yr holl bryder sydd am y cynnydd mewn gordewdra a bwyta bwyd gwael ymysg pobl ifanc, mae hi'n holl bwysig dysgu am fwydydd maethlon a sut mae bwyta'n iach ar arian prin. Yn y gweithgaredd hwn mae strategaethau cinesthetig a gweledol sy'n hybu dealltwriaeth ddyfnach o fwyta'n iach a helpu pobl ifanc i gydbwyso eu hanghenion maethol heb wario gormod. Mae'r gweithgaredd yn edrych ar siopa 'gwerth gorau' o fewn y cyd-destun o fwyta'n iach. Bydd cyfle gan y myfyrwyr i gynllunio pryd o fwyd ac yna cael bod yn feirniad tebyg i'r rhai ar yr amrywiol raglenni coginio sydd ar y teledu.

Y ffordd orau o gyflwyno'r gweithgaredd hwn ydy mewn partneriaeth â'r adran dechnoleg bwyd. Bydd y cefndir priodol i athrawon i'w ganfod ar y gwefannau canlynol:

- Asiantaeth Safonau Bwyd (FSA); y 'Plât bwyta'n iach': www.eatwell.gov.uk/healthydiet/eatwellplate/?=cy
- Gwefan y BBC: www.bbc.co.uk/food/
- Mae'r adran 'Arlwyo ar gyfer bwyta'n iach' i'w gweld ar Grid Cenedlaethol ar gyfer Dysgu Cymru: www.ngfl-cymru.org.uk
- Mae tudalen ar 'Bwyta'n iach' a chysylltiadau eraill gan Directgov. Gallwch gyrchu'r dudalen hon, a llawer mwy, wrth chwilio 'bwyta'n iach' ar unrhyw beiriant chwilio.
- Mae sawl podcast rhagorol yn Saesneg gan y British Nutrition Foundation sy'n egluro pwysigrwydd bwyta'n iach. Gallwch eu gweld ar YouTube: www.youtube.com/britishnutrition
- Mae rhagor o wybodaeth i'w gael am y Cynlluniau Ysgolion Iach – Rhwydwaith Cymru i'w gael ar http://wales.gov.uk/topics/health/improvement/children/schools/schemes/?skip=1&lang=cy

| Amcanion y dysgu | |
|---|---|
| **Rhaid** | deall y cysyniad o werth am arian wrth baratoi pryd o fwyd |
| **Dylent** | gynllunio pryd o fwyd ar arian prin |
| **Gallent** | gynllunio a pharatoi pryd o fwyd ar arian prin i rywun sydd ag anghenion deietegol penodol |

| Cysylltiadau â'r cwricwlwm | |
|---|---|
| **Mathemateg** | • cyfrifo gydag arian a datrys problemau sy'n ymwneud â chyllidebu, gwario, biliau tŷ a bargeinion gorau<br>Hefyd canrannau a gwaith ar ffracsiynau gan ddefnyddio'r 'plât bwyta'n iach' |
| **ABCh** | Sgiliau<br>• gwneud penderfyniadau a dewisiadau gwybodus yn effeithiol<br>• datblygu sgiliau ymarferol sy'n angenrheidiol ar gyfer bywyd bob dydd<br>Ystod<br>• sut mae rheoli'u materion ariannol personol yn fedrus<br>• deall eu cyfrifoldebau o safbwynt rheoli cyllideb<br>• deall canlyniadau economaidd a moesegol y penderfyniadau personol y maent yn eu gwneud fel defnyddwyr e.e. cefnogi siopau lleol yn hytrach nag uwchfarchnadoedd a thrafod prisiau bwyd gan anifeiliaid sy'n pori'n rhydd a bwyd organig |
| Cysylltiadau posibl eraill: Technoleg Bwyd - maeth a bwyta'n iach, paratoi a chymharu bwydlenni gwahanol. | |

| Geiriau allweddol |
|---|
| Mae'r rhain yn eiriau technoleg bwyd a bwyta'n iach yn hytrach na geiriau ariannu personol, e.e. maeth, cyffeithyddion, proteinau a fitaminau. |

| Awgrymiadau |
|---|
| Cymharwch y blas, y cynhwysion a chost pryd sydd wedi'i baratoi gartref o'i gymharu â phryd parod. |

# Gweithgaredd 4: Pupur gwyrdd neu domato coch

## Tasgau

### Cam 1

Ewch at wefan yr Asiantaeth Safonau Bwyd (FSA) ac argraffwch gopïau A4 o'r 'Plât bwyta'n iach'. Gofynnwch i'r myfyrwyr roi syniad am y cyfrannau sydd wedi'u cynnig ar gyfer:

Ffrwythau a llysiau; bara, reis, tatws a phasta; cig, pysgod, wyau a ffa a ffynonellau protein eraill; llaeth a chynhyrchion llaeth; bwydydd a diodydd sy'n llawn braster a/neu siwgr.

Sicrhewch eu bod yn deall y rhesymau pam y dylem fwyta'r bwydydd hyn, e.e. yn ffynonellau fitaminau, egni, protein a chalsiwm. Dangoswch y podcast YouTube (gweler uchod) i'r myfyrwyr ac yna'i ddefnyddio yn fan cychwyn trafodaeth.

### Cam 2

Rhannwch y grŵp yn dimau. Rhowch gopi o'r daflen Rhestr Cynhwysion i bob tîm. Eglurwch fod ganddyn nhw gwpwrdd yn cynnwys y cynhwysion sylfaenol: pupur, halen ac olew coginio, felly does dim rhaid iddyn nhw boeni am y rhain. Sicrhewch fod y myfyrwyr yn cofio'r pum math o fwyd sydd ar y 'Plât bwyta'n iach'. Atgoffwch y myfyrwyr unwaith eto beth ydy ystyr pryd 'cytbwys'. Rhowch 30 munud i bob tîm edrych ar y rhestr cynhwysion, i drafod rhai prydau posibl ac yna i gynllunio pryd dau gwrs i bedwar person am £10 neu lai.

Treuliwch beth amser gyda phob tîm yn ystod y cyfnod cynllunio i'w helpu os oes angen ac i roi syniadau ynglŷn â ryseitiau. Pan fydd pob tîm yn barod, gofynnwch iddyn nhw benodi un aelod o bob grŵp i ddisgrifio'r pryd a sut y bydden nhw'n ei goginio. Anogwch drafodaeth grŵp ar y bwydlenni gwahanol, er enghraifft, pa rai ydy'r rhai mwyaf iachus neu pa rai sy'n cynnig y gwerth gorau am yr arian. Penderfynwch ar y meini prawf ar gyfer y pryd gorau, e.e. gwerth am arian, bwyd maethlon, iachus a blasus. Yna gofynnwch i'r grŵp cyfan bleidleisio ar gyfer y pryd gorau am yr arian.

Ar ôl i'r grŵp benderfynu ar y pryd gorau, gallant baratoi 'cyflwyniad' amdano. Gallai hyn gynnwys poster sy'n rhestru'r cynhwysion a'u prisiau, lluniau neu ffotograffau priodol ac unrhyw sylw ffafriol gan y myfyrwyr eraill ar y pryd.

### Amrywiadau

Gallai'r myfyrwyr baratoi pryd o fwyd gartref, copïo'r rysáit a'i thrafod yn y dosbarth. Gallwch ddechrau drwy ofyn iddyn nhw gynllunio prif gwrs am bris cinio ysgol, tua £2. Rhowch gyfle i'r tîm buddugol brynu'r cynhwysion a threfnwch fod y cyfleusterau ar gael i'r grŵp goginio'r pryd ar gyfer pawb. Gofynnwch i rai myfyrwyr baratoi pryd ar gyfer grŵp o bobl ag anghenion deietegol penodol, e.e. bwyd â braster isel, bwyd llysieuol neu fwyd i rai sydd ag alergedd cnau.

# Gweithgaredd 4: Pupur gwyrdd neu domato coch

## Rhestr Cynhwysion

| BWYD | FAINT | £ |
|---|---|---|
| Byrgers cig eidion | 4 | £1.88 |
| Eidion wedi'i falu'n fân | 500g | £2.39 |
| Stêc eidion caserol | 500g | £2.75 |
| Cyw iâr (pris isel) | 1.4kg | £3.30 |
| Brest cyw iâr (buarth) | 2 | £5.18 |
| Sosej (pris isel) | 8 | 84c |
| Sosej (bwyta'n iach) | 8 | £1.47 |
| Ham rhost â mêl | 150g | £1.64 |
| Tafellau ham tenau (pris isel) | 200g | £1.18 |
| Ffiled hadog wedi'u rhewi | 2 | £3.39 |
| Ffiled eog di-groen (wedi'u rhewi) | 8 | £10.00 |
| Bysedd pysgod | 10 | £1.59 |
| Tun cig tiwna | 200g | £1.25 |
| Tun sardîns | 120g | 69c |
| Torth wen fawr (pris isel) | 1 | 59c |
| Torth wen fawr | 1 | £1.09 |
| Torth fawr o fara cyflawn | 1 | £1.09 |
| Pizza bach | 4 | 93c |
| Myffins siocled | 4 | £1.60 |
| Menyn | 250g | 94c |
| Margarin olew olewydd | 250g | 58c |
| Iogwrt ffrwythau (pris isel) | 6 | 98c |
| Caws aeddfed | 320g | £2.21 |
| Caws Cheddar (pris isel) | 250g | £1.52 |
| Trionglau caws meddal | 8 triongl | 78c |
| Llaeth | 1 litr | 40c |
| Tun tomatos â pherlysiau | 400g | 42c |
| Tun tomatos (pris isel) | 4x400g | £1.65 |
| Tun ffacbys | 400g | 43c |
| Tun ffa chilli | 420g | 39c |
| Tun madarch hufennog | 300g | 48c |
| Ffa pob (tun mawr) | 415g | 47c |
| Bocs o 6 wy | 1 | £1.60 |
| Pot o hufen sengl | 1 pot | 95c |
| Llysiau cymysg wedi'u rhewi | 1.2kg | £1.18 |
| Pys wedi'u rhewi | 800g | £1.68 |

# Gweithgaredd 4: Pupur gwyrdd neu domato coch

## Rhestr Cynhwysion

| BWYD | FAINT | £ |
|---|---|---|
| Pys wedi'u rhewi (pris isel) | 900g | 98c |
| Madarch | 250g | 79c |
| Brocoli | 300g | 89c |
| Moron | 1kg | 62c |
| Afalau | 5 | 49c |
| Tomatos | 6 | 69c |
| Winwns | 2 | 33c |
| Pupur coch/gwyrdd | 1 | 78c |
| Tatws drwy'u crwyn | 2 | 63c |
| Tatws (newydd) | 1 kg | £1.28 |
| Tatws | 2.5kg | £1.12 |
| Spaghetti | 500g | 49c |
| Fusilli (darnau pasta) | 500g | 55c |
| Tagliatelle (rhubanau pasta) | 500g | 92c |
| Reis (hawdd ei goginio) | 500g | 52c |
| Nwdls | Digon i 2 | £1.25 |
| Nwdls mewn pot (unigol) | 1 | 89c |
| Saws coginio (o India, Gwlad Thai neu China) | 1 jar | £1.29 |
| Garlleg | 1 bwlb | 35c |
| Perlysiau amrywiol | 1 pecyn | 40c |
| Cyflas pum sbeis (o China) | 1 jar | 78c |
| Grefi parod | 170g | 54c |
| Ciwbiau isgell | Pecyn o 10 | 70c |
| Blawd (pris isel) | 1.5kg | 93c |
| Siwgr | 500g | 45c |
| Pizza parod | 12" | £2.99 |
| Pastai bysgod | Digon i 2 | £3.98 |
| Pryd parod cyw iâr | Digon i 2 | £3.69 |
| Pryd Tsieineaidd | Digon i 2 | £2.20 |
| Salad coleslaw a thatws | 500g | 98c |
| Salad ham a phasta | 300g | £1.68 |
| Sglodion popty | 1kg | £1.81 |
| Coca Cola | Potel 1.25 litr | £1.25 |
| Coca Cola | 1 botel | 92c |

# Gweithgaredd 5: Carys a Mo

## Cefndir

Mae'r gweithgaredd hwn yn tanlinellu'r broblem o orwario pan mae arian yn brin. Yma cawn hanes ffordd o fyw dau berson ifanc, Carys a Mo. Mae cyllideb gan y ddau sy'n dangos incwm a gwariant misol nodweddiadol. Tasg y myfyrwyr ydy trafod eu ffyrdd o fyw a'u patrymau gwario i weld ymhle y gallan nhw gwtogi a pheidio gorwario. Yna gallant greu cyllideb debyg iddyn nhw eu hunain neu ar gyfer rhyw berson dychmygol.

| Amcanion y dysgu | |
|---|---|
| **Rhaid** | gwybod bod angen i bawb gydbwyso eu cyllidebau personol rhwng incwm a gwario er mwyn osgoi bod mewn dyled |
| **Dylent** | ddeall bod posibl rhannu gwario i wario hanfodol a gwario dewisol |
| **Gallent** | ddeall bod posibl newid ein dewisiadau personol a'n ffyrdd o fyw er mwyn osgoi mynd i ddyled |

| Cysylltiadau â'r cwricwlwm | |
|---|---|
| **Mathemateg** | • cyfrifo gydag arian a datrys problemau sy'n ymwneud â chyllidebu a gwario |
| **ABCh** | Sgiliau<br>• gwneud penderfyniadau a dewisiadau gwybodus yn effeithiol<br>• datblygu sgiliau ymarferol sy'n angenrheidiol ar gyfer bywyd bob dydd<br>• gwerthuso cyngor ariannol, cymryd cyfrifoldeb am waith cynllunio personol, a rheoli'u materion ariannol yn effeithiol<br>Ystod<br>• sut mae rheoli'u materion ariannol personol yn fedrus<br>• deall eu cyfrifoldebau o safbwynt rheoli cyllideb<br>• deall pwysigrwydd cynllunio ar gyfer eu dyfodol ariannol<br>• deall yr angen i fyfyrio ar benderfyniadau personol am ddewisiadau ffordd o fyw<br>• deall y ffactorau sy'n effeithio ar iechyd meddwl a'r ffyrdd y gellir meithrin lles emosiynol |

| Geiriau allweddol |
|---|
| costau, cyllideb, cynilion, gwario, incwm, treuliau |

| Awgrymiadau |
|---|
| Rhowch gynnig ar y gêm Spendaholics ac edrychwch ar Bank of Mum and Dad ar y wefan Saesneg www.bbc.co.uk. Mae'r ddau yn dangos pwysigrwydd cyllido manwl. |

## Tasgau

### Cam 1

Edrychwch ar bwy sydd yn y grwpiau a phenderfynwch os ydych chi am ddefnyddio'r ddwy astudiaeth achos neu ond un ohonyn nhw. Yn hytrach na gofyn i'r myfyrwyr edrych ar eu cyllidebau eu hunain, mae'r gweithgaredd hwn yn eu gwahodd i gynnig help i ddau berson ifanc arall ar sut mae'n bosibl iddyn nhw dorri ar eu gwariant i gwrdd â'u hincwm. Rhannwch y dosbarth yn dri ar gyfer y dasg hon. Dosbarthwch gopïau o'r astudiaethau achos. Gall pawb gael un astudiaeth achos, grwpiau gwahanol gael Carys a Mo neu gall pawb gael y ddau. Gan ddibynnu ar lefel llythrennedd y grŵp, naill ai darllenwch drwy'r astudiaethau gyda'r myfyrwyr neu gofynnwch iddyn nhw eu darllen ar eu pennau eu hunain. Wrth iddyn nhw eu darllen gofynnwch iddyn nhw nodi'r prif bethau mae Carys a Mo yn gwario'u harian arnyn nhw. Dylai'r rhain gael eu rhannu i bethau hanfodol (y mae'n rhaid iddyn nhw wario arnyn nhw) a'r pethau dewisol, lle y gallan nhw leihau neu ohirio'r gwario.

# Gweithgaredd 5: Carys a Mo

Adolygwch y dasg drwy ofyn rhai cwestiynau:
- *Beth ydy ffynhonnell neu ffynonellau eu hincwm?*
- *Beth ydy ystyr 'incwm'?*
- *Pa rai o'r eitemau maen nhw'n eu hystyried yn bethau hanfodol?*
- *Pa rai o'r rhain sydd wir yn bethau dewisol?*

**Cam 2**
Dosbarthwch gopïau o'r taflenni cyllido pwrpasol ar gyfer Carys a Mo. Gofynnwch i'r grŵp drafod a chynnig rhai toriadau fel bod eu cyllideb yn un cytbwys, h.y. bod yr incwm yn hafal i'r gwario (a'r cynilo). Dylen nhw drafod eu cynigion yn eu grwpiau a nodi'r newidiadau ar y taflenni cyllido. Dylen nhw wirio bod y gwario'n llai na'r incwm. Eglurwch iddyn nhw y bydd gofyn iddyn nhw benodi un person fydd yn adrodd eu canlyniadau yn ôl i'r grŵp cyfan.

Adolygwch y dasg drwy ofyn rhai cwestiynau:
- *Ai'r un toriadau i wario Carys a Mo oedd gan y grwpiau i gyd?*
- *Oes syniadau gwahanol gan bobl am yr hyn sy'n hanfodol a'r hyn sy'n ddewisol?*
- *Beth allai Carys a Mo eu gwneud i geisio cael rhagor o incwm fel bod dim rhaid iddyn nhw dorri eu gwariant?*

**Fersiwn syml**
Yn hytrach na defnyddio'r astudiaethau achos a'r taflenni cyllido gallwch ddefnyddio setiau Cardiau Carys a Mo. Mae'r rhain yn dangos yr eitemau gwario ar gardiau unigol. Mae'r myfyrwyr i greu dau bentwr â'r cardiau, un ar gyfer y gwario hanfodol a'r llall ar gyfer y gwario dewisol. Yna gallan nhw gynnig sut mae cydbwyso'r cyllidebau drwy dorri ar rhai o'r eitemau sydd yn y pentwr 'dewisol'.

**Cam 3**
Fel tasg sy'n dilyn ymlaen o hyn, gall y myfyrwyr greu proffil o'u bywydau hwy eu hunain a chwblhau cyllideb debyg i rai Carys a Mo ar daflen gyllido wag. Fel arall, gallan nhw greu proffil a chyllideb ar gyfer 'ffrind dychmygol' neu ar gyfer eu hunain ymhen dwy flynedd. Dylai'r gyllideb fod yn un synhwyrol a chytbwys. Mae adnodd rhyngweithiol ar gyllido personol ar y wefan http://moneysense.rbs.co.uk/rbs/default.asp.

# Gweithgaredd 5: Carys a Mo

## Carys

### Arian poced

Arian poced Carys ydy **£50** y mis, ond mae hi'n brin o arian o hyd. Mae hi'n hoffi cerddoriaeth. Mae hi'n llwytho cân newydd i'w iPod o'r we bron bob dydd.


Mae hi'n defnyddio'i ffôn symudol yn gyson, yn anfon negeseuon neu'n sgwrsio â'i ffrindiau.



### Siopa

Weithiau mae hi'n mynd i dŷ un o'i ffrindiau. Weithiau maen nhw'n cyfarfod o flaen y siopau lleol neu mewn parc.

Ar y penwythnosau bydd hi a'i ffrindiau'n mynd i'r dref ac yn crwydro o amgylch y siopau. Bydd hi'n prynu crys-T neu CD fel arfer – dim ond os ydy hi wedi dod o hyd i arian ychwanegol.




### Chwaraeon

Yr un peth na fydd Carys yn ei golli ydy'i chlwb nofio. Mae hi wrth ei bodd yno ac mae hi'n ddigon da i fod yn y tîm cystadlu. Mae hi'n talu tâl aelodaeth o **£2.50** bob mis. Fel arfer, bydd hi yno ddwywaith bob wythnos.

### Gwyliau

Mae ei brawd mawr newydd ddod yn ôl o wythnos yn Ibiza. Byddai hi'n hoffi mynd yno hefyd. Bydd yn rhaid iddi hi gynilo cyn gallu mynd.

**Sut all Carys dorri ei gwario (£77.05) at lefel ei hincwm (£50)?**



## Gweithgaredd 5: Carys a Mo

# Sut mae Carys yn gallu rheoli ei chyllideb?

- Pa rannau o'r gwario sy'n 'hanfodol' a pha rannau sy'n 'ddewisol'?
- Sut all Carys dorri ar ei gwario?
- Ydy hi'n gallu cynilo peth o'i harian?

Trafodwch a chytunwch ar gyllideb newydd ar gyfer ei gwario misol.

Ysgrifennwch eich ffigurau chi yn y golofn **Cyllideb Newydd**.

Gwnewch yn siŵr bod **cyfanswm y gwario + y cynilion = £50**

| Incwm misol | Gwariant misol | | Cyllideb newydd |
|---|---|---|---|
| **Lwfans o £50** | **Teithio**<br>Gweld ffrindiau a mynd i'r dref | <br>**£12.00** | |
| | **Bwyd**<br>Byrbrydau yn ogystal â'i chinio<br>• Siocled:<br>• Sglodion:<br>• Diodydd:<br>• Prynu bwyd a diodydd i ffrindiau: | <br><br>**£7.00**<br>**£3.60**<br>**£5.00**<br>**£3.00** | |
| | **Cerddoriaeth a DVD**<br>Llwytho cerddoriaeth o'r we:<br>Prynu DVD gan ffrind: | <br>**£16.00**<br>**£4.00** | |
| | **Colur**<br>Hylif croen: | <br>**£2.50** | |
| | **Cyfathrebu**<br>Ffôn symudol (talu wrth siarad):<br>Galwadau o ffôn cyhoeddus<br>(wedi gadael y ffôn symudol gartref): | <br>**£18.00**<br><br>**80c** | |
| | **Chwaraeon a hobïau**<br>Aelodaeth o'r clwb nofio:<br>Chwarae gemau arcêd: | <br>**£2.50**<br>**£2.65** | |
| | **Cynilion**<br>Dim cynilion: | <br>**£0.00** | |
| | **Cyfanswm y gwario:** | **£77.05** | **£50.00** |

# Gweithgaredd 5: Carys a Mo

Set cardiau Carys

**Incwm 1**

Arian poced



£50

**Gwario 1**

Teithio



£12

**Gwario 2**

Byrbrydau



£18.60

**Gwario 3**

Cerddoriaeth



£20

**Gwario 4**

Colur



£2.50

**Gwario 5**

Ffôn



£18.80

**Gwario 6**

Clwb nofio



£2.50

**Gwario 7**

Gemau arced



£2.65

**Cynilo 1**

Cynilion



£0

# Gweithgaredd 5: Carys a Mo

## Mo

### Incwm

Mae Mo yn ennill **£4.50** yr awr wrth weithio mewn siop leol. Mae'n gweithio deg awr yr wythnos ac yn ennill **£180** y mis. Mae'n cael **£20** y mis am wneud mân swyddi yn y tŷ ac yn yr ardd. Mae'n fyfyriwr yn y coleg felly mae'n cael **£10** yr wythnos o lwfans cynhaliaeth addysg (LCA). Ei incwm misol ydy **£240** y mis.



### Costau'r car a byw gartref

Mae hyn i'w weld yn llawer o arian ond mae Mo yn berson cymdeithasol ac mae ganddo lawer o ddiddordebau gwahanol. Mae newydd brynu car ail-law ac mae'n talu **£60** y mis amdano. Mae yswiriant y car yn **£50** y mis.

Mae ei fam am iddo gyfrannu at gael byw gartref. Dydy Mo ddim yn talu bob wythnos. Mae'n talu tua **£30** y mis fel arfer.

Dydy gweddill ei ffrindiau ddim yn gyrru felly maen nhw'n defnyddio cryn dipyn ar gar Mo. Mae'n gwario **£40** y mis ar betrol.

### Adloniant

Mae Mo'n hoffi mynd i'r sinema bob wythnos a bydd yn gwario tua **£6** bob tro. Ar brynhawn Sadwrn bydd yn mynd i wylio'i dîm pêl-droed lleol yn chwarae. Mae hyn yn costio **£25** iddo (**£50** y mis am ddwy gêm gartref). Ar nos Sadwrn bydd Mo a'i ffrindiau'n mynd i glwb nos a bydd yn gwario tuag **£20**. Mae hyn yn costio **£80** y mis iddo.

Mae'n talu am ei ffôn symudol yn ôl nifer y galwadau mae'n eu gwneud; rhyw **£20** y mis fel arfer.

Mae Mo mewn ychydig o drafferth ar hyn o bryd. Ei incwm ydy **£240** y mis ond mae'n gwario **£354** ar gyfartaledd.

**Sut all Mo newid ei batrwm gwario er mwyn rheoli ei gyllideb?**



## Gweithgaredd 5: Carys a Mo

# Sut mae Mo yn gallu rheoli ei gyllideb?

- Pa rannau o'i wario sy'n 'hanfodol' a pha rannau sy'n 'ddewisol'?
- Sut all Mo dorri ar ei wario?
- Ydy Mo'n gallu cynilo peth o'i arian?

Trafodwch a chytunwch ar gyllideb newydd ar gyfer ei wario misol.

Ysgrifennwch eich ffigurau chi yn y golofn **Cyllideb Newydd**.

Gwnewch yn siŵr bod **cyfanswm y gwario + y cynilion = £240**

| Incwm misol | Gwariant misol | Cyllideb newydd |
|---|---|---|
| **Gwaith o gwmpas y tŷ = £20**<br>**Gwaith rhan amser = £180**<br>**LCA = £40**<br>**Cyfanswm ei incwm = £240** | **Car a chostau byw**<br>Talu am y car: £60<br>Petrol: £40<br>Yswiriant y car: £50<br>Costau byw gartref £30 | |
| | **Adloniant**<br>Sinema: £24<br>Pêl-droed: £50<br>Clybiau: £80 | |
| | **Cyfathrebu**<br>Ffôn symudol(talu wrth siarad): £20 | |
| | **Cynilion**<br>Dim cynilion: £0 | |
| | **Cyfanswm y gwario: £354** | **£240** |

# Gweithgaredd 5: Carys a Mo

## Set cardiau Mo 1

**Incwm 1**

Gwaith rhan amser




£180

**Incwm 2**

Gwaith o gwmpas y tŷ



£20

**Incwm 3**

LCA



£40

**Gwario 1**

Taliadau'r car



£60

**Gwario 2**

Yswiriant y car



£50

**Gwario 3**


Petrol



£40

**Gwario 4**

Sinema



£24

**Gwario 5**

Pêl-droed



£50

# Gweithgaredd 5: Carys a Mo

Set cardiau Mo 2

**Gwario 6**

**Barrau a chlybiau**

**£80**



**Gwario 7**

**Ffôn symudol**

**£20**



**Gwario 8**

**Costau byw gartref**

**£30**



**Cynilo 1**

**Cynilo**

**£0**



## Gweithgaredd 5: Carys a Mo

# Taflen Gyllido Misol

**Enw** ___________________________________

**Oed (y person)** ___________________________________

| Incwm misol £ | Gwariant misol £ | Cyllideb £ |
|---|---|---|
| Arian poced = £<br>+<br>Gwaith rhan amser = £<br>+<br>Mân swyddi = £<br>+<br>Unrhyw incwm arall = £<br><br>Cyfanswm yr incwm misol = £ | Teithio | |
| | Bwyd | |
| | Cerddoriaeth a DVD | |
| | Adloniant | |
| | Cyfathrebu – ffôn symudol | |
| | Chwaraeon a hobïau | |
| | Cynilion | |
| | Eitemau eraill | |
| | **Cyfanswm y gwario:** | |

# Gweithgaredd 6: Chi sy'n dewis

## Cefndir

Mae llawer o bobl ifanc yn ymwybodol iawn o siopa moesegol ac yn y gweithgaredd hwn mae cyfle iddyn nhw ddod yn gyfarwydd â pheth o'r crafu pen sy'n wynebu darpar ddefnyddwyr moesegol. Mae 'defnyddiwr moesegol' yn berson sy'n ystyried sut mae'r cynnyrch neu'r gwasanaeth wedi'i baratoi a beth ydy'r gost i'r amgylchedd neu i bobl eraill cyn ei brynu. Drwy brynu rhywbeth rydym ni mewn gwirionedd yn 'rhoi ein pleidlais' dros gael rhagor ohono wedi'i wneud yn yr un ffordd. Drwy beidio â'i brynu rydym ni'n anfon neges ein bod yn anghytuno â sut mae'r cynnyrch wedi'i baratoi, ei bacio neu ei ddosbarthu. Mae dewis o gynhyrchion gwahanol yn y gweithgaredd hwn ac mae cyfle i drafod pa un fyddai'r myfyrwyr neu rywun arall yn ei brynu a sut mae cyfiawnhau'r dewis. Cyn dechrau ar y gweithgaredd dylai'r athrawon ystyried eu harferion prynu eu hunain a meddwl sut y bydden nhw'n ymateb i'r dasg. Byddwch yn barod am sensitifrwydd mewn unrhyw grŵp o bobl ifanc gan efallai y bydd rhai yn dod o gartrefi incwm isel sy'n ystyried prynu moesegol yn rhywbeth i'r dosbarth canol yn unig ymfalchïo ynddo. Os bydd hyn yn debygol o godi'i ben, defnyddiwch 'gynllun ymbellhau' lle mae cyfle i'r myfyrwyr estyn cymorth i griw o ffrindiau ifanc sy'n byw dan yr un to. Gallwch ddarllen rhagor am ddefnydd moesegol ar www.ethicalconsumer.org. Gellir gweld nwyddau sydd wedi'u cynhyrchu'n foesegol ar www.ethicalsuperstore.com.

| Amcanion y dysgu | |
|---|---|
| **Rhaid** | deall rhai termau sy'n gysylltiedig â defnydd moesegol, e.e. dewisiadau moesegol, cynaliadwy, defnyddiwr |
| **Dylent** | allu dewis ar sail ystyriaethau moesegol wrth iddyn nhw wneud eu siopa |
| **Gallent** | gyflwyno dadleuon am fasnachu moesegol mewn dull gwybodus a gallu darbwyllo eraill |

| Cysylltiadau â'r cwricwlwm | |
|---|---|
| **Mathemateg** | • dim yn benodol, er bod cyfle i gyfrifo gydag arian wrth edrych ar y gwahaniaethau mewn prisiau |
| **ABCh** | Sgiliau<br>• dadansoddi gwybodaeth a syniadau er mwyn asesu tuedd, dibynadwyedd a dilysrwydd<br>• ystyried gwahanol safbwyntiau wrth wneud penderfyniadau a dewisiadau gwybodus yn effeithiol<br>Ystod<br>• deall canlyniadau economaidd a moesegol y penderfyniadau ariannol y maent yn eu gwneud fel defnyddwyr, e.e. Masnach Deg<br>• datblygu ymdeimlad o gyfrifoldeb personol dros faterion lleol a byd-eang<br>• gwerthfawrogi bod gweithredoedd a phersbectifau pobl yn cael eu dylanwadu gan eu gwerthoedd<br>• bod yn gyfrifol yn bersonol am newid eu ffordd o fyw eu hunain fel ymateb i faterion lleol a byd-eang |

| Geiriau allweddol |
|---|
| amgylchedd, boicot, cynaliadwy, defnyddiwr moesegol, masnach deg, milltiroedd bwyd |

| Awgrymiadau |
|---|
| Beth am gynnal siop neu stondin marchnad i werthu cynnyrch masnach deg fel rhan o broject menter?<br>Bydd hyn yn gymorth i'r myfyrwyr gymryd rhan weithredol mewn Dinasyddiaeth. |

# Gweithgaredd 6: Chi sy'n dewis

## Tasgau

### Cam 1

Cyn dechrau ar y gweithgaredd hwn efallai y gallwch gasglu samplau o gymhorthion gweledol, e.e. bananas neu siocled masach deg a rhai sydd heb y label masnach deg. Efallai hefyd y byddwch am ymarfer peth ar eirfa megis masnach deg, moesegol, defnyddiwr a chynaliadwy (gweler y Rhestr termau am ymarferion geirfa). Efallai y byddwch am ddangos rhaglenni megis 'Jamie's Chicken Run' (rhaglen ddiweddar Jamie Oliver a Hugh Fearnley-Whittingstall am gyflwr gwael rhai cywion ieir ar ffermydd ffatri) neu raglen debyg arall. Byddai cael map mawr o'r byd yn helpu rhai myfyrwyr i leoli man cychwyn nifer o fwydydd gwahanol sydd yn y gweithgaredd hwn. Byddai hyn hefyd yn gymorth i egluro'r cysyniad o 'filltiroedd bwyd'.

### Cam 2

Dangoswch ddau fwnsiad o fananas a dywedwch beth ydy pris y ddau (dylai'r bwnsiad masnach deg fod rhyw gymaint yn ddrutach na'r llall - peidiwch â sôn am fasnach deg ar hyn o bryd). Gofynnwch i'r grŵp pwy fyddai'n prynu pa fwnsiad a pham. Bydd y rhan fwyaf yn debygol o ddweud 'y rhataf'. Yna gofynnwch pa fath o bethau fyddai'n perswadio rhai pobl i brynu'r bwnsiad drutaf. Soniwch am y materion hyn i gyd yn eu tro a sylwch os bydd rhai'n newid eu meddwl ac yn ystyried prynu'r bwnsiad drutaf:

- Hysbysebu – mae'r label yn eu gwahodd i gymryd rhan mewn cystadleuaeth i ennill gwobrau ariannol
- Enw'r brand – efallai y bydden nhw'n adnabod enw fel Fyffes
- Pacio – mae hyn yn denu sylw ac yn arbed y bananas rhag cael eu niwedio
- Math 'gwell' o siop – maen nhw'n dod o uwchfarchnad ag enw da iddi yn hytrach na'r siop leol
- O ble y daw'r bananas – India'r Gorllewin neu Ganolbarth America
- Pwy sy'n eu tyfu – corfforaethau enfawr o UDA sydd wedi difrodi'r coedwigoedd glaw neu ffermwr bychan yn India'r Gorllewin.

Tybed fyddai rhai o'r ffactorau hyn yn gwneud iddyn nhw newid eu meddwl fel defnyddwyr? Gallai'r myfyrwyr flasu'r bananas i weld os oes blas gwell ar y rhai drud. Mewn parau, gall y myfyrwyr gael un bwnsiad o fananas a'r cyfle i'w gwerthu i weddill y grŵp. Gallan nhw benderfynu pa ffactorau i'w cynnwys yn eu hysbysebu. Mae gêm Banana Split ar gael gan CAFOD sy'n weithgaredd diddorol i weld ble yn hollol mae'r arian sy'n cael ei dalu gan y prynwyr yn mynd mewn gwirionedd. www.cafod.org.uk.

### Cam 3

Gofynnwch i'r myfyrwyr weithio mewn grwpiau o dri. Dylen nhw benderfynu pwy fydd yn cofnodi penderfyniadau'r grŵp ac yn adrodd yn ôl ar y diwedd. Eglurwch y byddwch chi'n rhoi set o gardiau cynnyrch i bob grŵp. Mae lluniau dau gynnyrch ar bob cerdyn ac mae'r ddau yn edrych yn debyg ond bod un yn rhatach na'r llall. Ar waelod pob cerdyn mae disgrifiad byr o'r ddau gynnyrch. Mae'r myfyrwyr i drafod pob cerdyn a cheisio cytuno ar y cynnyrch y bydden nhw'n ei brynu a rhoi rhesymau dros hyn. Bydd un o'r grŵp yn cofnodi'r dewis a'r rhesymau dros y dewis hwnnw ar y daflen gofnodi. Rhowch ryw ddeg munud iddyn nhw orffen y dasg neu tan fydd y rhan fwyaf o'r grwpiau wedi gorffen.

Yn hytrach na'r broses uchod cynigiwch eu bod yn cynghori Jo.

Mae Jo yn 25 ac yn rhannu fflat â dau berson ifanc arall Tony a Llew. Mae'r tri'n rhoi arian mewn pwrs ar gyfer y siopa wythnosol yn yr uwchfarchnad leol. Mae yna £100 i'w wario'r wythnos hon, felly er bod y prisiau'n ffactor bwysig, nid y prisiau ydy'r unig ffactor. Mae diddordeb gan y tri ohonyn nhw yn yr amgylchedd ac mewn helpu pobl yn y gwledydd tlawd.

Gall hyn ddatblygu'n chwarae rhan gyda'r myfyrwyr yn chwarae rhannau perchennog y siop a'r defnyddwyr (fel yng Ngweithgaredd 1).

# Gweithgaredd 6: Chi sy'n dewis

## Cam 4

Gan ystyried pob cynnyrch yn ei dro gofynnwch i'r myfyrwyr godi eu dwylo i ddangos pa gynnyrch y bydden nhw'n cynghori Jo, Tony a Llew i'w prynu. Gofynnwch i'r un fu'n cofnodi ym mhob grŵp i adrodd yn ôl gyda rhesymau'r grŵp dros eu dewisiadau. Rhowch gyfle i'r rhai fu'n cofnodi yn y grwpiau eraill i ychwanegu unrhyw sylw perthnasol. Ewch drwy'r un broses gyda'r ail gynnyrch ond y tro hwn gofynnwch i'r un fu'n cofnodi mewn grŵp gwahanol i adrodd yn ôl yn gyntaf. Ewch ymlaen â hyn hyd nes bod pob cynnyrch wedi'i drafod.

## Adolygu

Gofynnwch i'r myfyrwyr pa ffactorau, ar wahân i'r pris, sy'n effeithio ar ddewis pobl fel arfer. Wedi i chi gael rhestr o'r rhain, gofynnwch i'r myfyrwyr godi'u dwylo i ddangos pa rai fyddai'n cael eu heffeithio gan y ffactorau gwahanol. Fel arall gallwch eu gwahodd i'r blaen fesul un i farcio ar siart pa ffactorau fyddai'n effeithio ar eu dewis nhw. Cyfrifwch y cyfansymiau ar gyfer pob un ffactor a chrynhowch y pethau fyddai'n cael effaith ar eu dewis nhw fel defnyddwyr. Nodwch hefyd y ffactorau na fyddai'n cael unrhyw effaith ar eu dewisiadau. Eglurwch bod hyn yn adlewyrchu eu 'gwerthoedd', h.y. yr hyn sy'n bwysig neu sydd ddim yn bwysig iddyn nhw. Mae hefyd yn rhan o fod yn 'ddefnyddiwr moesegol', h.y. rhywun sy'n gofalu digon am ein planed ac am bobl eraill i ystyried hyn wrth brynu nwyddau (ac nid ond gwario llai drwy brynu'r pethau rhataf). Efallai y byddwch am ymestyn y gweithgaredd drwy drafod cynaliadwyedd, 'Pa gynnyrch oedd yn 'gynaliadwy' neu oedd yn dod o ffynonellau cynaliadwy?'.

# Gweithgaredd 6: Chi sy'n dewis

## Cardiau 1

### Pecyn Coffi




Wedi'i dyfu yn Ne America. Mae'r gweithwyr yn cael cyflogau isel. Mae'r goedwig law wedi'i difetha i sefydlu'r fferm.

### Pecyn Coffi Masnach Deg





Yn dod o Kenya. Mae'r ffermwyr yn cael pris teg am y ffa coffi.

### Cyw iâr 'Bargen Dda'




Roedd yr ieir yn byw mewn tywyllwch. Roedd llawr o ieir yno gyda'i gilydd a phrin oedd y lle i symud.

### Cyw iâr buarth




Roedd yr iâr hon yn byw y tu allan. Roedd digon o le ganddi i symud.

### Bananas Canolbarth America




Wedi'u tyfu ar fferm enfawr yng Nghanolbarth America. Cwmni mawr o'r UDA sy'n berchen y fferm ac mae'r gweithwyr yn derbyn cyflog isel.

### Bananas yr Ynysoedd Windward




Wedi'u tyfu ar fferm fechan ar ynys ym Môr y Caribî. Mae'r ffermwr yn derbyn incwm teg.

# Gweithgaredd 6: Chi sy'n dewis

Cardiau 2

### Afalau o Safon




Daw'r rhain mewn awyren o Sbaen. Maen nhw wedi'u pacio mewn bocsys plastig.

### Afalau Organig Lleol




Afalau wedi'u tyfu ar fferm organig leol. Mae'r afalau'n cael eu gwerthu'n rhydd.

### Siampŵ




Wedi'i brofi ar anifeiliaid.

### Eco-siampŵ




Heb ei brofi ar anifeiliaid. Dydy ewyn y siampŵ ddim yn amharu'r amgylchedd.

### Tywelion Sychu Llestri




Wedi'u gwneud gan blant mewn gwledydd tlawd. Mae'r plant yn gweithio oriau hir saith diwrnod yr wythnos.

### Tywelion Sychu Llestri




Wedi'u gwneud gan bobl ag anabledd yng Nghymru. Mae'r elw yn cael ei roi i elusen.

# Gweithgaredd 6: Chi sy'n dewis

Cardiau 3

| |
|---|
| **Coffi**<br>Eich dewis chi:<br>Rhesymau: |
| **Cyw iâr**<br>Eich dewis chi:<br>Rhesymau: |
| **Bananas**<br>Eich dewis chi:<br>Rhesymau: |
| **Afalau**<br>Eich dewis chi:<br>Rhesymau: |
| **Siampŵ**<br>Eich dewis chi:<br>Rhesymau: |
| **Tywelion Sychu Llestri**<br>Eich dewis chi:<br>Rhesymau: |

# Gweithgaredd 7: Y busnes hysbys

## Cefndir

Dyma gyfle i atgoffa myfyrwyr o bwrpas hysbysebu a sut mae hysbysebwyr yn ceisio llywio'r byd i ni'r defnyddwyr. Bydd gofyn i'r myfyrwyr edrych yn fanwl ar fathau penodol o hysbysebu a cheisio gweld beth yn hollol mae'r hysbysebwyr yn ei wneud i'n perswadio ni i brynu. Dylen nhw fod yn ymwybodol o'r teimladau mae'r hysbysebwyr yn ceisio'u rhoi i ni – eiddigedd, boddhad, bod yn debyg i eraill, bod yn 'hip', yn 'cŵl', angen cael y pethau mwyaf newydd – a'r technegau sydd gan hysbysebwyr i drosglwyddo'u negeseuon. Bydd y gweithgaredd hwn yn codi ymwybyddiaeth ymysg y myfyrwyr o dechnegau'r hysbysebwyr. Bydd y cyfle ganddyn nhw i ddeall a defnyddio iaith perswâd drwy astudio hysbysebion a chreu rhai eu hunain.

| Amcanion y dysgu | |
|---|---|
| **Rhaid** | gwybod bod hysbysebwyr yn defnyddio iaith llawn perswâd |
| **Dylent** | allu adnabod rhai o dechnegau hysbysebwyr ar gyfer nwyddau penodol |
| **Gallent** | ddefnyddio iaith a thechnegau hysbysebu wrth gynllunio'u hysbysebion eu hunain |

| Cysylltiadau â'r cwricwlwm | |
|---|---|
| **ABCh** | Sgiliau<br>• adnabod ac asesu tuedd a dibynadwyedd, e.e. *gwerthuso negeseuon gan y cyfryngau*<br>Ystod<br>• sut i reoli'u materion ariannol personol yn fedrus (drwy ddeall y dylanwadau ar eu harferion gwario) |

| Geiriau allweddol |
|---|
| delwedd, gosodiad cynnyrch, hysbysebu, nawdd, neges |

| Awgrymiadau |
|---|
| Bydd defnyddio fideo o rai hysbysebion teledu cyfoes yn hybu trafodaeth neu ewch at www.advertisingarchives.co.uk/gallery_indexpage.php i weld sut mae hysbysebion wedi newid dros y blynyddoedd. |

## Tasgau

### Cam 1

Dechreuwch drwy ofyn i'ch myfyrwyr:

- *Beth ydy hysbysebu?*
- *Pam fod gwneuthurwyr yn gwario cymaint o arian ar hysbysebu?*
- *Pam fod hysbysebion ar y teledu, mewn cylchgronau a phapurau newydd?*
- *Faint o wahanol fathau o hysbysebu y gallwch chi feddwl amdanyn nhw?*
  *(h.y. teledu, cylchgronau, byrddau biliau, nawdd, radio, rhyngrwyd, gosodiad cynnyrch, logos, ayb.)*

Yn gyntaf cyflwynwch yr eirfa a'r cysyniadau allweddol y bydd angen i'r myfyrwyr eu deall cyn gallu cwblhau'r tasgau. Trafodwch hysbysebion cyfredol y gallan nhw eu cofio a gofynnwch iddyn nhw ystyried y dulliau sydd gan yr hysbysebwyr (e.e. defnyddio enwau pobl bwysig, cerddoriaeth, merched hardd a dynion golygus, hiwmor, ayb). Efallai y byddwch chi am gerdded o amgylch yr ardal leol i weld y mathau gwahanol o hysbysebion sydd i'w gweld yno. Gellir gweld rhai hysbysebion teledu gwych ar www.visit4info.com/.

# Gweithgaredd 7: Y busnes hysbys

## Cam 2

Rhannwch y dosbarth yn grwpiau o dri neu bedwar. Gofynnwch i bob myfyriwr feddwl am un peth newydd y maen nhw wedi gwario arian arno (nwydd neu wasanaeth) yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Dylai hwn fod yn rhywbeth dydyn nhw heb ei brynu o'r blaen. Gofynnwch iddyn nhw restru'r rhesymau pam eu bod wedi gwario'u harian ar y nwydd neu'r gwasanaeth hwnnw. Trafodwch syniadau am yr 'angen' mae hysbysebwyr yn ei greu.

Darllenwch ar goedd y gosodiad hwn gan fachgen nodweddiadol 15 oed.
*'Hwn ydy'r peth 'hip' i'w wneud,' meddai gan godi'i ysgwyddau. 'Mae pawb yn gwneud hyn. Dw i jyst isio edrych fel pawb arall ac edrych yn dda. Pan dw i'n mynd allan dw i'n gweld be' mae pawb arall yn ei wisgo, felly dw i'n cael hwnnw hefyd i edrych yn 'cŵl' ac i ffitio i mewn.'*

Gofynnwch y cwestiynau canlynol:
- *Oedd 'edrych fel pawb arall' yn ffactor bwysig?*
- *Ydy hyn yn farn gyffredin ymysg eu ffrindiau a'u cyfoedion?*
- *Sut mae hysbysebwyr yn gweithio ar y teimlad hwn sydd gan bobl ifanc i fod 'isio edrych fel pawb arall'?*

## Cam 3

Er bod rhai unigolion 12-16 mlwydd oed yn brin o arian, fel grŵp maen nhw'n werth tua £3 biliwn y flwyddyn (ysgrifennwch hwn fel £3 000 000 000 ar y bwrdd). Mae lwfansau, gwaith rhan amser, anrhegion gan aelodau'r teulu i gyd yn ffynonellau incwm. Dyma'r rheswm pam fod hysbysebwyr yn targedu'r grŵp oedran hwn. Mae teledu fore Sadwrn ac ar ôl ysgol yn targedu'r grŵp, yn ogystal â nifer cynyddol o gylchgronau i bobl yn eu harddegau. Gofynnwch i'r myfyrwyr ddod â rhai o'r cylchgronau maen nhw'n eu darllen i'w dangos i'r gweddill. Gofynnwch iddyn nhw edrych ar gynnwys y cylchgronau ac ar y mathau o nwyddau sy'n cael eu hysbysebu mewn cylchgronau i fechgyn ac i ferched. Mae cylchgronau merched yn tueddu i ganolbwyntio ar 'ffyrdd o fyw' a chylchgronau bechgyn ar gerddoriaeth a chwaraeon. Beth ydy'u barn nhw ar hyn? Yna trafodwch ystyr stereoteip.

Dewch o hyd i hysbysebion mewn cylchgronau sydd wedi'u bwriadu ar gyfer yr oedran hwn neu gofynnwch i'r disgyblion ddod â rhai i'r ysgol. Dewiswch hysbysebion nwyddau fel iPod, chwaraewyr mp3, gemau fideo, ffonau symudol, dillad, esgidiau chwaraeon, cynhyrchion personol ar gyfer bechgyn a merched a dosbarthwch gopïau ohonyn nhw ymysg y myfyrwyr yn eu grwpiau o dri neu bedwar. Beth sy'n apelio atyn nhw ym mhob hysbys? Gofynnwch i bob grŵp ddewis hysbyseb un o'r nwyddau a'i defnyddio i gwblhau'r daflen waith. Yna gallai'r myfyriwr unigol ystyried un hysbyseb a chwblhau taflen waith arall ar sail honno.

## Cam 4

Dywedwch wrth y myfyrwyr eu bod nhw'n gweithio i asiantaeth hysbysebu. Mewn grwpiau bach, dylen nhw ddewis un nwydd (neu wasanaeth) y maen nhw'n ei ystyried yn gwbl wych. Bydd hwn yn cael ei hysbysebu mewn cylchgrawn i bobl yn eu harddegau (fel Teen Vogue, Heat, More, Kerrang neu Empire) a'u tasg nhw ydy cynllunio'r hysbyseb. Gallan nhw ddefnyddio technegau collage i'w gynllunio ar raddfa fawr (A2 neu A1) ac yna gellir ei leihau i faint A4. Dylen nhw ystyried y delweddau, y testun, y neges a'r cynllun. Yna dylai pob grŵp gyflwyno'i hysbyseb i'r gweddill gan egluro'r dulliau maen nhw wedi'u defnyddio i werthu'r nwydd. Gellir penderfynu ar yr hysbys orau drwy bleidlais. Fel arall, mae myfyrwyr yn gallu paratoi a recordio hysbys ar gyfer radio, cynllunio hysbys naid ar gyfer y we neu chwarae rhan cyflwynwyr sianel siopa.

# Gweithgaredd 7: Y busnes hysbys

**Enw:**

Edrychwch ar yr hysbys rydych chi wedi'i dewis

Penderfynwch sut mae'r hysbys yn ceisio gwerthu'r nwydd

## Enw'r brand:

## Sut mae'r hysbys yn eich denu i brynu? Ticiwch un neu ragor:

| | | | |
|---|---|---|---|
| Bod yn debyg i eraill | ☐ | Cael bywyd da | ☐ |
| Bod yn eiddigeddus | ☐ | Teimlo'n dda amdanoch chi eich hunan | ☐ |
| Edrych yn dda ar gyfer pobl eraill | ☐ | Cael rhywbeth NEWYDD | ☐ |
| Yn eich gwneud chi deimlo'n well | ☐ | Bod yn gymorth | ☐ |

## Beth mae'r hysbysebwr yn ei ddefnyddio i werthu'r nwydd?

| Ticiwch os ydy hwn yn yr hysbys | | Ticiwch os ydy hwn yn yr hysbys | |
|---|---|---|---|
| Hiwmor | ☐ | Adloniant | ☐ |
| Ffotograffau hardd | ☐ | Teyrngarwch i'r brand | ☐ |
| Cerddoriaeth | ☐ | Graffeg gyfrifiadurol | ☐ |
| Pobl enwog | ☐ | Cynllun atyniadol | ☐ |
| Dulliau gwahanol o ysgrifennu | ☐ | Edrych yn 'cŵl' | ☐ |
| Lliwiau llachar | ☐ | Dweud mai hwn ydy'r peth mwyaf newydd | ☐ |
| Pobl hardd | ☐ | Dangos plant | ☐ |
| Ffotograffiaeth annisgwyl | ☐ | Dangos teuluoedd hapus | ☐ |
| Rhyw | ☐ | Dangos anifeiliaid | ☐ |
| Ffordd o fyw ffantastig | ☐ | Dangos cymeriadau cartŵn | ☐ |
| Delfrydau ymddwyn da | ☐ | Bargeinion da | ☐ |
| Dillad smart | ☐ | | |

## Beth rydych chi'n ei hoffi am yr hysbys?

# Gweithgaredd 8: Diwrnod tâl

## Cefndir

Mae dechrau swydd newydd yn brofiad brawychus i bawb ac yn arbennig felly i bobl ifanc a'r rhai ag anghenion arbennig. Dylen nhw wybod am gyfraddau isafswm cyflog sy'n ddyledus iddyn nhw ac am y didyniadau bydd cyflogwyr yn eu tynnu o'u cyflog. Bwriad y gweithgaredd hwn ydy egluro'r geiriau allweddol mae cyflogwyr yn eu defnyddio fel y byddan nhw'n gallu deall y manylion fydd ar eu slipiau cyflog. Mae'r gweithgaredd yn dechrau ag ymarfer didoli cardiau er mwyn iddyn nhw ehangu eu geirfa. Yna defnyddir cyfrifianellau i luosi tâl yr awr i gyfrifo'r cyflog blynyddol. Mae modd cyfrifo'r cyflog net drwy ddefnyddio cyfrifwyr parod sydd ar gael ar wefannau penodol. Bydd y myfyrwyr yna'n cwblhau eu slipiau cyflog eu hunain ar ffurflen wag.

| Amcanion y dysgu | |
|---|---|
| **Rhaid** | gwybod beth ydy ystyr yr eitemau pwysicaf ar slip cyflog |
| **Dylent** | ddeall sut mae cyfrifo'r cyflog net |
| **Gallent** | gwblhau slip cyflog gan ddefnyddio cyfrifydd parod |

| Cysylltiadau â'r cwricwlwm | |
|---|---|
| **Mathemateg** | • cyfrifo gydag arian a datrys problemau sy'n ymwneud â chyllidebu |
| **ABCh** | Sgiliau<br>• gwerthuso cyngor ariannol, cymryd cyfrifoldeb personol am waith cynllunio ariannol, a rheoli'u materion ariannol personol yn effeithiol<br>Ystod<br>• sut i reoli'u materion ariannol personol yn fedrus<br>• deall eu cyfrifoldebau o safbwynt rheoli cyllideb<br>• deall pwysigrwydd cynllunio ar gyfer eu dyfodol ariannol<br>• deall sut y mae systemau gwleidyddol yn gweithio (e.e. sut maent yn cael eu hariannu drwy'r system drethi) |

| Geiriau allweddol |
|---|
| cyflogau, cyflogwr, cyfradd yr awr, didyniadau, crynswth, gweithiwr, isafswm cyflog, net, slip cyflog, treth incwm, yswiriant gwladol |

| Awgrymiadau |
|---|
| Rhowch wahoddiad i fyfyriwr sydd wedi gadael yr ysgol yn ddiweddar i siarad am y profiadau o ennill cyflog a beth sy'n bosibl ei brynu gyda'r arian mewn gwirionedd |

## Tasgau

### Cam 1

Dechreuwch wrth drafod cyfraddau tâl yn ôl yr awr. Bydd gwaith rhan amser gan rai myfyrwyr neu efallai y byddan nhw'n gwneud gwaith anffurfiol megis gwarchod plant. Efallai y byddan nhw'n fodlon datgelu'r gyfradd yn ôl awr am eu gwaith nhw. Gofynnwch a ydyn nhw'n gyfarwydd â'r Isafswm Cyflog. Hwn ydy'r gyfradd isaf y mae'n rhaid i gyflogwyr eu talu yn ôl y gyfraith ac mae'n cael ei newid yn flynyddol. Mae'r gyfradd yn dibynnu ar oedran. Y cyfraddau pan gafodd hwn ei ysgrifennu ym mis Rhagfyr 2009 oedd:

- 16-17 oed – £3.75 yr awr
- 18-21 oed – £4.83 yr awr
- 23 oed a throsodd – £5.80 yr awr

# Gweithgaredd 8: Diwrnod tâl

Gofynnwch i'r myfyrwyr weithio mewn parau. Dosbarthwch gyfrifiannell a'r daflen waith Cyflogau i bob pâr. Gofynnwch iddyn nhw ateb cwestiynau'r pedwar person. Mae tri chwestiwn ganddyn nhw:

- *Faint o arian byddaf i'n ei ennill mewn wythnos?*
- *Faint o arian byddaf i'n ei ennill mewn mis?*
- *Faint o arian byddaf i'n ei ennill mewn blwyddyn?*

Mae gan Jodi un cwestiwn ychwanegol:

- *Pa swydd fydd yn talu orau i mi?*

Edrychwch ar waith eich myfyrwyr wrth iddyn nhw ateb y cwestiynau gan estyn cymorth os bydd ei angen.

D.S. Mae'r atebion i'w gweld ar y daflen adnoddau sydd ar gyfer Cam 3.

### Cam 2

Dosbarthwch gopïau o'r Slip cyflog gwag. Gellir defnyddio'r gweithgaredd didoli cardiau i gefnogi'r dysgu os bydd ei angen. Llungopïwch y termau a'u diffiniadau ar gardiau lliw gwahanol a'u trefnu'n setiau. Gofynnwch i'r disgyblion weithio mewn parau i osod bob term wrth ei ddiffiniad. Ewch at bob grŵp yn ei dro gan ofyn am un diffiniad hyd nes bod pob term wedi'i ddiffinio'n llawn.

### Cam 3

Efallai y bydd rhai myfyrwyr yn gallu cyfrifo didyniadau ar gyfer cyflog crynswth. Er hynny'n mae hi'n llawer rhwyddach i ddefnyddio'r cyfrifwyr parod sydd ar gael ar wefannau penodol. Yma'r unig beth sydd ei angen ydy rhoi'r cyflog blynyddol yn y man cywir a bydd y cyfrifydd parod yn dangos y dreth a'r cyfraniad Yswiriant Gwladol sydd i'w talu.

Mae'r wefan www.payslips60.co.uk/SalaryCalculator.aspx yn gwneud hyn yn rhwydd. Gall y myfyrwyr ddefnyddio'r cyfrifwyr parod i gyfrifo faint o arian yn hollol y bydd pob un o'r pedwar yn ei gael wedi'r didyniadau a maint eu treth a'u cyfraniadau Yswiriant Gwladol. Gallant gofnodi'u canlyniadau ar y daflen adnoddau.

### Cam 4

Fel gweithgaredd ymestynnol, gall y myfyrwyr lenwi slip cyflog iddyn nhw eu hunain ar gyfer gwaith efallai y bydd ganddyn nhw ymhen dwy neu dair blynedd. Gwnewch yn siŵr eu bod nhw'n defnyddio cyfradd yr awr sy'n uwch na'r isafswm cyflog ond sydd eto'n un credadwy ar gyfer eu cyfrifo.

# Gweithgaredd 8: Diwrnod tâl

Cyflogau 1

## SLIP CYFLOG 01 – RHIAN HAYWORTH

Mae Rhian wedi cael cynnig gwaith mewn tŷ bwyta. Mae hi'n 18 oed. Mae'r gwaith yn talu **£5** yr awr. Mae disgwyl iddi hi weithio 40 awr yr wythnos.



- Faint o arian fydd Rhian yn ei ennill mewn wythnos?
- Faint o arian fydd Rhian yn ei ennill mewn mis (4 wythnos)?
- Faint o arian fydd Rhian yn ei ennill mewn blwyddyn (52 wythnos)?

## SLIP CYFLOG 02 – JOHN SAVILLE

Mae John newydd adael yr ysgol. Mae'n 16 oed. Mae ei ewythr wedi addo rhoi gwaith iddo fel labrwr. Mae ei ewythr yn rheoli busnes adeiladu. Bydd yn cael yr isafswm cyflog **£3.75** yr awr am wythnos o 38 awr.



- Faint o arian fydd John yn ei ennill mewn wythnos?
- Faint o arian fydd John yn ei ennill mewn mis (4 wythnos)?
- Faint o arian fydd John yn ei ennill mewn blwyddyn (52 wythnos)?

# Gweithgaredd 8: Diwrnod tâl

## Cyflogau 2

### SLIP CYFLOG 03 – DAN CHAPMAN

Mae Dan yn 21 oed ac mae'n gweithio i'r Cyngor. Mae'n gweithio mewn swyddfa. Ei dâl ydy **£8.60** yr awr am wythnos o 37 awr.



- Faint o arian fydd Dan yn ei ennill mewn wythnos?
- Faint o arian fydd Dan yn ei ennill mewn mis (4 wythnos)?
- Faint o arian fydd Dan yn ei ennill mewn blwyddyn (52 wythnos)?

### SLIP CYFLOG 04 – JODI MORRIS

Mae Jodi'n 23 oed ac yn ddi-waith. Mae hi wedi sylwi ar ddwy swydd yn y papur. Un i weithio mewn siop ddillad. Y cyflog yma ydy **£5.75** yr awr am wythnos o 40 awr.

Mae'r swydd arall mewn bar coffi. Mae'r swydd hon yn talu'r isafswm cyflog o **£5.80** ond mae gofyn gweithio am wythnos o 45 awr.



Yn y siop ddillad:
- Faint o arian fydd Jodi yn ei ennill mewn wythnos?
- Faint o arian fydd Jodi yn ei ennill mewn mis (4 wythnos)?
- Faint o arian fydd Jodi yn ei ennill mewn blwyddyn (52 wythnos)?

Yn y bar coffi:
- Faint o arian fydd Jodi yn ei ennill mewn wythnos?
- Faint o arian fydd Jodi yn ei ennill mewn mis (4 wythnos)?
- Faint o arian fydd Jodi yn ei ennill mewn blwyddyn (52 wythnos)?

Pa swydd fydd yn talu orau i Jodi pob wythnos?

# Gweithgaredd 8: Diwrnod tâl

## CYFLOG NET

**Nawr eich bod chi'n gwybod beth ydy cyflogau blynyddol Rhian, John, Dan a Jodi – faint o arian fydd ganddyn nhw i'w wario? Cyfrifwch eu cyflog net ar ôl y didyniadau.**

**Y ddau brif ddidyniad ydy treth incwm (Talu Wrth Ennill – TWE neu PAYE) a chyfraniadau Yswiriant Gwladol (YG). Bydd y wefan yn cyfrifo hyn i chi. Defnyddiwch y cyfrifiannell i gyfrifo cyflog net. Ysgrifennwch eich atebion yma.**

| | | |
|---|---|---|
| **Cyflog blynyddol crynswth Rhian yn y tŷ bwyta fyddai** | | **£10,400.00** |
| | Ei threth incwm TWE fyddai | |
| | Ei chyfraniadau YG fyddai | |
| | Ei chyflog net fyddai | |
| **Cyflog blynyddol crynswth John fel labrwr fyddai** | | **£7,054.32** |
| | Ei dreth incwm TWE fyddai | |
| | Ei gyfraniadau YG fyddai | |
| | Ei gyflog net fyddai | |
| **Cyflog blynyddol crynswth Dan fel gweithiwr swyddfa fyddai** | | **£16,546.40** |
| | Ei dreth incwm TWE fyddai | |
| | Ei gyfraniadau YG fyddai | |
| | Ei gyflog net fyddai | |
| **Cyflog blynyddol crynswth Jodi yn y siop ddillad fyddai** | | **£11,960.00** |
| | Ei threth incwm TWE fyddai | |
| | Ei chyfraniadau YG fyddai | |
| | Ei chyflog net fyddai | |
| **Cyflog blynyddol crynswth Jodi yn y bar coffi fyddai** | | **£13,572.00** |
| | Ei threth incwm TWE fyddai | |
| | Ei chyfraniadau YG fyddai | |
| | Ei chyflog net fyddai | |

**Nawr llenwch slip cyflog ar gyfer un o'r bobl hyn. Defnyddiwch y slip cyflog gwag a llenwch gymaint o'r bylchau ag y gallwch.**

# Gweithgaredd 8: Diwrnod tâl

Termau cyflog 1

| | |
|---|---|
| TWE (PAYE) | 'Talu Wrth Ennill' 'Pay As You Earn' – treth incwm. |
| Cyflog crynswth | Cyfanswm yr hyn rydych chi wedi'i ennill mewn wythnos neu fis. |
| Cyflog net | Dyma'r arian gewch chi ar ôl tynnu'r didyniadau. |
| Didyniadau | Yr arian mae cyflogwr yn ei dynnu o'ch cyflog crynswth. |
| Cyflog | Hwn ydy'ch tâl neu'ch incwm chi. |
| Goramser | Dyma'r tâl am weithio am fwy na'ch oriau arferol. |

# Gweithgaredd 8: Diwrnod tâl

## Termau cyflog 2

| | |
|---|---|
| **Dull talu** | Dyma sut y bydd eich cyflogwr yn eich talu chi. |
| **Rhif Yswiriant Gwladol** | Mae pawb yn cael rhif Yswiriant Gwladol pan maen nhw'n 16. |
| **Cyfraniadau Yswiriant Gwladol** | Os ydych chi'n gweithio yna mae'n rhaid i chi dalu Yswiriant Gwladol. Mae hwn yn mynd tuag at eich budd-daliadau. |
| **Treth incwm** | Mae'n rhaid i'r rhan fwyaf o bobl dalu treth incwm. |
| **Cod treth** | Mae hwn yn dweud faint o arian allwch chi ei ennill cyn dechrau talu treth arno. |

# Gweithgaredd 8: Diwrnod tâl

## Slip cyflog gwag

**ENW'R CWMNI** ................................ **ENW'R GWEITHIWR** ................................

**Dull talu** – BACs

**Cyfnod talu** – MISOL

**CYFLOG CRYNSWTH BLYNYDDOL**

**TALAIDAU**

Cyflog sylfaenol ................................

**DIDYNIADAU**

Didyniad treth incwm ................................

Yswiriant Gwladol ................................

| RHIF Y SLIP CYFLOG | DYDDIAD | ADRAN |
|---|---|---|
| 01 | ................ | ................ |

**CYFLOG CRYNSWTH Y MIS HWN YDY:** ................................

# Gweithgaredd 9: Budd-daliadau

## Cefndir

Mae hi'n holl bwysig trafod moeseg budd-daliadau cyn edrych yn fanwl ar yr ystod o fudd-daliadau a geir gan wladwriaeth. Nod y gweithgaredd hwn ydy cyflwyno'r myfyrwyr i'r ystod hynny o fudd-daliadau a all fod yn gymwys iddyn nhw ar ôl gadael ysgol. Nid ydy hi'n fwriad i hybu meddylfryd na diwylliant budd-daliadau, ond i egluro rhai o'r prif daliadau yn erbyn treth neu'r credydau y gallan nhw'u hawlio. Mae'r pwnc yn un cymhleth a geiriog a bydd angen cymorth ar y myfyrwyr i allu cyrchu'r wybodaeth. Y ffynhonnell hawsaf ar gyfer gwybodaeth neu ymchwil ar gyfer y dasg hon ydy gwefan y Ganolfan Gynghori, www.adviceguide.org.uk. Gallwch ymweld â'r ganolfan leol ac yno gasglu taflenni ar y budd-daliadau gwahanol i'w defnyddio yn ystod y gweithgaredd hwn. Bydd y myfyrwyr yn gweithio mewn timau o bedwar er mwyn dod yn 'arbenigwyr' ar un neu ddau o'r budd-daliadau. Yna nhw fydd y cynghorwyr ar gyfer pawb arall sydd am wybod beth ydy'u hawliau – p'un ai ydyn nhw'n gallu hawlio budd-dal penodol ai peidio a faint o arian y gallan nhw'i gael.

| Amcanion y dysgu | |
|---|---|
| **Rhaid** | gwybod ymhle mae cyrchu gwybodaeth am fudd-daliadau'r wladwriaeth |
| **Dylent** | wybod pa rai ydy'r prif fudd-daliadau a sut mae'u cyrchu |
| **Gallent** | ddeall bod hawl i fudd-dal yn gwahaniaethu rhwng pobl a theuluoedd gwahanol |

| Cysylltiadau â'r cwricwlwm | |
|---|---|
| **Mathemateg** | • dim un yn benodol, er bod lle i gyfrifo symiau'r budd-daliadau |
| **ABCh** | Sgiliau<br>• gwneud penderfyniadau a dewisiadau gwybodus yn effeithiol<br>• datblygu sgiliau ymarferol sy'n angenrheidiol ar gyfer bywyd bob dydd<br>• gwerthuso cyngor ariannol, cymryd cyfrifoldeb personol am waith cynllunio ariannol, a rheoli'u materion ariannol personol yn effeithiol<br>Ystod<br>• deall sut i reoli'u materion ariannol personol yn fedrus<br>• deall eu cyfrifoldebau o safbwynt rheoli cyllideb<br>• deall pwysigrwydd cynllunio ar gyfer eu dyfodol ariannol<br>• deall eu hawliau<br>• deall materion a digwyddiadau cyfoes ar lefel leol a byd-eang (e.e. tlodi)<br>• deall sut y mae systemau gwleidyddol yn gweithio (e.e. sut a pham y caiff rhai grwpiau gymorth ariannol gan y llywodraeth) |

| Geiriau allweddol |
|---|
| budd-daliadau, canolfan gwaith, cymhorthdal incwm, hawl, incwm, tlodi |

| Awgrymiadau |
|---|
| Defnyddiwch wirfoddolwr o'r adran gyllid (Finance Sector Volunteer) drwy chwilio'r wefan www.useyourexpertise.org i egluro rhai o'r materion mwy cymhleth ac i weithio gyda'ch myfyrwyr dros gyfnod o amser. |

# Gweithgaredd 9: Budd-daliadau

## Tasgau

### Cam 1

Trefnwch bod y myfyrwyr yn cael cyfle i drafod budd-daliadau'r wladwriaeth. Efallai yr hoffech chi drafod y sefyllfa oedd yn bodoli cyn dechrau'r Wladwriaeth Les. Mae hi'n bosibl eu bod nhw wedi clywed am y Tlotai yn Oes Fictoria. Efallai bod ganddyn nhw farn ar dlodi heddiw ac ar ran y llywodraeth wrth iddi geisio lleihau tlodi ac anghydraddoldeb.

- Beth ydy tlodi? Beth ydy ystyr bod yn dlawd yng Nghymru heddiw?
- A ddylai llywodraethau geisio helpu pobl dlawd? Pa gyfrifoldebau sydd gan bobl dlawd i helpu'u hunain?
- Beth ydy ystyr 'budd-daliadau'?
- Pa fathau o fudd-daliadau all pobl a theuluoedd tlawd eu cael heddiw?

Efallai hefyd y byddwch am drafod un o hoff bynciau'r papurau poblogaidd sef bod rhai yn twyllo'r system fudd-daliadau. Mae'r bobl hyn yn dweud celwydd am faint eu cyflog neu eu hamgylchiadau er mwyn hawlio budd-daliadau sydd ddim wedi'i fwriadu ar eu cyfer nhw. Dylid egluro mai twyllo mae'r bobl hyn yn ei wneud. Maen nhw'n cymryd arian oddi wrth bobl dlawd a'r rhai sy'n gweithio'n galed ac yn talu'u trethi.

### Cam 2

Y dasg yma ydy gweithio mewn parau i ymchwilio i un neu ddau o'r wyth budd-dal sydd ar y taflenni budd-daliadau drwy edrych ar wefan y Ganolfan Gynghori. Gallwch roi un neu ddau destun iddyn nhw yn ôl maint y grŵp. Bydd hi'n ddefnyddiol os bydd dau grŵp o leiaf yn ymchwilio i bob un budd-dal. Eglurwch y math o ateb sydd i'w ddisgwyl i bob un o'r tri chwestiwn:

- *Pwy sy'n gallu'i hawlio?*
- *Sut mae ei hawlio?*
- *Faint o arian gewch chi?*

Dewis arall fyddai ymchwilio i un budd-dal ar y tro, neu gallwch dorri'r disgrifiadau o'r taflenni budd-daliadau a'u gosod yn y mannau cywir ar y daflen wag wedi i'r myfyrwyr wneud eu hymchwil. Byddai'r gweithgaredd hwn yn elwa o gael ymgynghorydd o'r Ganolfan Gynghori i helpu'r myfyrwyr chwarae'r rhan o ymgynghorwyr eu hunain.

### Cam 3

Gofynnwch i'r parau ymuno i ffurfio grwpiau o bedwar i drafod eu canlyniadau ac i weld os ydyn nhw'n cytuno ar yr atebion i'r cwestiynau. Eglurwch sut y byddan nhw eu hunain yn chwarae rhan ymgynghorwyr, tebyg i'r rhai mewn Canolfannau Cynghori sydd i'w gweld ar gymaint o'n prif strydoedd. Mewn Canolfan Gynghori mae cyngor i bawb sy'n holi amdano. Dywedwch wrthyn nhw ymhle mae'r ganolfan agosaf at yr ysgol. Bydd gofyn iddyn nhw ateb cwestiynau gan nifer o bobl fydd yn eu holi am y budd-dal hwnnw a bydd disgwyl iddyn nhw roi cyngor clir a chywir. Gallwch ddosbarthu'r taflenni budd-daliadau sydd wedi'u llenwi er mwyn iddyn nhw gymharu ymatebion ei gilydd.

### Cam 4

Gofynnwch i bob grŵp o bedwar benderfynu pa ddau fydd yn ymgynghorwyr a pha ddau fydd yn bobl sy'n dod i'r Ganolfan am gyngor. Penderfynwch pa rai o gardiau'r unigolion fyddwch chi am eu defnyddio (os ydy'r grŵp yn un mawr, efallai y byddwch am eu defnyddio i gyd). Dosbarthwch gardiau'r unigolion i barau o fyfyrwyr (gall yr unigolion fod o unrhyw ryw gan ddibynnu ar ryw'r myfyrwyr sy'n chwarae'r rhan). Mae pob un ohonyn nhw'n cynrychioli person sydd am gael cyngor ynglŷn â'u hawl i gael budd-daliadau. Tra bod y rhain yn darllen ac yn deall eu rhannau, gofynnwch i'r timau cynghori

# Gweithgaredd 9: Budd-daliadau

greu poster sy'n dangos enw'r budd-dal y maen nhw'n arbenigo arno. Eglurwch beth fydd yn rhaid i'r cynghorwyr ei wneud.

*Eich tasg chi fydd cynghori pobl sy'n ymweld â'r Ganolfan ac yn chwilio am gymorth. Rhaid i chi geisio dangos bod croeso yno iddyn nhw. Rhowch gyfarchiad cyfeillgar a gofynnwch iddyn nhw eistedd. Gofynnwch sut maen nhw'n meddwl y gallwch eu helpu. Bydd angen i chi wybod am y budd-dal rydych chi'n eu cynghori arno. Edrychwch ar y cardiau cwestiwn a phenderfynwch ar drefn y cwestiynau. Mae'r rhain yn gwestiynau y mae'n rhaid i chi eu gofyn cyn gallu cynghori'r bobl a allen nhw gael y budd-dal ai peidio. Os ydych chi'n gwybod yr ateb dywedwch wrthyn nhw faint o arian y mae hi'n debygol y bydden nhw'n ei dderbyn.*

Mae hi'n beth da i drefnu'r byrddau mewn cylch neu mewn hanner cylch er mwyn iddyn nhw allu symud yn rhwydd o un ddesg i'r nesaf. Dylen nhw drefnu'u byrddau a'u cadeiriau fel petasen nhw'n rhoi cyfweliad i ddau berson. Dylai fod yr un nifer o bobl sy'n ceisio budd-daliadau ag sydd o gynghorwyr fel bod gwaith i bawb drwy'r amser. Rhowch ryw ddau neu dri munud yn unig i bob cyfweliad yna gofynnwch i'r ymwelwyr symud draw at y cynghorwyr nesaf. Ymlaen â hyn hyd nes y bydd pob ymwelydd wedi gweld y cynghorwyr i gyd.

### Adolygu

Wedi'r cyfweliadau gofynnwch i bob pâr o 'ymwelwyr' egluro'r hyn maen nhw wedi'i ddysgu gan y cynghorwyr.

- *Pa fudd-dal sy'n addas ar eu cyfer?*
- *Beth fydd maint y budd-dal?*
- *Sut mae gwneud cais am y budd-dal?*
- *Pa rai o'u hamgylchiadau personol sy'n lleihau maint eu budd-dal?*

Defnyddiwch y taflenni cardiau ymateb i'ch helpu chi roi adborth ar eu hatebion.

Yna gofynnwch i'r cynghorwyr:

- *Pa mor anodd neu pa mor hawdd oedd hi i roi cyngor i'r unigolion ar eu budd-daliadau?*
- *Beth ydych chi wedi'i ddysgu o'r ymarfer hwn?*

# Gweithgaredd 9: Budd-daliadau

## Cardiau'r unigolion 1

Astudiaeth Achos


### Gemma
(17 oed)



Rydych chi'n rhiant sengl. Mae'ch rhent yn costio **£50** yr wythnos. Mae'ch merch, Nia, yn flwydd oed. Rydych chi'n ddi-waith. Rydych chi am gael swydd rhan amser.

Astudiaeth Achos

### Jeremy
(17 oed)



Rydych chi'n rhiant sengl. Mae'ch rhent yn costio **£50** yr wythnos. Mae'ch merch, Nia, yn flwydd oed. Rydych chi'n ddi-waith. Rydych chi am gael swydd rhan amser.

Astudiaeth Achos


### Sioned
(18 oed)



Rydych chi'n mynd i'r coleg am 15 awr pob wythnos. Rydych chi'n byw gyda'ch Nain. Mae hi mewn cadair olwyn. Mae hi'n cael pensiwn y wladwriaeth ac mae ganddi gynilion o **£11,000**. Chi sy'n gwneud y siopa a'r coginio drosti ac yn edrych ar ei hôl hi.

Astudiaeth Achos

### John (18 oed)



Rydych chi'n mynd i'r coleg am 15 awr pob wythnos. Rydych chi'n byw gyda'ch Nain. Mae hi mewn cadair olwyn. Mae hi'n cael pensiwn y wladwriaeth ac mae ganddi gynilion o **£11,000**. Chi sy'n gwneud y siopa a'r coginio drosti ac yn edrych ar ei hôl hi.

Astudiaeth Achos

### Pauline
(21 oed)



Rydych chi'n gweithio fel glanhawr. Rydych chi'n ennill yr isafswm cyflog ac yn derbyn **£175** yr wythnos. Rydych chi'n byw gyda'ch partner (22 oed) sy'n ddi-waith. Mae'ch rhent yn **£300** y mis.

Astudiaeth Achos

### Paul (21 oed)




Rydych chi'n gweithio fel glanhawr. Rydych chi'n ennill yr isafswm cyflog ac yn derbyn **£175** yr wythnos. Rydych chi'n byw gyda'ch partner (22 oed) sy'n ddi-waith. Mae'ch rhent yn **£300** y mis.

# Gweithgaredd 9: Budd-daliadau

## Cardiau'r unigolion 2

Astudiaeth Achos

### Gwyn (25 oed)



Rydych chi'n edrych ar ôl eich tri phlentyn, Chloe (3), Mike (5) a Dai (1). Mae'ch partner yn gweithio mewn siop ac yn ennill **£150** yr wythnos. Mae gennych chi gynilion o **£20,000**.

Astudiaeth Achos


### Gwen (25 oed)



Rydych chi'n edrych ar ôl eich tri phlentyn, Chloe (3), Mike (5) a Dai (1). Mae'ch partner yn gweithio mewn siop ac yn ennill **£150** yr wythnos. Mae gennych chi gynilion o **£20,000**.

Astudiaeth Achos

### Abi (40 oed)



Rydych chi'n byw mewn tŷ ar rent gyda'ch gŵr. Mae'r rhent yn **£400** y mis. Mae gwaith gan y ddau ohonoch chi. Cyfanswm eich incwm ydy **£28,000** y flwyddyn. Mae eich mab Paul (17) yn y coleg a'ch merch Siân (15) yn yr ysgol.

Astudiaeth Achos

### Alun (40 oed)



Rydych chi'n byw mewn tŷ ar rent gyda'ch gwraig. Mae'r rhent yn **£400** y mis. Mae gwaith gan y ddau ohonoch chi. Cyfanswm eich incwm ydy **£28,000** y flwyddyn. Mae eich mab Paul (17) yn y coleg a'ch merch Siân (15) yn yr ysgol.

Astudiaeth Achos

### Amrit (30 oed)



Rydych chi'n briod ac mae un mab Ranjeev (12 oed) gennych chi. Mae'ch gŵr yn gofalu am eich tad (70 oed) sy'n byw gyda chi. Eich incwm o'r gwaith ydy **£20,000** y flwyddyn. Mae'ch rhent yn **£100** yr wythnos.

Astudiaeth Achos

### Raj (30 oed)



Rydych chi'n briod ac mae un mab Ranjeev (12 oed) gennych chi. Mae'ch gwraig yn gofalu am eich tad (70 oed) sy'n byw gyda chi. Eich incwm o'r gwaith ydy **£20,000** y flwyddyn. Mae'ch rhent yn **£100** yr wythnos.

# Gweithgaredd 9: Budd-daliadau

## Cardiau cwestiwn y Ganolfan Gynghori

**A.** Beth ydy'ch oedran chi?

**B.** Oes swydd gennych chi?

**C.** Ydych chi'n fyfyriwr? Sawl awr yr wythnos ydych chi yn y coleg?

**Ch.** Os ydych chi'n ddi-waith ydych chi am gael swydd?

**D.** Beth ydy'ch incwm chi?

**Dd.** Oes swydd gan eich gwraig, gŵr, partner?

**E.** Faint o arian ydych chi wedi'i gynilo?

**F.** Faint ydy'ch rhent?

**Ff.** Faint o blant sydd gennych chi? Beth ydy'u hoedran nhw?

**H.** Ydy hi'n anodd i chi fyw a thalu'ch biliau?

# Gweithgaredd 9: Budd-daliadau

## Cardiau ymateb 1

Ymateb


### Gemma
(17 oed)



Gall hawlio Lwfans Ceisio Gwaith (**£50.95**), Cymhorthdal Incwm (sy'n amrywio i helpu bywyd dyddiol), Budd-dâl Tai (y rhent cyfan wedi'i dalu o bosibl) a Budd-dâl Plant (**£20.00** yr wythnos)

Ymateb

### Jeremy
(17 oed)



Gall hawlio Lwfans Ceisio Gwaith (**£50.95**), Cymhorthdal Incwm (sy'n amrywio i helpu bywyd dyddiol), Budd-dâl Tai (y rhent cyfan wedi'i dalu o bosibl) a Budd-dâl Plant (**£20.00** yr wythnos)

Ymateb

### Sioned
(18 oed)



Dylai gael Lwfans Cynhaliaeth Addysg (**£30** yr wythnos) a Lwfans Gofalwr (**£53.10** yr wythnos).

Ymateb

### John
(18 oed)



Dylai gael Lwfans Cynhaliaeth Addysg (**£30** yr wythnos) a Lwfans Gofalwr (**£53.10** yr wythnos).

Ymateb

### Pauline
(21 oed)



Gall y partner gael Lwfans Ceisio Gwaith (**£64.30** yr wythnos) os ydy'n chwilio o ddifrif am swydd. Mae'n debygol y byddant hefyd yn cael Cymhorthdal Incwm, Budd-dâl Tai a Chredyd Treth Gwaith.

Ymateb

### Paul
(21 oed)



Gall y partner gael Lwfans Ceisio Gwaith (**£64.30** yr wythnos) os ydy'n chwilio o ddifrif am swydd. Mae'n debygol y byddant hefyd yn cael Cymhorthdal Incwm, Budd-dâl Tai a Chredyd Treth Gwaith.

# Gweithgaredd 9: Budd-daliadau

## Cardiau ymateb 2

Ymateb


**Gwyn** (25 oed)



Gall hawlio Budd-dâl Plant o **£20** yr wythnos ar gyfer Mike a **£13.20** yr un am Chloe a Dai. Bydd dim Budd-dâl Tai gan fod cynilion o fwy na **£16,000** ganddo. Dylai gael Cymhorthdal Incwm, Credyd Treth Gwaith a Chredyd Treth Plant.

Ymateb

**Gwen** (25 oed)



Gall hawlio Budd-dâl Plant o **£20** yr wythnos ar gyfer Mike a **£13.20** yr un am Chloe a Dai. Bydd dim Budd-dâl Tai gan fod cynilion o fwy na **£16,000** ganddi. Dylai gael Cymhorthdal Incwm, Credyd Treth Gwaith a Chredyd Treth Plant.

Ymateb

**Abi** (40 oed)



Gall hawlio Budd-dâl Plant o **£20** yr wythnos ar gyfer Paul a **£13.20** ar gyfer Siân. Mae'n debygol y caiff Paul LCA o **£10** yr wythnos. Efallai y gall dderbyn Credyd Treth Plant.

Ymateb

**Alun** (40 oed)



Gall hawlio Budd-dâl Plant o **£20** yr wythnos ar gyfer Paul a **£13.20** ar gyfer Siân. Mae'n debygol y caiff Paul LCA o **£10** yr wythnos. Efallai y gall dderbyn Credyd Treth Plant.

Ymateb

**Amrit** (30 oed)



Gall hawlio Cymhorthdal Plant o **£20** ar gyfer Ranjeev. Gall ei gŵr gael Lwfans Gofalwr o **£53.10**.

Ymateb

**Raj** (30 oed)



Gall hawlio Cymhorthdal Plant o **£20** ar gyfer Ranjeev. Gall ei wraig gael Lwfans Golawr o **£53.10**.

# Gweithgaredd 9: Budd-daliadau

## Taflen Budd-daliadau 1

| Enw'r budd-dâl | Pwy sy'n ei gael? | Sut mae ei hawlio? | Beth ydy'r rheolau? | Faint o arian gewch chi? |
|---|---|---|---|---|
| **Lwfans Ceisio Gwaith** ar gyfer pobl ddi-waith | Pobl sy'n gweithio llai nag 16 awr yr wythnos neu sy'n ddi-waith. Rhaid eich bod o ddifrif yn chwilio am swydd. Dydy myfyrwyr llawn amser ddim yn ei gael. | Yn y Ganolfan Byd Gwaith. Rhaid mynd am gyfweliad a llenwi ffurflen. **www.dwp.gov.uk** | Rhaid i chi wneud beth mae'r person yn eich cyfweliad yn ei ddweud wrthych chi – dilyn cwrs neu geisio am swydd. Bydd y budd-dâl yn cael ei dorri os na wnewch chi hyn. | Mae pobl 25 neu iau yn cael **£50.95** yr wythnos. Mae pobl 25 neu hŷn yn cael **£64.30** yr wythnos. |
| **Cymhorthdal Incwm** ar gyfer pobl sydd angen help â chostau byw bob dydd | Pobl rhwng 16 a 59 sy'n methu gweithio am eu bod yn rhieni sengl, yn sâl neu'n anabl, yn ofalwr, neu'n ddall. Pobl sy'n gweithio am lai nag 16 awr yr wythnos neu sy'n ddi-waith. Fel arfer, dydy pobl 16 neu 17 ddim yn ei gael. | Rhaid hawlio Cymhorthdal Incwm dros y ffôn: **0800 055 6688**. Neu gallwch lenwi ffurflen ar **www.dwp.gov.uk** | Os ydych chi'n byw gyda rhywun sy'n gweithio mwy na 24 awr yr wythnos, mae'n debygol na chewch chi wneud cais amdano. | Cewch y gwahaniaeth rhwng eich incwm wythnosol a'r isafswm sydd ei angen i fyw bob dydd. |
| **Budd-dâl Tai** ar gyfer pobl ar incwm isel i'w helpu i dalu'u rhent | Mae'n rhaid i chi fod yn denant ac yn talu rhent. Gallwch fod yn rhannu fflat neu dŷ. Rhaid i chi fod yn hŷn na 18. Rhaid i chi fod ar gyflog isel a bod â llai nag **£16,000** wedi'i gynilo. | Rhaid gwneud cais i'ch swyddfa gyngor leol. Rhaid i chi lenwi ffurflen a dangos prawf o'ch incwm. **www.dwp.gov.uk** | Ni fydd yn talu am gostau nwy, trydan na dŵr. | Bydd hyn yn dibynnu ar eich enillion a pha fudd-daliadau eraill gewch chi. Bydd swyddog rhent yn penderfynu os ydy'ch rhent chi'n un teg neu'n rhy uchel. Mae budd-daliadau tai yn amrywio. |
| **Credyd Treth Gwaith** ar gyfer pobl mewn swyddi sydd â chyflogau isel | Pobl sy'n hŷn na 25 ac sy'n gweithio dros 30 awr yr wythnos ar gyflogau isel. Pobl sy'n hŷn nag 16, sy'n gweithio dros 16 awr ac sydd â phlentyn neu anabledd. | Ffoniwch y llinell gymorth ar gyfer Credydau Treth Gwaith ar **0845 300 3900** neu ewch at **www.hmrc.gov.uk** | Mae llawer o reolau yma. | Mae hyn yn dibynnu ar nifer o ffactorau. Mae'r symiau arferol rhwng **£20** ac **£80** yr wythnos. Mae'n cael ei gyfrifo bob blwyddyn. |

# Gweithgaredd 9: Budd-daliadau

## Taflen Budd-daliadau 2

| Enw'r budd-dâl | Pwy sy'n ei gael? | Sut mae ei hawlio? | Beth ydy'r rheolau? | Faint o arian gewch chi? |
|---|---|---|---|---|
| **Credyd Treth Plant** ar gyfer pobl â phlant sydd ar gyflogau isel | Pobl sy'n hŷn nag 16 sydd â phlant. | Ffoniwch y llinell gymorth credyd treth ar **0845 300 3900** neu ewch at **www.hmrc.gov.uk** | Does dim rhaid i chi fod ar gyflog isel iawn i fod yn gymwys felly bydd nifer mawr o deuluoedd yn derbyn peth Credyd Treth Plant. | Bydd hyn yn dibynnu ar eich incwm a'r nifer o blant sydd gennych chi. Mae pob teulu'n cael **£545** ac yna **£2,085** ar gyfer pob plentyn. |
| **Budd-dâl Plant** ar gyfer pobl sydd â phlant | Pob rhiant neu ofalwr sydd â phlentyn dan 16 neu dan 20 os ydyn nhw'n dilyn addysg amser llawn. | Ffoniwch y llinell gymorth Budd-dâl Plant ar **0845 302 1444** neu ewch i'r Swyddfa Budd-dâl Plant ar **www.dwp.gov.uk** | Mae'n cael ei dalu i'r rhan fwyaf o bobl sydd â phlant ac nid yw'n dibynnu ar eu hincwm (nid yw'n dibynnu ar brofi modd). | **£20** yr wythnos ar gyfer y plentyn cyntaf ac **£13.20** yr wythnos ar gyfer pob plentyn arall. |
| **Lwfans Gofalwyr** ar gyfer pobl sy'n gofalu am berson anabl | Unrhyw un sy'n hŷn nag 16 ac sy'n gofalu am berson anabl 35 awr yr wythnos neu fwy. Nid ydyn nhw mewn addysg llawn amser nac yn ennill mwy na **£95** yr wythnos. | Ffoniwch y Ganolfan Byd Gwaith ar **0800 055 6688** neu ewch at **www.directgov.gov.uk/carers** | Mae'n rhaid bod y person rydych chi'n gofalu amdano yn hawlio lwfans neu fod yn derbyn cyflog isel. Gall y lwfans gael ei leihau os ydych chi'n derbyn budd-daliadau eraill. | **£53.10** yr wythnos. |
| **Lwfans Cynhaliaeth Addysg** (LCA) ar gyfer myfyrwyr | Myfyrwyr rhwng 16 ac 19 sy'n dilyn addysg bellach. Rhaid i incwm y teulu fod yn llai na **£32,400**. | Ffoniwch llinell gymorth yr LCA ar **0845 60 2884** neu cwblhewch ffurflen ar-lein yn **www.studentfinancewales.co.uk** | Rhaid i chi fod â chyfrif banc. Gall hwn gael ei dorri os nad ydych chi'n mynychu'ch cwrs yn rheolaidd. | **£10**, **£20** neu **£30** yr wythnos gan ddibynnu ar incwm eich teulu. Gellir talu bonws hefyd. |

# Gweithgaredd 9: Budd-daliadau

## Taflen Budd-daliadau wag 1

| Enw'r budd-dâl | Pwy sy'n ei gael? | Sut mae ei hawlio? | Beth ydy'r rheolau? | Faint o arian gewch chi? |
|---|---|---|---|---|
| **Lwfans Ceisio Gwaith**<br>ar gyfer pobl ddi-waith | | | | |
| **Cymhorthdal Incwm**<br>ar gyfer pobl sydd angen help â chostau byw bob dydd | | | | |
| **Budd-dâl Tai**<br>ar gyfer pobl ar incwm isel i'w helpu i dalu'u rhent | | | | |
| **Credyd Treth Gwaith**<br>ar gyfer pobl mewn swyddi sydd â chyflogau isel | | | | |

# Gweithgaredd 9: Budd-daliadau

## Taflen Budd-daliadau wag 2

| Enw'r budd-dâl | Pwy sy'n ei gael? | Sut mae ei hawlio? | Beth ydy'r rheolau? | Faint o arian gewch chi? |
|---|---|---|---|---|
| **Credyd Treth Plant** ar gyfer pobl â phlant sydd ar gyflogau isel | | | | |
| **Budd-dâl Plant** ar gyfer pobl sydd â phlant | | | | |
| **Lwfans Gofalwyr** ar gyfer pobl sy'n gofalu am berson anabl | | | | |
| **Lwfans Cynhaliaeth Addysg** (LCA) ar gyfer myfyrwyr | | | | |

# Gweithgaredd 10: Ydy hi'n iawn?

## Cefndir

Mae'r gweithgaredd hwn yn trafod moeseg derbyn arian am wneud pethau sydd yn erbyn y gyfraith neu sydd ar y ffin o fod yn gyfreithlon. Gofynnir i rai pobl ifanc wneud hyn. Mae'r gweithgaredd hwn yn rhoi'r cyfle iddyn nhw drafod y pethau y byddan nhw'n eu gwneud a'r pethau y byddan nhw'n gwrthod eu gwneud. Er mwyn cael pellter rhwng eu profiadau eu hunain, mae'r sefyllfaoedd wedi'u cyflwyno drwy ddefnyddio nifer o gymeriadau sy'n cynrychioli pobl ifanc. Mae'r cyfle yma iddyn nhw ystyried y peryglon posibl o dderbyn arian am bethau 'anghyfreithlon' neu 'orfentrus'. Mae gorgyffwrdd amlwg yma â dinasyddiaeth weithredol a'r cwestiwn o ba mor hen sy'n rhaid i rywun fod cyn bod caniatâd i wneud rhai mathau o waith.

| Amcanion y dysgu | |
|---|---|
| **Rhaid** | gwybod bod rhai ffyrdd o ennill arian yn erbyn y gyfraith |
| **Dylent** | wybod am rai o'r peryglon sy'n dilyn ffyrdd anghyfreithlon o wneud arian |
| **Gallent** | ddeall y gwahaniaeth rhwng gweithgareddau cyfreithlon a rhai anghyfreithlon |

| Cysylltiadau â'r cwricwlwm | |
|---|---|
| **ABCh** | Sgiliau<br>• ystyried safbwyntiau pobl eraill er mwyn llunio barn a gwneud penderfyniadau a dewisiadau gwybodus yn effeithiol<br>Ystod<br>• deall eu cyfrifoldebau o safbwynt rheoli cyllideb (e.e. ffynonellau incwm)<br>• deall canlyniadau economaidd a moesegol y penderfyniadau ariannol personol y maent yn eu gwneud fel defnyddwyr (e.e. materion sy'n ymwneud â nwyddau ffug a thorri hawlfraint)<br>• deall y gweithredoedd sy'n dda ac sy'n ddrwg yn eu barn hwy, a'r problemau moesol sy'n gysylltiedig â sefyllfaoedd bywyd<br>• deall agweddau allweddol ar y system cyfiawnder troseddol a'r modd y maent yn berthnasol i bobl ifanc |

| Geiriau allweddol |
|---|
| anghyfreithlon, cyfreithiol, iechyd a diogelwch, yswiriant |

| Awgrymiadau |
|---|
| Estynnwch wahoddiad i'r heddlu gael trafod y troseddau sy'n digwydd yn lleol a sut mae gweithio'n anghyfreithlon yn effeithio'r cyflogwr a'r gweithiwr. |

## Tasgau

### Cam 1

Eglurwch fod sawl ffordd o gael arian ychwanegol ar wahân i gael 'swydd go iawn'. Gofynnwch i'r myfyrwyr am syniadau sut y gallai rhywun ddechrau ennill rhagor o arian. Ysgrifennwch y syniadau hyn ar y bwrdd. Gofynnwch i'r myfyrwyr pa rai o'r syniadau hyn sy'n gyfreithiol a pha rai sy'n anghyfreithlon. Dylech chi benderfynu os ydych chi am annog eich myfyrwyr i ddatgelu enghreifftiau o sut y maen nhw'n gallu ennill arian mewn ffyrdd sy'n anghyfreithlon neu sy'n ffinio ar hynny. Os oes trafodaeth ar hyn yn y dosbarth, dylech ei gwneud hi'n glir i'r myfyrwyr ei bod hi'n ddyletswydd arnoch chi i drafod hyn â'r staff hŷn er mwyn eu diogelwch nhw. Yna gallan nhw benderfynu p'un ai dweud wrthych chi ar goedd o flaen y dosbarth, neu'n gyfrinachol ar ôl y wers.

# Gweithgaredd 10: Ydy hi'n iawn?

Gofynnwch iddyn nhw weithio fesul tri.  Torrwch a dosbarthwch set o gardiau 'Ydy hi'n iawn?' i bob grŵp.  Eglurwch mai'r dasg ydy darllen y cerdyn ar goedd a thrafod y sefyllfa sydd ar bob cerdyn.  Mae'r cwestiwn yr un fath ar bob cerdyn sef tybed a fydden nhw'n cynghori'r cymeriad i wneud yr hyn mae rhywun wedi gofyn iddyn nhw ei wneud neu i wrthod a dweud 'Na'.  Yna bydd angen i'r grŵp gyfiawnhau'r penderfyniad.  Efallai y byddwch chi'n penderfynu defnyddio ond un neu ddau o'r cardiau mewn un sesiwn, h.y. y rhai sydd mwyaf addas i'r grŵp neu sy'n debygol o ennyn y drafodaeth fwyaf brwd.

## Cam 2

Rhowch ddigon o amser i'r myfyrwyr weithio drwy'r cardiau.  Sicrhewch eu bod nhw'n trafod pob cerdyn yn drwyadl ac yn cofnodi'u rhesymau dros dderbyn neu wrthod y cynnig.  Ffordd arall fyddai peidio dosbarthu'r cardiau ond egluro pob sefyllfa ar lafar ac yna ganiatáu amser i bob grŵp drafod y sefyllfa a phenderfynu os bydden nhw, neu os dylen nhw, dderbyn neu wrthod y cynnig.  Gallan nhw ddangos eu cardiau IAWN neu DDIM YN IAWN ar ddiwedd y drafodaeth wedi i'r athro ofyn iddyn nhw am eu barn derfynol.  Bydd hyn yn dangos pleidlais y dosbarth ar bob sefyllfa.

## Adolygu

Ewch drwy'r cardiau fesul un a gofyn i grwpiau gwahanol i egluro'u penderfyniad a rhoi'u rhesymau drosto.  Yna gofynnwch i grŵp arall os ydyn nhw'n cytuno neu'n anghytuno a gwrandewch ar eu rhesymau hwythau.  Ymlaen â hyn hyd nes bod pawb wedi trafod pob sefyllfa.  Defnyddiwch gardiau Sylwadau'r Athrawon i wneud eich sylwadau chi ar yr ymatebion.

# Gweithgaredd 10: Ydy hi'n iawn?

## Cardiau cwestiynau

**Cai, 16 oed**

Mae dyn glanhau'r ffenestri yn gofyn i Cai i weithio iddo. Bydd hyn yn golygu 15 awr o waith yr wythnos. Mae Cai yn y coleg. Rhan o'r gwaith fydd dringo ysgolion. Bydd yn cael ei dalu £3 yr awr mewn arian parod bob wythnos.

**Ydy hi'n iawn?**

Ddylai Cai dderbyn y swydd?

**Mel, 15 oed**

Mae ffrind i Mel yn dangos iddi hi sut mae copïo CDau a DVDau. Mae hi'n dweud bod arian da i'w wneud wrth werthu'r rhain yn y coleg. Gall hi gael £3 am CD a £4 am DVD.

**Ydy hi'n iawn?**

Ddylai Mel gopïo a gwerthu'r disgiau?

**Pete, 15 oed**

Mae ffrind i Pete yn gofyn iddo werthu iPod ail-law. Mae'n dweud y caiff Pete gadw hanner yr arian a bydd rhai pobl yn fodlon talu hyd at £50 amdanyn nhw. Mae ei ffrind yn dweud bod perthynas wedi'u rhoi nhw iddi hi.

**Ydy hi'n iawn?**

Ddylai Pete gytuno?

**Priti, 15 oed**

Mae stondin ddillad gan gymydog i'r teulu yn y farchnad leol. Mae'n gwerthu nwyddau ffug fel crysau 'Armani' a bagiau 'Versace'. Mae'r cymydog am i Priti weithio bob prynhawn Mercher am £5 yr awr.

**Ydy hi'n iawn?**

Ddylai Priti gytuno?

**Enfys, 18 oed**

Mae brawd iau Enfys yn dweud wrthi sut y gall hi ennill tipyn o arian. Mae'n hawdd – mae hi'n mynd i'r siop ac yn prynu cwrw rhad. Yna mae hi'n gwerthu'r cwrw i ffrindiau'i brawd sy'n 15 oed. Bydd hi'n gwneud elw o 25c ar bob can.

**Ydy hi'n iawn?**

Ddylai Enfys gytuno?

**Karl, 15 oed**

Mae Karl yn un da â'i ddwylo. Mae llawer o offer trydanol gan ei Dad. Mae Karl yn ystyried curo ar ddrysau'r ardal a chynnig gwneud mân swyddi i bobl.

**Ydy hi'n iawn?**

Ddylai Karl roi cynnig arni?

**Jane a Jemma, 18 oed**

Mae syniad gan Jane a Jemma i werthu eiddo coll o faes awyr. Mater rhwydd o brynu llwyth o bethau - dillad, menig, sgarffiau, sbectolau – yn rhad mewn sêl leol ac yna'u gwerthu mewn arwerthiant cist car.

**Ydy hi'n iawn?**

Ddylen nhw roi cynnig arni?

**Paul 17 oed**

Mae Nain Paul yn anabl. Mae ei fam yn gweithio'n llawn amser ac mae hi am i Paul ofalu am ei Nain am ddau ddiwrnod bob wythnos. Dydy Paul ddim yn y coleg y dyddiau hynny. Mae ei fam yn cynnig talu £20 y dydd iddo.

**Ydy hi'n iawn?**

Ddylai Paul dderbyn y cynnig?

# Gweithgaredd 10: Ydy hi'n iawn?

## Cardiau sylwadau'r athrawon

**Cai, 16 oed**

Mae hyn yn waith anghyfreithlon. Mae'n debygol na fyddai Cai yn mynd i'r coleg ar adegau a byddai ei le yno yn y fantol. Mae hyn yn waith peryglus tu hwnt. Mae syrthio o ben ysgol yn un o'r achosion mwyaf cyffredin o ddamweiniau difrifol. Mae hi yn erbyn y gyfraith i bobl ifanc weithio ar fannau uchel. Y tebygrwydd ydy na fyddai yswiriant gan ei gyflogwr yn erbyn peryglon fel hyn.

**Mel, 15 oed**

Mae hyn yn weithred anghyfreithlon. Mae cwmnïau mawr yn ymwybodol o gopïo anghyfreithlon ac maen nhw yn erlyn pobl sy'n gwneud hynny. Mae hi'n beth drwg i dorri hawlfraint fel hyn.

**Pete, 15 oed**

Mae hi'n bosibl iawn fod yr iPods wedi'u dwyn oddi wrth bobl ifanc eraill sydd wedi dioddef ymosodiad a lladrad ar y stryd. Gallai hyn arwain at gofnod troseddol am drin a thrafod nwyddau wedi'u dwyn.

**Priti, 15 oed**

Mae hi dan oedran gadael ysgol ac felly dylai hi fod yn yr ysol ar brynhawniau Mercher. Gall ei rhieni gael eu dirwyo am beidio gwneud yn siŵr ei bod hi yn yr ysgol. Gan mai nwyddau ffug sydd ar y stondin mae hawl gan y swyddfa safonau masnach leol gymryd y nwyddau sy'n torri nodau masnach cofrestredig. Yn aml, plant neu bobl ar gyflogau isel tu hwnt mewn gwledydd tlawd sydd wedi gwneud y nwyddau.

**Enfys, 18 oed**

Mae hi'n anghyfreithlon i ail werthu alcohol i bobl dan 18 mlwydd oed. Mae'n bosibl y bydd hi'n hwyluso goryfed ac ymddygiad gwrthgymdeithasol.

**Karl, 15 oed**

Mae hyn yn waith peryglus. Dydy Karl heb ei hyfforddi'n iawn i ddefnyddio'r offer a gall hyn achosi damwain iddo. Gall ddrilio i wifren drydan yn y wal a lladd ei hun. Hefyd, mae dan 16 mlwydd oed ac yn blentyn o hyd. Mae'n bwriadu mynd i dai pobl ddieithr ac mae hyn hefyd yn beryglus.

**Jane a Jemma, 18 oed**

Mae hyn yn syniad busnes da. Er hynny, bwriad arwerthiant cist car ydy i bobl sydd â nwyddau sydd bellach yn ddiangen i'w gwerthu nhw. Does dim rhaid datgan hyn i'r adran Gyllid a Thollau (yr awdurdodau trethi). Fodd bynnag, dylai 'masnachwyr' fel Jane a Jemma sy'n gwerthu'r un nwyddau bob wythnos gofrestru fel busnes a thalu'u trethi.

**Paul 17 oed**

Mae mam Paul yn gofyn iddo wneud aberth mawr fydd yn effeithio'i ddyfodol yn y coleg. Mae llawr o ofalwyr ifanc yn gwneud hyn i helpu perthnasau sy'n hen neu sy'n anabl. Dydy hyn ddim yn erbyn y gyfraith nac yn beryglus, ond dylai Paul benderfynu drosto'i hun ei fod am helpu fel hyn heb fod pwysau'n cael eu rhoi arno.

# Gweithgaredd 10: Ydy hi'n iawn?

Cardiau pleidleisio






# Gweithgaredd 11: Beth ydy'r siawns?

## Cefndir

Mae'r gweithgareddau hyn yn datblygu dealltwriaeth y myfyrwyr o debygolrwydd ac yn egluro'r ods gwirioneddol sydd mewn betio. Dydy hi ddim yn fwriad yma i bobl ifanc ddysgu popeth am gamblo ond eu rhybuddio o'r peryglon heb fod yn rhy biwritanaidd. Bydd trafodaeth fer ar debygolrwydd ac ods betio yn arwain at sôn am y mathau mwyaf cyffredin o fetio, y siawns o ennill a'r syniad o sgìl yn erbyn lwc neu siawns. Mae'r gweithgareddau'n dod i ben gyda thrafodaeth am beryglon gamblo ac astudiaethau achos o wefan Gamblers Anonymous (gweler: www.gamblersanonymous.org.uk/)

| Amcanion y dysgu | |
|---|---|
| **Rhaid** | deall cysyniad gamblo |
| **Dylent** | ddeall y problemau sy'n deillio o gamblo |
| **Gallent** | ddeall y tebygolrwyddau o ennill a cholli mewn ffyrdd gwahanol o gamblo |

| Cysylltiadau â'r cwricwlwm | |
|---|---|
| **Mathemateg** | • cyfrifo gydag arian<br>Hefyd gwaith ar debygolrwydd. |
| **ABCh** | Sgiliau<br>• gwneud penderfyniadau a dewisiadau gwybodus yn effeithiol<br>Ystod<br>• deall canlyniadau economaidd a moesegol y penderfyniadau ariannol personol y maent yn eu gwneud fel defnyddwyr<br>• deall yr ystod o emosiynau y maent yn eu profi a sut i ddatblygu strategaethau ar gyfer ymdopi â theimladau negyddol<br>• deall y ffactorau sy'n effeithio ar iechyd meddwl a'r ffyrdd y gellir meithrin lles emosiynol<br>• deall y manteision o gael mynediad i wahanol ffynonellau o wybodaeth, cymorth a chyngor<br>• deall y mudiadau statudol a gwirfoddol sy'n hybu iechyd a lles emosiynol |

| Geiriau allweddol |
|---|
| ar hap, cymhareb, gamblo, ods, siawns deg, tebygolrwydd |

| Awgrymiadau |
|---|
| Gallwch drafod yr hyn sy'n debyg a'r hyn sy'n wahanol rhwng gamblo â buddsoddi ar y farchnad stoc.<br>Ewch i www.bbc.co.uk/celebdaq |

## Tasgau

### Cam 1

Mae gamblo'n amlwg yn bwnc ar gyfer cwricwlwm ABCh. Cyn dechrau ar y gweithgareddau sy'n ymwneud â thebygolrwydd a phroblemau gamblo efallai y byddwch chi am drafod rhai cwestiynau fel y rhain:

*Pam fod nifer o bobl yn gamblo?* Mae'r rhestr o atebion yn un hir ond ystyriwch y canlynol: teimlo'n lwcus, angen cael hwyl, anghenion ariannol, gallu dianc, ymlacio, ennill arian, achos da (elusen), cymdeithasu, testun trafod â ffrindiau, ofergoeliaeth, newid ffordd o fyw, ffordd o fuddsoddi (bondiau premiwm), ac yn y blaen.

*Pam fod rhai pobl yn gamblo mwy nag eraill a phwy ydy'r bobl hyn?* Mae hwn yn gwestiwn llawer mwy dyrys a dylid cynnal trafodaeth agored am hyn gan fod yn ymwybodol y bydd y myfyrwyr yn adnabod rhai pobl sydd â phroblem gamblo.

# Gweithgaredd 11: Beth ydy'r siawns?

*Beth sy'n ddrwg a beth sy'n dda am gamblo?*

Rhaid i bobl fod yn hŷn na 18 ar gyfer y rhan fwyaf o ffyrdd o gamblo and cyhoeddodd y llywodraeth yn y Ddeddf Hapchwarae 2005 bod plant a phobl ifanc yn cael defnyddio peiriannau hapchwarae sy'n derbyn ac yn rhoi symiau isel o arian, ac yn cael cymryd rhan mewn loterïau a'r pyllau pêl-droed. Ydy'r myfyrwyr yn tybio bod hyn yn beth da?

Mae cryn gynnydd wedi bod yn ddiweddar mewn gamblo ar-lein (a hysbysebion ar y teledu amdano). Mae llawer mwy o gemau ar-lein yn denu pobl ifanc. Ydy'r myfyrwyr yn tybio bod hyn yn beth da?

### Cam 2

Mae gofyn yma bod dealltwriaeth sylfaenol o debygolrwydd gan y myfyrwyr. Yma mae hi'n well rhoi'r tebygolrwydd fel ffracsiwn (fel 1/3, dyweder) ac mewn gosodiad 'un o dri'. Sawl gwaith fydden nhw'n disgwyl taflu pen gydag un darn arian (neu odrif wrth daflu dis)? Os ydych chi o'r farn eu bod nhw'n ansicr gyda gwaith fel hyn yna rhowch gyfle iddyn nhw wneud yr arbrofion ac yna gyfrifo'r 'tebygolrwydd arbrofol' wrth gyfuno canlyniadau pawb. Os ydyn nhw'n gallu gwneud hyn yn hyderus, gallwch ymestyn yr arbrawf at ddau ddarn arian – sawl gwaith y byddan nhw'n cael dau ben (1/4). Gallwch arbrofi â dau ddis – sawl tro y byddan nhw'n taflu dau odrif (1/4)? Defnyddiwch unrhyw amrywiad y tybiwch chi sydd o fewn eu gafael.

Eglurwch ystyr y term 'ar hap' yng nghyd-destun rhifau sydd wedi'u dewis ar hap yn y loteri genedlaethol neu wrth ddewis rhifau bondiau premiwm.

### Cam 3

Beth ydy'r berthynas rhwng siawns a thebygolrwydd?  Wrth daflu un darn arian, mae un siawns o ddau (½) o gael pen, felly mae'n siawns deg.  Mewn geiriau eraill, rydych chi'n betio £1 i ennill £1.  Y siawns o ddewis cerdyn rhaw o becyn cyfan ydy un o bedwar (1/4) felly byddwch chi'n disgwyl ennill £3 am bob un bet o £1 (byddai'r bancwr yn gosod 3/1 yn erbyn eich bet chi o £1 ac felly'n rhoi £4 i chi – gan gynnwys eich £1 wreiddiol).

Gofynnwch i'r myfyrwyr faint o arian fydden nhw'n ei gael gan y bwci os bydden nhw'n betio £1 ar geffyl ar 2 i 1; 5 i 1; 7 i 1; 5 i 2, ac yn y blaen.

### Cam 4

**Gêm un darn arian:** Mae'r gêm hon i'w gweld ar y daflen Gemau. Rhannwch y grŵp yn barau.
**Gêm gardiau:** Mae'r gêm hon i'w gweld ar y daflen Gemau. Mae mwy na dau berson yn gallu chwarae'r gêm hon. Bydd angen canolwr os bydd mwy na dau'n chwarae.

Dylai'r myfyrwyr sylweddoli hyd yn oed os ydy'r ods i'w gweld o'u plaid neu os oes ganddyn nhw ods cyfartal bod y peryglon o golli yn uchel o hyd. Y bancwr ydy'r un sy'n ennill yn y pen draw (ond ddim bob tro) oherwydd bod yr ods wedi'u trefnu i fod yn erbyn y chwaraewyr a bod llawer mwy o arian gan y banc!

### Cam 5

Mae gamblo ar geffylau yn gyfuniad o sgìl a lwc. Dosbarthwch y cardiau 'Sgìl neu lwc' a gofynnwch i'r myfyrwyr osod y cardiau Sgìl, Lwc, a Sgìl a Lwc ar y bwrdd.  Yna maen nhw'n trafod pob gêm neu ffordd o gamblo er mwyn penderfynu os ydy'r gamblo yn dibynnu ar sgìl pur, lwc pur neu gyfuniad o'r ddau. Ar ôl y gweithgaredd hwn dylai'r myfyrwyr fod â rhestr gweddol gynhwysfawr o'r gwahanol ffyrdd o gamblo a cholli'u harian. Mae llawer o gemau gamblo yn dibynnu'n llwyr ar lwc. Efallai y byddech chi am sôn yma bod y siawns o ddewis 6 rhif ar hap yn y loteri genedlaethol tua 14,000,000 i un.

### Cam 6

Mae 'Gamblers Anonymous' yn gymdeithas o ddynion a merched sydd wedi ymuno â'i gilydd i allu gwneud rhywbeth am eu problem gamblo bersonol nhw ac i gynnig help i bobl eraill sy'n gaeth i gamblo. Mae holiadur i'w gael ar www.gamblersanonymous.org.uk. Argraffwch gopi yr un i bob disgybl a darllenwch drwy'r holiadur gyda nhw yn y dosbarth. Bydd hyn yn rhoi syniad iddyn nhw o nodweddion rhywun sy'n gaeth i gamblo a sut y maen nhw'n ymddwyn. Mae llawr o enghreifftiau o astudiaethau achos ar y wefan.  Rydym ni wedi cynnwys ond pedwar yma.  Darllenwch un neu fwy o'r rhain i'ch myfyrwyr a gofynnwch gwestiynau i ganfod eu hymateb iddyn nhw.

# Gweithgaredd 11: Beth ydy'r siawns?




## Gêm: Beth am guro'r bancer?

Mae angen un darn arian ar gyfer y gêm siawns deg hon.

Bydd dau chwaraewr yn chwarae'r gêm.

Y bancer ydy un a chwaraewr ydy'r llall.

Mae'r bancer yn derbyn 20 cownter (tships).

Mae'r chwaraewr yn derbyn 5 cownter (tships).

Mae'r chwaraewr yn taflu'r darn arian ac os bydd yn dangos 'pen' mae'n ennill un cownter.

Os ydy'r chwaraewr yn taflu'r darn arian a bydd yn dangos 'cynffon' mae'n colli un cownter.

**Ydy'r chwaraewr yn gallu ennill pob un o gownteri'r bancer?**



## Gêm: Beth sy'n digwydd?

Rhaid dechrau'r gêm â phecyn o gardiau.

Gall dau chwaraewr neu fwy chwarae'r gêm.

Mae un yn fancer ac mae'r lleill yn chwaraewyr.

Mae'r bancer yn derbyn 20 cownter (tships) ar gyfer pob chwaraewr.

Mae pob chwaraewr yn derbyn 10 cownter (tships).

Mae'r bancer yn delio un cerdyn (neu mae'r chwaraewr yn dewis un cerdyn gan y bancer).

Os ydy'r cerdyn yn gerdyn CALON mae'r bancer yn talu tair gwaith y bet.

Os ydy'r cerdyn yn unrhyw gerdyn sydd DDIM yn gerdyn CALON mae'r chwaraewr yn colli'r cownteri mae wedi betio arnyn nhw.

Gall y chwaraewr enwi SIWT y cerdyn llwyddiannus cyn dewis un.

Gall y chwaraewr fetio unrhyw nifer o gownteri.

**Pwy sy'n ennill ar ôl 10 munud / 15 munud?**

# Gweithgaredd 11: Beth ydy'r siawns?

## Cardiau sgìl neu lwc

**Sgìl**

**Pontŵn neu 21**

**Peiriannau ffrwythau**

**Rasio ceffylau**

**Gwyddbwyll**

**Dominos**

# Gweithgaredd 11: Beth ydy'r siawns?

## Cardiau sgìl neu lwc

**Lwc**

**Pocer**

**Cardiau crafu**

**Rasio cŵn**

**Monopoli**

**Bingo**

# Gweithgaredd 11: Beth ydy'r siawns?

## Cardiau sgìl neu lwc

**Lwc a Sgìl**

**Loteri Genedlaethol**

**Pyllau pêl-droed**

**Cardiau ar-lein**

**Draffts**

**Dartiau**


## Gweithgaredd 11: Beth ydy'r siawns?

Pobl sy'n gaeth i gamblo

Mae'r rhain yn astudiaethau achos gwir o wefan Gamblers Anonymous

# Pete

21 Chwefror 2008



Dw i mor drist. Roedd fy chwaer a fi'n arfer bod yn glòs iawn at ein gilydd. Roedd hi'n llawn hwyl ac wrth ei bodd yn gofalu am ei theulu. Mae hi wedi dechrau gamblo ar y rhyngrwyd rhyw ddwy flynedd yn ôl ac erbyn hyn mae'r gamblo'n rheoli'i bywyd yn llwyr.

Pan oedd yr haul yn tywynnu'n braf roedd hi'n arfer bod allan yn yr ardd yn chwarae efo'i phlant, ond bellach mae hi yn y tŷ, y llenni ar gau a hithau'n eistedd wrth ei chyfrifiadur yn ei dillad nos yn gamblo. Mae hi wedi colli llawer o arian a bydd biliau gan ei chwmnïau credyd a llythyrau gan ei banciau yn cyrraedd y tŷ bob dydd bron iawn. Mae ganddi deulu mawr ond dydy hi ddim hyd yn oed yn eistedd efo nhw wrth y bwrdd i fwyta oherwydd ei bod hi ddim am adael ei chyfrifiadur. Dydy ei gŵr hi ddim i'w weld yn poeni rhyw lawer am hyn felly alla i ddim trafod y sefyllfa efo fo.

Erbyn hyn dydw i a fy chwaer braidd yn siarad â'n gilydd. Dw i wedi colli'r chwaer roeddwn i'n ei hadnabod a wn i ddim beth alla i'i wneud. Dw i'n ei charu hi gymaint ac mae ei gweld hi'n distrywio'i bywyd fel hyn yn torri 'nghalon i.

## Cwestiwn:

**Allwch chi feddwl am unrhyw reswm pam fod chwaer Pete yn GAETH I GAMBLO?**



# Gweithgaredd 11: Beth ydy'r siawns?

Pobl sy'n gaeth i gamblo

Mae'r rhain yn astudiaethau achos gwir o wefan Gamblers Anonymous

## Jill

21 Chwefror 2008



Dw i newydd ddarllen datganiadau ein cyfrif banc a'n cardiau credyd am y flwyddyn olaf ac wedi sylweddoli bod fy ngŵr wedi gamblo miloedd o bunnoedd o'n harian ni.

Dw i'n teimlo fel na alla i anadlu, mae'r celwydd a'r twyllo yn ormod i mi. Alla i ddim siarad efo fy ngŵr am hyn gan ei fod yn mynd yn gas ac yn ymosodol ac yna'n rhoi'r bai arna i. Mae ganddo broblem efo'r ddiod hefyd ac mae hynny'n ei wneud yn fwy ymosodol. Mae wedi distrywio ein bywyd efo'n gilydd ac wedi difetha unrhyw sicrwydd ariannol oedd gennym ni ar gyfer ein dyfodol.

Ar hyn o bryd rwy'n teimlo fel lladd fy hun. Alla i ddim gweld bod ffordd allan o'r sefyllfa hollol erchyll yma. Pan mae pobl yn gamblo, nid yn unig eu bywydau nhw sy'n cael eu distrywio ond bywydau'r bobl sydd o'u cwmpas nhw hefyd.

### Cwestiwn:

**Beth ydych chi'n meddwl y gall Jill ei wneud?**



## Gweithgaredd 11: Beth ydy'r siawns?

Pobl sy'n gaeth i gamblo

Mae'r rhain yn astudiaethau achos gwir o wefan Gamblers Anonymous

# Jo

19 Chwefror 2008



Dw i wir yn poeni amdana i fy hun ac am fy nith. Mae gen i ofn bod y ddwy ohonon ni'n gaeth i chwarae bingo. Does dim un diwrnod yn mynd heibio nag ydym ni'n mynd i'r bingo a byddwn yn mynd yno weithiau ddwywaith y dydd.

Dechreuodd hyn i gyd ryw flwyddyn a hanner yn ôl pan wnaethom ni drefnu mynd i'r bingo yn ystod y dydd. Doedden ni ddim yn meddwl bod dim byd yn bod ar hynny, ond erbyn heddiw rydym ni'n treulio'r rhan fwyaf o'n dyddiau yno a phan rydym ni gyda'n gilydd dydyn ni ddim yn siarad am unrhyw beth arall.

Mae hyn ag effaith ar y biliau sy'n rhaid i mi eu talu, ar fy mhlant ac ar fy mywyd cyfan. Wrth ddeffro yn y bore, dim ond y bingo sydd ar fy meddwl i, ac unwaith i mi gael y syniad yn fy mhen i fynd i'r bingo, yna mae'n rhaid i mi fynd yno. Chwe mis yn ôl faswn i ddim wedi meddwl mynd yno ar fy mhen fy hun ond erbyn heddiw os bydd yn rhaid i mi fynd a neb arall yn gallu dod efo fi, byddaf i'n mynd ar fy mhen fy hun. Dw i'n gwybod bod angen help arna i, ond dydw i ddim am i'r teulu wybod fy mod i'n berson mor wan. Cyn dechrau mynd i'r bingo roedd gen i arian yn y banc. Erbyn hyn mae'r cyfrif yn wag.

## Cwestiwn:

**Pam ydych chi'n meddwl bod Jo a'i nith yn mynd i'r bingo efo'i gilydd?**

## Cwestiwn:

**Ydych chi'n meddwl y dylid caniatáu bingo ar-lein?**



# Gweithgaredd 11: Beth ydy'r siawns?

Pobl sy'n gaeth i gamblo

Mae'r rhain yn astudiaethau achos gwir o wefan Gamblers Anonymous

## Julie

17 Ionawr 2008



Shw mai? Dw i ddim yn hollol siŵr os ydw i'n gaeth i gamblo ai peidio, efallai y gallwch chi benderfynu hynny.

Peiriannau ceiniogau oedd hi ar y dechrau, 8 mlynedd yn ôl. Roeddwn i newydd gael plentyn ac roeddwn i wedi rhoi'r arian siopa i mewn i beiriant ffrwythau. Roeddwn i'n teimlo mor euog fel oedd hi'n hawdd i mi stopio. Yna wnes i ddechrau mynd i'r bingo bron iawn bob dydd, rŵan dw i'n chwarae bingo ar-lein. Mae hynny mor hawdd i'w wneud. Dw i wedi trio stopio. Rydw i'n rhoi fy nghyflog yng nghyfrif banc fy mhartner achos alla i ddim defnyddio hwnnw ar-lein. Yna, dyna fy chwaer yn dweud am y tocynnau bingo ffôn symudol. Mae siop leol 2 funud i ffwrdd yn gwerthu'r rhain.

Rŵan ar ddiwedd y mis does dim arian ar ôl o gwbl a dw i'n benthyg arian i brynu'r tocynnau yma. Dw i wedi addo trio stopio achos ein bod ni'n dau'n cweryla o hyd. Y broblem rŵan ydy mod i'n cael fy nhalu ddydd Llun a dwi'n edrych ymlaen yn barod achos dw i'n gwybod beth fydda i'n ei wneud!!!!!!!! Rŵan, ddim aros i ennill ydw i achos dw i'n gwybod y byddaf i'n cario mlaen hyd nes does dim arian o gwbl ar ôl gen i. Diolch am wrando, bydda i'n gwerthfawrogi cael unrhyw help o gwbl. X X

### Cwestiwn:

**Wel, ydy Julie yn gaeth i gamblo?**



# Gweithgaredd 12: Arian annisgwyl

## Cefndir

Er bod y rhan fwyaf ohonom ni yn rhygnu byw o ddydd i ddydd ac yn ceisio defnyddio'r arian sydd gennym ni yn y ffordd orau allwn ni, weithiau cawn sioc enbyd a daw arian annisgwyl i'n rhan. Daw fel afal coch sy'n syrthio oddi ar gangen a disgyn yn blwmp wrth ein traed. Mae nifer o bobl yn byw o ddydd i ddydd gan gredu fel Mr Micawber yn nofel Charles Dickens 'y bydd rhywbeth yn digwydd' a bydd hyn yn gweddnewid ein ffordd o fyw – dim ceisio cael gwerth o bob ceiniog dim rhagor ond glanio'n sydyn mewn môr o foethusrwydd. Tebygolrwydd bychan tu hwnt sydd y bydd hyn yn wir yn digwydd i ni, ond mae nifer o ffyrdd y gallwn dderbyn swm gweddol o arian a hynny'n gwbl annisgwyl. Gall hyn ddod yn ganlyniad i gamblo (sydd wedi'i drafod yng ngweithgaredd 11) neu hefyd o fondiau premiwm, derbyn arian drwy ewyllys ffrind neu berthynas sydd wedi marw, defnyddio arian y Gronfa Ymddiriedolaeth Plant, bonws blynyddol o'r gwaith ac ambell i ffordd arall. Nod y gweithgaredd hwn ydy ceisio gwrthweithio yn erbyn y farn bod derbyn arian o'r fath yn arwain at foddhad y foment drwy i ni orwario. Yn rhan o'r gweithgaredd, bydd gofyn i'r myfyrwyr roi cyngor i gymeriadau gwahanol sydd wedi derbyn arian annisgwyl, ar eu blaenoriaethau wrth iddyn nhw wario'r arian.

| Amcanion y dysgu | |
|---|---|
| **Rhaid** | deall nad oes rhaid gwario pob dimai o arian sy'n cyrraedd yn annisgwyl |
| **Dylent** | ddeall bod nifer o ffyrdd o ddefnyddio arian annisgwyl |
| **Gallent** | benderfynu'n wybodus ar sut mae defnyddio arian annisgwyl |

| Cysylltiadau â'r cwricwlwm | |
|---|---|
| **Mathemateg** | • cyfrifo gydag arian a datrys problemau sy'n ymwneud â chyllidebu, cynilo a gwario |
| **ABCh** | Sgiliau<br>• gwneud penderfyniadau a dewisiadau gwybodus yn effeithiol<br>• gwerthuso cyngor ariannol, cymryd cyfrifoldeb personol am waith cynllunio ariannol, a rheoli'u materion ariannol personol yn effeithiol<br>Ystod<br>• deall sut i reoli'u materion ariannol personol yn fedrus a sylweddoli bod cynilo arian yn arwain at annibyniaeth ariannol<br>• deall sut i reoli'u materion ariannol personol yn fedrus |

| Geiriau allweddol |
|---|
| bondiau premiwm, bonws, gorddrafft |

| Awgrymiadau |
|---|
| Defnyddiwch rannau o'r The Secret Millionaire er mwyn dangos sut y gall rhoi a derbyn fod yr un mor bleserus www.channel4.com/video/the-secret-millionaire/series-2/ |

## Tasgau

### Cam 1

Gofynnwch i'r myfyrwyr os ydyn nhw erioed wedi derbyn swm o arian annisgwyl. Ysgrifennwch yr atebion ar y bwrdd. Gofynnwch a allan nhw feddwl am ffyrdd eraill y gall pobl dderbyn arian yn annisgwyl. Ychwanegwch rai o'r canlynol at eich rhestr:

- Ennill gwobr ariannol mewn cystadleuaeth
- Derbyn arian gan rieni, gwarcheidwaid neu berthnasau
- Cronfa Ymddiriedolaeth Plant

# Gweithgaredd 12: Arian annisgwyl

- Cronfeydd ymddiriedolaeth eraill
- Derbyn arian mewn ewyllys
- Dod o hyd i arian coll (a chael ei gadw os nad oes neb yn ei hawlio)
- Ennill ar y bondiau premiwm
- Cael taliad bonws gan fod y cyflogwr wedi gwneud elw da
- Derbyn swm sylweddol oherwydd codiad cyflog ôl-ddyddiedig
- Gwerthu rhywbeth sy'n codi llawer mwy o arian na'r disgwyl ('Cash in the attic')
- Codi arian mewn arwerthiant cist car.

### Cam 2

Nawr, dwedwch fod rhywun wedi derbyn arian o un o'r ffynonellau uchod. Beth maen nhw i'w wneud â'r arian hynny? Gofynnwch i'r myfyrwyr gynnig nifer o bethau y gall rhywun ei wneud ag arian o'r fath. Efallai y byddan nhw'n cynnig:

- Prynu rhywbeth arbennig sydd ei angen arnyn nhw
- Prynu anrhegion i bobl eraill
- Ad-dalu arian sydd wedi'i fenthyg ganddyn nhw
- Talu dyledion cardiau credyd
- Cynilo arian
- Cyfrannu tuag at elusennau

Bydd maint y swm arian y byddan nhw wedi'i dderbyn yn golygu efallai y gallen nhw wneud dau neu ragor o bethau o'r rhestr uchod.

### Cam 3

Cyflwynwch y myfyrwyr i ddau gymeriad: Dafydd a Nira. Mae'r ddau wedi derbyn symiau o arian yn gwbl annisgwyl. Ar y cardiau mae manylion am eu hamgylchiadau personol a gwybodaeth ar sut y gallen nhw wario'r arian. Gall y myfyrwyr weithio mewn grwpiau bach a phenderfynu sut y gallen nhw gynghori'r naill neu'r llall neu'r ddau ohonyn nhw ynglŷn â'r peth gorau i'w wneud. Does dim y fath beth ag ateb cywir, wrth gwrs, ond heriwch y rheini sy'n dweud mai gwario'r holl arian fyddai orau.

Y negeseuon pwysig ydy:

- Does dim rhaid gwario pob dimai o unrhyw arian annisgwyl a gewch chi
- Mae hi'n beth da i dalu unrhyw ddyled sy'n codi llog uchel
- Ceisiwch ddefnyddio'r arian mewn ffyrdd gwahanol drwy glirio rhai dyledion, cynilo peth ohono a gwario ychydig.


# Gweithgaredd 12: Arian annisgwyl

Mae Dafydd yn 18 oed ac mae'n byw gartref. Mae'n teimlo mai heddiw ydy'i ddiwrnod lwcus. Mae wedi derbyn llythyr sy'n dweud ei fod wedi ennill **£1,000** ar y bondiau premiwm.

Beth ddylai Dafydd ei wneud gyda'r arian?

Sut allai Dafydd ddefnyddio'i **£1,000**?

- Pa 4 peth sy'n fwyaf pwysig iddo'i wneud gyda'i arian? Pam hynny?
- Pa 2 beth sy'n lleiaf pwysig iddo'i wneud gyda'i arian? Pam hynny?




Mae Nira'n 20 oed ac yn byw gartref.

Mae hi newydd etifeddu **£3,000** gan ei Nain.

Beth ddylai Nira ei wneud gyda'r arian?

Sut allai Nira ddefnyddio'i **£3,000**?

- Pa 4 peth sy'n fwyaf pwysig iddi hi ei wneud gyda'i harian? Pam hynny?
- Pa 2 beth sy'n lleiaf pwysig iddi hi ei wneud gyda'i harian? Pam hynny?



# Gweithgaredd 12: Arian annisgwyl

## Cardiau Dafydd

**1** Dydy Dafydd heb dalu dim i'w Fam am gael byw gartref am 10 wythnos.

**2** Mae'n ceisio talu **£10** yr wythnos i'w Fam.

**3** Mae mewn dyled o **£50** i'w frawd.

**4** Mae ganddo orddrafft o **£75** yn y banc.

**5** Mae angen **£400** arall arno i brynu beic modur.

**6** Mae dyled o **£567** ganddo ar ei gerdyn credyd.

**7** Mae dyled o **£130** ganddo ar ei gerdyn credyd siop.

**8** Mae angen **£250** arno i fynd ar wyliau gyda'i fêts.

# Gweithgaredd 12: Arian annisgwyl

## Cardiau Nira

**1** Gall Nira fuddsoddi hyd at **£1,500** mewn cyfrif cynilo personol (ISA)

**2** Gallai hi brynu bondiau premiwm

**3** Y blaendal ar gyfer prynu fflat ydy **£500**

**4** Mae hi'n rhoi **£20** y mis at elusen

**5** Mae dau gerdyn credyd ganddi, un â dyled o **£300** a'r llall â dyled o **£150**

**6** Mae **£900** ganddi yn ei chyfrif banc

**7** Byddai hi'n hoffi prynu dillad newydd am **£400**

**8** Byddai Nira'n hoffi prynu car sy'n costio **£3,000**

# Gweithgaredd 13: Fy nghar cyntaf

## Cefndir

Mae angen i bobl ifanc fod yn gyfarwydd ag iaith prynu car a bod yn abl i drin â symiau arian 4 neu 5 ffigur, yn ogystal â deall egwyddorion canrannau (rydym yn osgoi defnyddio'r term 'cyfradd ganrannol flynyddol – APR' yma). Byddai hi'n ddefnyddiol os byddai'r myfyrwyr yn gallu defnyddio taenlenni a byddai gallu cyrchu'r rhyngrwyd yn gymorth yn ystod rhai o'r gweithgareddau, er bod safon darllenadwyedd rhai gwefannau'n uchel iawn. Nod y gweithgaredd hwn ydy rhoi dealltwriaeth well i bobl ifanc o'r costau llawn o brynu a rhedeg car a hefyd edrych ar fanteision ac anfanteision dulliau gwahanol o fenthyg arian. Gellir addasu'r gweithgaredd hwn yn rhwydd i gwrdd ag anghenion unigol gwahanol.

| Amcanion y dysgu | |
|---|---|
| **Rhaid** | gwybod am yr amrywiaeth o ffyrdd sydd i dalu am nwyddau costus |
| **Dylent** | fod yn ymwybodol o'r costau gwahanol sydd o redeg car |
| **Gallent** | ddeall y manteision a'r anfanteision o'r ffyrdd gwahanol sydd o dalu am nwyddau costus |

| Cysylltiadau â'r cwricwlwm | |
|---|---|
| **Mathemateg** | • cyfrifo gydag arian a datrys problemau sy'n ymwneud â chyllidebu, gwario a hurbwrcas |
| **ABCh** | Sgiliau<br>• gwneud penderfyniadau a dewisiadau gwybodus yn effeithiol<br>• gwerthuso cyngor ariannol, cymryd cyfrifoldeb personol am waith cynllunio ariannol, a rheoli'u materion ariannol personol yn effeithiol<br>Ystod<br>• deall sut i reoli'u materion ariannol personol yn fedrus<br>• deall eu cyfrifoldebau o safbwynt rheoli cyllideb<br>• deall pwysigrwydd cynllunio ar gyfer eu dyfodol ariannol<br>• deall eu hannibyniaeth gynyddol o safbwynt rheoli'u materion ariannol personol a chael gafael ar gredyd |

| Geiriau allweddol |
|---|
| benthyciad banc, benthyciwr arian, blaendal, cerdyn credyd, cwmni cyllido, cyfradd llog, dull talu, gorddrafft, hurbwrcas, premiwm yswiriant, treth car |

| Awgrymiadau |
|---|
| Dyma gyfle da i wahodd yr heddlu lleol i sôn am beryglon gyrru neu defnyddiwch ROSPA<br>www.rospa.com/RoadSafety/education/index.htm |

## Tasgau

### Cam 1

Cyn dechrau ar y gweithgaredd hwn sicrhewch bod y myfyrwyr yn gyfarwydd â gwerth lle a'u bod yn gallu darllen a dweud rhifau hyd at 5 ffigur. Ymarfer diddorol ydy gofyn i'r myfyrwyr beth ydy'r rhif mwyaf y gallan nhw feddwl amdano …. ac yna gofyn iddyn nhw ei ddweud! Bydd angen atgoffa'r myfyrwyr am ganrannau. Cadwch y rhifau'n hawdd (£100) ac eglurwch gyfradd llog y flwyddyn (p.a.) drwy ddweud bod 20% yn £20 am bob un £100. Felly os byddan nhw'n benthyg £100, bydd yn rhaid iddyn nhw dalu £120 yn ôl ar ddiwedd y flwyddyn.

# Gweithgaredd 13: Fy nghar cyntaf

### Cam 2

Dylai'r myfyrwyr fod yn ymwybodol o wir gostau rhedeg car a'r syniad y bydd yn rhaid iddyn nhw gynilo cyn cael digon o arian i dalu'r blaendal a threfnu'u cyllideb i allu gwneud hynny. Cyn dechrau'r gweithgaredd sicrhewch eu bod yn gyfarwydd â geirfa sylfaenol prynu car ond peidiwch eto â thrafod termau ariannol benthyg arian. Bydd angen i'r myfyrwyr wybod ystyr termau tebyg i: myg (milltiroedd y galwyn), MOT (prawf y Weinyddiaeth Drafnidiaeth), treth car, Asiantaeth Trwyddedu Gyrwyr a Cherbydau (DVLA) ac yn y blaen. Efallai y byddwch am eu holi am gostau gwersi dysgu gyrru a'r tâl am sefyll y prawf gyrru.

Dosbarthwch nifer o hysbysebion am geir gan werthwyr ceir lleol a gwerthwyr preifat yn hysbysebion bach cylchgronau a phapurau newydd. Dylai pob grŵp o ddau neu dri ddewis car y mae'n bosibl y gallant ei brynu ymhen ychydig flynyddoedd. Cofiwch eu hatgoffa y bydd yr yswiriant ar gar BMW yn anhygoel o uchel ar gyfer rhywun yr un oed â nhw. Dosbarthwch y daflen 'Gwir gostau rhedeg car' a gofynnwch iddyn nhw weithio mewn grŵp i gasglu'r holl wybodaeth. Dylai pob myfyriwr gofnodi'r wybodaeth am y car y maen nhw wedi'i ddewis.

Os ydy'r myfyrwyr yn deall sut mae defnyddio taenlenni, yna dylent drosglwyddo'u gwybodaeth i daenlen. Os na, yna dylent gwblhau'r daflen. Bydd angen cymorth arnyn nhw i gasglu'r wybodaeth a byddai gallu defnyddio cyfrifiaduron yn gymorth mawr yn hyn o beth. Os nad ydy hyn yn bosibl, ac os nad ydyn nhw'n gallu dod o hyd i'r wybodaeth o ffynonellau eraill, yna rhannwch y wybodaeth er mwyn gwneud yn siŵr bod y ffigurau cywir gan bawb. Cymharwch ffigurau terfynol pob un.

### Cam 3

Dylai'r myfyrwyr werthfawrogi bod dau fath o gostau wrth brynu car: pris y car a'r arian sydd ei angen i redeg y car. Efallai y bydden nhw'n gallu benthyg arian i dalu rhan, neu'r cyfan o bris y car, os oes digon o incwm ganddyn nhw i dalu'r benthyciad yn ôl, ond bydd yn rhaid i'r arian am redeg y car ddod o'r arian maen nhw wedi'i gynilo, neu wrth drefnu'u cyllideb yn fanwl. (Sylwch fod Gweithgaredd 18 yn ymdrin â threfnu cyllideb bersonol.)

Gofynnwch i'r myfyrwyr sut y bydden nhw'n mynd ati i fenthyg £2,000. (Rhaid bod dros 18 oed i gael benthyciad o fanc.) Wedi clywed eu syniadau, trafodwch y dulliau gwahanol o fenthyg arian i brynu car: hurbwrcas; benthyciad o'r banc; gorddrafft o'r banc; cerdyn credyd; benthyg gan aelodau'r teulu neu gyfeillion; cwmnïau ariannu. Dosbarthwch y cardiau prynu car a darllenwch drwyddyn nhw fesul un gan egluro lle bo angen a sicrhau bod pawb yn deall y rhifyddeg sydd i'w ddefnyddio. Trafodwch fanteision ac anfanteision pob un dull o fenthyg. Peidiwch â dweud dim ar hyn o bryd am y dewis gorau na'r rhesymau dros hynny.

Mae'r taliadau llog yno mewn symiau arian a'r cyfraddau llog. Sicrhewch eu bod nhw'n deall mai po uchaf fydd y gyfradd llog (%) y mwyaf drud fydd y benthyciad iddyn nhw. Dylen nhw hefyd sylweddoli nad ydy arian 0% mor rhad ag y mae'n ymddangos. Gall fod angen premiwm yswiriant uchel arno, bydd costau cosbi uchel neu bydd cyfraddau llog uchel yn dechrau pan fo costau'n dechrau.

### Cam 4

Dywedwch wrth y myfyrwyr eu bod yn benthyg £2,000 am gyfnod o flwyddyn. Gofynnwch iddyn nhw ddarllen drwy bob cerdyn yn ofalus a dweud pa gynllun benthyg y bydden nhw'n ei ddefnyddio i brynu'r car. Bydd angen iddyn nhw roi rhesymau dros eu penderfyniad. Yr hyn sy'n bwysig yma ydy gweld mai benthyciad yn syth o'r banc sydd orau (ar ôl aelodau'r teulu neu gyfeillion). Oes benthyciad arall y gallan nhw ei ddefnyddio ar gyfer costau rhedeg y car? Gall y myfyrwyr ddefnyddio'r wefan ganlynol i weld beth ydy gwir gostau rhedeg car <http://www.thisismoney.co.uk/cost-of-your-car-calculator>.

Gall pob myfyriwr gyflwyno'u canlyniadau i weddill y grŵp. Bydd hyn yn cynnwys yr ymarfer 'Gwir gostau rhedeg car', hysbyseb o'r car maen nhw wedi'i ddewis, a'r math o fenthyciad fyddai'n ariannu'r car. Gallwch ofyn iddyn nhw lunio posteri sy'n dangos gwir gostau rhedeg car.

# Gweithgaredd 13: Fy nghar cyntaf

Gwir gostau rhedeg car

## Gwir gostau rhedeg car am flwyddyn

Gwneuthuriad y car ______________________

Model y car ______________________

Maint yr injan ______________________

Cost prynu £ ______________________

Yswiriant £ ______________________

Treth car £ ______________________

MOT £ ______________________

Gwasanaeth ac atgyweirio £ ______________

Parcio £ ______________

Tanwydd £ ______________

Costau eraill £ ______________

Cyfanswm y costau = £ ______________



# Gweithgaredd 13: Fy nghar cyntaf

## Cardiau prynu car 1

Mae'r ffigurau'n cyfeirio at fenthyg £2,000 am un flwyddyn.

### Gorddrafft o'r banc

**MWYAFSWM o £500**

Rhaid talu **£580** yn ôl

16% y flwyddyn



- Benthyg am gyfnod byr yn unig
- Rhaid ei drefnu drwy'r banc
- Bydd y costau'n cynyddu os byddwch yn mynd dros y swm hwn



### Benthyciad o'r banc

**MWYAFSWM o £2,000**

Rhaid talu **£2,160** yn ôl

8% y flwyddyn



- Y cyfnod benthyg yn hirach na gorddrafft
- Rhaid ei drefnu drwy'r banc
- Rhaid talu swm penodol yn ôl bob mis



### Cerdyn Credyd

**MWYAFSWM o £4,000**

Rhaid talu **£2,600** yn ôl

30% y flwyddyn



- Hawdd ei drefnu
- Cewch ddewis talu swm llai yn ôl bob mis
- Yna bydd y cyfnod benthyg yn ymestyn



### Hurbwrcas

**MWYAFSWM o £1,600**

Rhaid talu **£2,000** yn ôl

25% y flwyddyn



- Efallai y bydd angen blaendal
- Efallai y bydd yn rhaid talu yswiriant
- Rhaid cytuno ar gyfnod y benthyciad
- Os byddwch yn methu talu bydd y cwmni'n cymryd y car



# Gweithgaredd 13: Fy nghar cyntaf

## Cardiau prynu car 2

Mae'r ffigurau'n cyfeirio at fenthyg £2,000 am un flwyddyn.

### Gwerthwr Ceir

**MWYAFSWM o £2,000**

Rhaid talu **£2,500** yn ôl

0% am 6 mis

25% y flwyddyn
ar ôl y 6 mis



- Nid chi fydd yn berchen y car nes i chi orffen talu amdano
- Efallai y bydd yn rhaid i chi dalu yswiriant drud
- Bydd cosbau llym
- Mae rhai bargeinion i'w cael



### Benthyg gan aelodau'r teulu neu gyfeillion

**MWYAFSWM o £2,000**

Rhaid talu **£2,000** yn ôl

0% y flwyddyn



- Efallai bydd rhai'n cymryd mantais
- Bydd rhai byth yn talu'n ôl
- Gall hyn achosi chwerwedd



### Cwmnïau Ariannu

**MWYAFSWM o £3,000**

Rhaid talu **£2,500** yn ôl

25% y flwyddyn



- Hawdd ei gael
- Rhaid cytuno ar faint y taliad misol
- Nid chi fydd yn berchen y car nes i chi orffen talu amdano
- Gall fod yn gostus tu hwnt os byddwch yn methu rhai taliadau



### Benthycwyr arian (Loan Sharks)

**MWYAFSWM O £2,000**

Rhaid talu **£2,800** yn ôl

40% y flwyddyn



- Hawdd ei gael
- Rhaid talu'n ôl y swm maen nhw'n ei ddweud bob wythnos
- Gall fod yn gostus tu hwnt os byddwch yn methu rhai taliadau
- Efallai y cewch eich bwlio ganddyn nhw



# Gweithgaredd 14: Byw heddiw, talu fory

## Cefndir

Does dim llawer o bobl ifanc heddiw yn deall y peryglon o ddefnyddio cardiau credyd ac yn meddwl o ble daw'r arian i dalu'r dyledion. Mae'r gweithgaredd hwn yn gofyn iddyn nhw ystyried eu hagweddau nhw tuag at gredyd a dyled, ac yn cyflwyno sefyllfa real i ganolbwyntio arni. Cwis sy'n debyg i'r rhai sydd mewn cylchgronau ydy'r gweithgaredd cyntaf. Mae'r myfyrwyr yn ymateb i ddeg gosodiad fydd yn dangos eu hagweddau tuag at gredyd a dyled. Bydd hyn yn dangos os ydyn nhw mewn perygl o ddod yn gaeth i gardiau credyd ai peidio. Astudiaeth o ferch o'r enw Heulwen sydd mewn dyled ydy'r ail weithgaredd. Mae'r wybodaeth amdani sydd ar y cardiau yn rhoi darlun cyflawn o sut aeth pethau o chwith a sut y gellir osgoi trafferthion ariannol o'r fath.

| Amcanion y dysgu | |
|---|---|
| **Rhaid** | deall y cysyniad o ddyled â cherdyn credyd |
| **Dylent** | allu gwerthfawrogi'r peryglon o ddefnyddio cardiau credyd |
| **Gallent** | wneud penderfyniad gwybodus ynglŷn â gwneud cais am gardiau credyd ac yna'u defnyddio |

| Cysylltiadau â'r cwricwlwm | |
|---|---|
| **ABCh** | Sgiliau<br>• gwneud penderfyniadau a dewisiadau gwybodus yn effeithiol<br>• gwerthuso cyngor ariannol, cymryd cyfrifoldeb personol am waith cynllunio ariannol, a rheoli'u materion ariannol personol yn effeithiol<br>Ystod<br>• deall sut i reoli'u materion ariannol personol yn fedrus<br>• deall eu cyfrifoldebau o safbwynt rheoli cyllideb<br>• deall pwysigrwydd cynllunio ar gyfer eu dyfodol ariannol<br>• deall eu hannibyniaeth gynyddol o safbwynt rheoli'u materion ariannol personol a chael gafael ar gredyd |

| Geiriau allweddol |
|---|
| cerdyn credyd, cerdyn debyd, cerdyn siop |

| Awgrymiadau |
|---|
| Manteisiwch ar y cyfle i sôn am y mannau lleol y gall pobl ifanc gael trafod eu trafferthion ariannol a cymorth os bydd ei angen. |

## Tasgau

### Cam 1

Gofynnwch i'r myfyrwyr os ydyn nhw'n gwybod beth ydy ystyr cerdyn credyd a sut mae'i ddefnyddio. Pa bryd all cerdyn credyd fod yn ddefnyddiol ac yn beth da? Mae nifer o achosion pan mae'n beth da gallu defnyddio cerdyn credyd, e.e. pan fyddwch chi:

- am brofi i rywun arall pwy ydych chi
- am beidio cario arian parod
- am brynu rhywbeth mewn sêl
- am archebu rhywbeth dros y we neu dros y ffôn
- am gael yswiriant yn erbyn rhywbeth all fynd o'i le, e.e. os ydy'ch gwyliau chi'n cael ei ganslo yna gallwch gael eich arian yn ôl.

# Gweithgaredd 14: Byw heddiw, talu fory

Ond gall cardiau credyd hefyd fod yn ddrwg i chi. Efallai na fydd y myfyrwyr yn gwybod bod ffin i'r credyd y gallwch chi ei gael a bod isafswm y mae'n rhaid ei dalu'n ôl bob mis. Dylent fod yn deall bod rhaid i'r arian sy'n cael ei dalu'n ôl ar ddiwedd bob mis ddod o'u hincwm neu o'u cynilion. Pa bryd all cerdyn credyd fod yn beth drwg? Enghreifftiau o hyn fyddai os ydych yn:

- cael eich temtio i orwario (gwario mwy na'ch incwm)
- prynu pethau nad oes rhaid eu cael, megis prydau parod neu esgidiau newydd
- cynyddu eich gwario drwy brynu byrbwyll – 'therapi adwerthu' sef gwario arian er mwyn i chi deimlo'n well
- peidio â thalu'ch dyledion yn syth a gadael i'r ddyled gynyddu o fis i fis.

### Cam 2

Dosbarthwch gopïau o'r cwis Byw Heddiw, Talu Fory. Os ydy lefelau darllen eich myfyrwyr yn ddigonol, gofynnwch iddyn nhw weithio mewn parau i drafod eu hymatebion i bob un gosodiad. Fel arall, darllenwch drwy bob gosodiad ar goedd a gofynnwch iddyn nhw osod tic yn y colofnau cytuno neu anghytuno.

Eglurwch y system sgorio. Maen nhw'n ennill un pwynt am bob tic sydd yn y golofn Cytuno. Gofynnwch iddyn nhw gyfrif sawl pwynt y maen nhw wedi'i ennill.

**0-1** rydych chi'n berson sy'n gyfrifol ag arian ac yn annhebyg o fynd i ddyled
**2-5** mae perygl y byddwch chi'n dod yn gaeth i gredyd a dylech chi feddwl o ddifrif am BEIDIO â gofyn am gerdyn credyd
**6-10** rydych chi'n debygol iawn o fod yn gaeth i wario â phlastig. PEIDIWCH â gofyn am gerdyn credyd.

Trafodwch y trafferthion mae rhai pobl yn eu cael â chardiau credyd neu gardiau siopau. Maen nhw'n gwario arian ac yn mynd i ddyledion mawr. Maen nhw'n defnyddio un cerdyn i dalu'r ddyled ar un arall. Dydyn nhw ddim yn ystyried torri ar eu gwario yn ddigon buan.

### Cam 3

Trefnwch y myfyrwyr mewn grwpiau o bedwar. Ysgrifennwch y cwestiwn allweddol ar y bwrdd - 'Pam fod Heulwen o flaen y llys?' Dosbarthwch set o gardiau i bob grŵp a gofynnwch iddyn nhw ddefnyddio'r dystiolaeth sydd ar y cardiau i ateb y cwestiwn allweddol. Dylen nhw ddosbarthu'r cardiau wyneb i waered nes bod pump neu chwe cherdyn gan bob un. Y dasg ydy dod o hyd i'r ateb i'r cwestiwn drwy rannu'r wybodaeth sydd ar eu cardiau. Un dull o wneud hyn ydy drwy ofyn iddyn nhw gadw'u cardiau iddyn nhw'u hunain ac ond darllen neu ddweud yr hyn sydd ar y cardiau pan fod hynny i'w weld yn berthnasol. Bydd hyn yn golygu bod rhaid i bob un aelod gyfathrebu â gweddill y tîm. Dull arall ydy rhoi cyfle i'r myfyrwyr osod trefn ar eu cardiau a thrafod atebion posibl o fewn eu grwpiau. Mae hi'n bosibl yma i bawb weld pob cerdyn. Gall y trafodaethau ystyried cardiau credyd, isafswm y taliadau, gorddrafftiau, gyrru heb dreth car, benthycwyr stepen drws a chostau llog. Gallwch ddychwelyd at y pynciau hyn mewn trafodaethau â'r dosbarth cyfan.

### Adolygu

Gofynnwch i'r grwpiau gynnig atebion i'r cwestiwn allweddol. Gwthiwch nhw'n bellach i egluro ac i gyfiawnhau eu syniadau.

- Beth oedd camgymeriad mwyaf Heulwen?
- Beth all hi fod wedi'i wneud yn wahanol?
- Beth ddylai hi fod yn ei wneud yn awr?

Cofnodwch y cynigion ar y bwrdd. Gofynnwch i'r dosbarth gynnig cysylltiadau rhwng y ffactorau hyn. Lluniwch dair colofn ar y bwrdd gyda'r penawdau 'Cadw rheolaeth', 'Trafferthion dyled' a 'Cymorth'. Gofynnwch i bob grŵp nodi un peth ar gyfer pob colofn – **un peth** y gallai Heulwen ei wneud i gadw rheolaeth ar ei chyllideb, **un gair** i ddisgrifio problem sy'n deillio o fod mewn dyled ac **un lle** y gallai hi gael cymorth. Caniatewch drafodaeth wrth i'r grwpiau ychwanegu eu cynigion at y rhestri. Os bydd amser yn caniatáu, gall aelodau'r dosbarth osod y rhestri mewn trefn a phenderfynu ar y mater pwysicaf dan bob pennawd.

# Gweithgaredd 14: Byw heddiw, talu fory

Ydych chi mewn perygl o fynd i ddyled? Ydych chi'n ddigon cyfrifol i gael cerdyn credyd?

Rhowch gynnig ar y cwis hwn. Dim ond tic i ddangos os ydych chi'n **cytuno** neu'n **anghytuno** â'r deg gosodiad hyn sydd ei angen.

| | | Anghytuno | Cytuno |
|---|---|---|---|
| 1 | Bydd cerdyn siop yn help i mi brynu mwy o bethau | | |
| 2 | Bydd cerdyn credyd yn creu argraff dda ar fy ffrindiau. Gallaf dalu'n rhwydd am ddiodydd, prydau bwyd ac adloniant | | |
| 3 | Yn aml alla i ddim cofio beth ydw i wedi gwario fy arian arno yn ystod y dydd | | |
| 4 | Bydd cael cerdyn credyd yn help i mi wella fy ffordd o fyw | | |
| 5 | Dw i'n hoffi gallu prynu pethau pan rwy'n teimlo felly | | |
| 6 | Mae hi'n iawn bod mewn dyled drwy wario arian does gennych chi ddim ohono | | |
| 7 | Dw i'n benthyg arian gan fy nheulu a'm ffrindiau ond dydw i ddim bob amser yn ei dalu'n ôl yn syth | | |
| 8 | Does dim rhaid cynilo am rywbeth sydd ei angen arnoch chi | | |
| 9 | Does dim ots os bydd y bil credyd yn cynyddu gan y gallaf ei dalu'n ôl rhywbryd eto | | |
| 10 | Bydd cerdyn credyd yn gwneud i mi deimlo'n well | | |

Nifer y gosodiadau dw i'n cytuno â nhw ydy: __________

# Gweithgaredd 14: Byw heddiw, talu fory

Cardiau Heulwen 1

| | |
|---|---|
| Mae Heulwen wedi gweithio rhan amser am flwyddyn mewn uwchfarchnad. | Mae Heulwen yn 20 oed. Dw i'n 20 |
| Roedd Heulwen wedi gadael y coleg cyn gorffen ei chwrs i gael babi. | Mae pawb yn gwybod bod Heulwen yn fam ragorol. Mae hi'n gwneud gwaith da o ofalu am ei merch. |
| Mae wyth TGAU gan gynnwys A* mewn mathemateg gan Heulwen. | Mae Chelsea, merch Heulwen, yn 3 oed. |
| Mae Heulwen wedi bod yn canlyn Steve ers iddi fod yn 16. Mae Steve yn ddi-waith. | Cafodd Heulwen lythyr gan ei banc yr wythnos ddiwethaf. Mae'r rheolwr am drafod ei gorddrafft. |
| Yn ei harddegau, roedd Heulwen yn rhoi help llaw i gynnal cyfarfodydd yr Urdd. Rhoddodd hi'r gorau i hynny ar ôl cael Chelsea. | Roedd rhieni Heulwen yn poeni ar ôl gwybod ei bod hi'n feichiog. |
| Mae Heulwen am roi'r gorau o bopeth i Chelsea. | Mae gan Heulwen ddau gerdyn credyd ond mae'r ddau wedi cyrraedd eu ffin credyd. £££ |

# Gweithgaredd 14: Byw heddiw, talu fory

## Cardiau Heulwen 2

| | |
|---|---|
| Mae Heulwen wedi colli'r ddau daliad olaf ar ei chardiau credyd. £££ | Mae hi'n Nadolig ymhen tair wythnos. |
| Mae Nain Heulwen yn gwarchod Chelsea pan fydd Heulwen yn mynd allan i weithio. | Cafodd Heulwen fenthyg £100 gan ddyn ar stepen y drws i brynu anrhegion Nadolig. Rhaid iddi hi dalu £15 yr wythnos iddo am yr 20 wythnos nesaf. |
| Mae Heulwen yn gwneud yn siŵr ei bod yn cael noson fawr gyda'i ffrindiau bob penwythnos. | Llynedd cafodd Heulwen ddillad iddi hi, Steve a Chelsea am £300 o gatalog. Dydy hi ddim wedi gallu fforddio'r ad-daliadau. |
| Methodd Heulwen â thalu'r dreth ar ei char ddau fis yn ôl. Mae hi'n gyrru'r car i'r gwaith o hyd. | Mae Claire, ffrind gorau Heulwen, am iddi gael help gyda'i dyledion. £££ |
| Gwahanodd Steve a Heulwen chwe mis yn ôl. | Benthycodd Heulwen arian y llynedd i brynu car er mwyn gallu gyrru i'w gwaith. |

# Gweithgaredd 15: Arwyddwch yma

## Cefndir

Mae'r gweithgaredd hwn yn trafod cytundebau syml a'r nod ydy pwysleisio'r pwysigrwydd o ddarllen y print mân cyn arwyddo. Mae cytundebau a dogfennau cyfreithiol yn gofyn am lefelau uchel o sgiliau darllen. Yma mae ymarfer syml i'r myfyrwyr sy'n tanlinellu'r pwysigrwydd o ddarllen y cyfarwyddiadau cyn cytuno i brynu neu rentu rhywbeth. Mae cymharu dau gytundeb tenantiaeth syml yn berthnasol iawn i fyw yn annibynnol gan fod rhai cytundebau yn annheg i'r tenant.

| Amcanion y dysgu | |
|---|---|
| **Rhaid** | deall y syniad o gytundeb cyfreithiol |
| **Dylent** | ddeall y pwysigrwydd o ddarllen y print mân cyn arwyddo unrhyw gytundeb |
| **Gallent** | wneud penderfyniad gwybodus wrth arwyddo cytundeb |

| Cysylltiadau â'r cwricwlwm | |
|---|---|
| **ABCh** | Sgiliau<br>• gwneud penderfyniadau a dewisiadau gwybodus yn effeithiol<br>• gwerthuso cyngor ariannol, cymryd cyfrifoldeb personol am waith cynllunio ariannol, a rheoli'u materion ariannol personol yn effeithiol<br>Ystod<br>• deall sut i reoli'u materion ariannol personol yn fedrus<br>• deall pwysigrwydd cynllunio ar gyfer eu dyfodol ariannol<br>• deall eu hawliau fel defnyddwyr (e.e. deiliaid) a'u cyfrifoldebau o safbwynt rheoli cyllideb (e.e. costau llety) |

| Awgrymiadau |
|---|
| Defnyddiwch gytundebau ffonau symudol, ceisiadau am fenthyciadau a chynigion mewn llythyrau sothach i gael enghreifftiau o gytundebau cyfoes. |

## Tasgau

### Cam 1

Mae cytundeb rhwng dau berson yn fan cychwyn da. Gall cytundeb fod ar lafar neu'n ysgrifenedig ac weithiau gellir ei orfodi'n gyfreithiol. Gofynnwch i'r myfyrwyr feddwl am y cytundebau maen nhw wedi'u gwneud yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Mae'n debygol y bydden nhw wedi anghofio amdanyn nhw ond ceisiwch eu hatgoffa: cytundebau â rhieni ynglŷn ag ymddwyn/talu arian yn ôl; cytundebau â ffrindiau; cytundebau disgyblion yn yr ysgol; cytundebau â'u tiwtor dosbarth ynglŷn ag ymddwyn/gwneud gwaith cartref; cytundebau â chyflogwyr am waith rhan amser; cytundebau wrth brynu (mae eBay enghraifft dda). Beth sy'n gyffredin rhwng y cytundebau hyn i gyd - mae dwy ochr o leiaf bob tro i unrhyw gytundeb. Mae'n bosibl gorfodi rhai cytundebau â chyfraith ac mae cosbau am beidio â chadw'ch rhan chi o'r cytundeb.

### Cam 2

Mae gan bob cytundeb gymalau mewn print mân ac mae pobl yn aml yn eu diystyru. Gall peidio â darllen y print mân achosi trafferthion iddyn nhw am byth. Dyma enghraifft dda o bwysigrwydd darllen tudalen yn fanwl: rhowch gopi o'r daflen gyfarwyddyd i bob myfyriwr a gofynnwch iddyn nhw ei darllen yn ofalus cyn gwneud dim byd. Bydd rhai myfyrwyr yn gweithredu ar y cyfarwyddyd cyntaf yn syth heb ddarllen drwy'r daflen. Bydden nhw heb weld bod y cyfarwyddyd olaf yn dweud wrthyn nhw am aros yn

# Gweithgaredd 15: Arwyddwch yma

llonydd a phlygu'u breichiau. Trafodwch y pwysigrwydd o ddarllen y 'print mân' bob tro cyn iddyn nhw arwyddo unrhyw gytundeb.

### Cam 3

Mae cytundebau tenantiaeth yn gymhleth iawn. Mae llawer o bobl ifanc yn cael trafferth â'u landlordiaid wrth iddyn nhw rentu fflat am y tro cyntaf oherwydd dydyn nhw ddim yn gwybod eu hawliau eu hunain na hawliau eu landlordiaid. Dosbarthwch y daflen Cytundebau tenantiaeth sy'n cynnwys dwy enghraifft o gytundebau syml. Eglurwch y sefyllfa i'r myfyrwyr a gofynnwch iddyn nhw ddewis y cytundeb sydd orau ganddyn nhw ac egluro pam.

# Gweithgaredd 15: Arwyddwch yma

## Darllenwch y cyfarwyddiadau hyn yn ofalus

Peidiwch â gwneud dim hyd nes eich bod chi wedi darllen y cyfarwyddiadau i gyd.

- Gofynnwch i'r person sydd nesaf atoch chi i ddweud faint o'r gloch ydy hi. Ysgrifennwch yr amser yn y bocs. ☐
- Gofynnwch am eu dyddiad geni. Ysgrifennwch y dyddiad geni yn y bocs. ☐
- Ysgrifennwch eich dyddiad geni chi yn y bocs. ☐
- Beth ydy maint eich esgidiau? Ysgrifennwch y maint hwn yn y bocs. ☐
- Beth ydy maint esgidiau'r person sydd nesaf atoch chi? ☐
- Peidiwch â dilyn unrhyw un o'r cyfarwyddiadau hyn. ☐
- Eisteddwch yn dawel a phlygwch eich breichiau. ☐

## Gweithgaredd 15: Arwyddwch yma

# Cytundebau tenantiaeth

Rydych chi wedi trefnu i rentu fflat efo'ch ffrind.
Mae eich landlord wedi gofyn i chi arwyddo cytundeb.

Pa un o'r ddau gytundeb hyn y byddwch chi'n ei ddewis a pham?

### Fflat A
**Y rhent ydy £500 y mis**

Rydym yn cytuno i'r canlynol:

Byddwn yn talu 6 wythnos o rent ymlaen llaw

Mae'r rhent yn cynnwys gwres a golau

Byddwn yn talu blaendal o rent un mis

Byddwn yn cadw'r fflat yn lân a thaclus
Cewch eich troi allan o'r fflat os byddwch yn methu â gwneud hyn

Byddwn yn rhoi dau fis o rybudd cyn gadael

Mae gwifrau ffôn a'r rhyngrwyd ar gael

Ni chaniateir anifeiliaid anwes yn y fflat

Arwyddwyd
(eich enw)

Arwyddwyd
(Landlord)

### Fflat B
**Y rhent ydy £500 y mis**

Rydym yn cytuno i'r canlynol:

Byddwn yn talu un mis o rent ymlaen llaw

Mae'r rhent yn cynnwys
Treth y Cyngor (**£80** y mis)

Byddwn yn talu blaendal o rent un mis

Mae hawl gan y landlord i archwilio'r fflat o leiaf unwaith y flwyddyn

Byddwn yn rhoi enw gwarantwr fydd yn talu'r rhent os byddwn ni'n methu â gwneud hynny

Mae'r cytundeb hwn am un flwyddyn o leiaf
Neu bydd rhybudd o 3 mis yn ddigon os bydd tenant addas ar gael

Caniateir anifeiliaid anwes yn y fflat gyda chaniatâd y perchennog

Arwyddwyd
(eich enw)

Arwyddwyd
(Landlord)

Arwyddwyd
(Gwarantwr)

# Gweithgaredd 16: Methu credu'n lwc

## Cefndir

Mae'r datblygiadau diweddar yn y rhyngrwyd ac mewn marchnata uniongyrchol yn agor ffyrdd newydd i droseddwyr dwyllo pobl o'u harian. Mae'r twyllwyr hyn yn gweithio ar gynlluniau 'sgam' (fel yn y gyfres 'Hustle' ar y BBC). Craidd cynllun sgam ydy perswadio pobl i roi arian gan addo arian mawr yn ôl iddyn nhw am wneud ond y peth lleiaf oll. Dylai'r myfyrwyr fod yn ymwybodol o'r cynlluniau sgam mwyaf cyffredin sydd ar gael heddiw a'r hyn y dylen nhw'i wneud os byddan nhw'n derbyn neges e-bost neu lythyr gan y twyllwyr.

| Amcanion y dysgu | |
|---|---|
| **Rhaid** | gwybod bod rhai pobl am ddwyn arian gan bobl eraill drwy gynlluniau sgam |
| **Dylent** | wybod am y cynlluniau sgam mwyaf cyffredin sydd ar gael heddiw |
| **Gallent** | ddeall yr hyn sydd i'w wneud i osgoi cael eu dal gan gynllun sgam |

| Cysylltiadau â'r cwricwlwm | |
|---|---|
| **ABCh** | Sgiliau<br>• defnyddio TGCh mewn modd diogel a chyfrifol, gan ddilyn arferion diogel<br>• gwneud penderfyniadau a dewisiadau gwybodus yn effeithiol<br>• bod yn bendant ac ymwrthod â phwysau diangen gan gyfoedion<br>Ystod<br>• deall canlyniadau economaidd a moesegol y penderfyniadau ariannol personol y maent yn eu gwneud fel defnyddwyr<br>• deall sut i reoli'u materion ariannol personol yn fedrus |

| Geiriau allweddol |
|---|
| cynlluniau sgam, loteri |

| Awgrymiadau |
|---|
| Defnyddiwch ran o fideo 'The Real Hustle' neu 'Watchdog' sydd ar www.bbc.co.uk/programmes i weld gwir effaith cynlluniau sgam ar y rhai sy'n cael eu twyllo. |

## Tasgau

### Cam 1

Gofynnwch i'r myfyrwyr os ydyn nhw'n deall beth ydy cael eu twyllo drwy gynllun sgam. Defnyddiwch ran o'r rhaglen 'The Real Hustle' neu gyfeiriad arall fydd yn berthnasol i'ch myfyrwyr chi. Eglurwch fod triciau o'r fath yn waith troseddwyr sydd am i ni roi arian iddyn nhw a chael dim yn ôl ganddyn nhw. Dyma beth ydy lladrad heb drais. Gofynnwch a ydyn nhw'n adnabod unrhyw un sydd wedi cael ei ddal fel hyn ac a allen nhw ddisgrifio'r sgam. Gofynnwch iddyn nhw sut mae'r person sydd wedi colli arian fel hyn yn teimlo.

### Cam 2

Dosbarthwch setiau o'r Cardiau Sgam fel bod un set i bob grŵp o dri myfyriwr. Eglurwch mai'r dasg ydy darllen drwy'r cardiau a thrafod y ddau gwestiwn:

- *Beth ydy'r sgam?*
- *Beth allen nhw ei wneud i osgoi'r sgam?*

# Gweithgaredd 16: Methu credu'n lwc

Dylen nhw gofnodi eu hatebion i'r ddau gwestiwn er mwyn gallu adrodd yn ôl i weddill y dosbarth. Os bydd anhawster gan eich myfyrwyr ag iaith y cardiau, gallwch ddarllen drwyddyn nhw fesul un a thrafod y ddau gwestiwn â'r dosbarth cyfan.

Ystyriwch y cardiau fesul un a gofynnwch i un grŵp am eu hatebion. Gofynnwch a ydy'r grwpiau eraill yn cytuno â'r grŵp hwn ac a oes ganddyn nhw ragor o sylwadau i'w gwneud. Defnyddiwch y syniadau sydd ar y cardiau Sylwadau Athrawon wrth i chi ymateb i sylwadau'r myfyrwyr.

# Gweithgaredd 16: Methu credu'n lwc

Cardiau sgam

## A: E-bost

PWNC: Neges frys!

O: rheolwr@bancgonest.co.uk

Rhaid anfon manylion eich cyfrif ar frys.

## B: Apêl e-bost

PWNC: Wnewch chi fy helpu?

O: gari@garigonest.co.uk

Mae angen eich help arna i!
Anfonwch fanylion eich banc ataf.
Gallaf dalu **£100,000** i'ch cyfrif chi.
Byddaf yn talu **£5,000** i chi.

## C: Gwyliau




## Ch: Gwaith

Ydych chi am ennill **£1,000** pob wythnos? Anfonwch eich CV a **£25** i'r cyfeiriad hwn.

Cewch lawer o arian wrth weithio ...

## D: Ffôn



Rydych chi wedi ennill gwobr!
Efallai car neu wyliau.
Ffoniwch 0800 777777
i gael eich gwobr.

## Dd: Gwobr



LLONGYFARCHIADAU!

Rydych chi wedi ennill gwobr o **£200**.
I dderbyn y siec rhaid i chi archebu gwerth **£20** o nwyddau. Edrychwch drwy'n catalog ni.

## E: Betio




## F: Rhifau loteri

Anfonwch **£25**
atom ni ac fe gewch
ein rhestr rhifau.

Efallai mai chi fydd yn lwcus!



# Gweithgaredd 16: Methu credu'n lwc

Sylwadau athrawon

## A: E-bost

Dylech ddileu y neges cyn ei hagor. Dydy banciau byth yn cysylltu fel hyn â'u cwsmeriaid. Sgam i gael manylion banc ydy hyn er mwyn gallu tynnu'r holl arian o'ch cyfrif.

## B: Apêl e-bost

Mae'r negeseuon 'spam' fel hyn yn honni eu bod yn dod o Affrica neu'r Dwyrain Canol. Maen nhw'n cynnig arian mawr am roi cymorth i rywun sydd am gael gafael ar eu ffortiwn dyledus. Yr hyn sydd wir eu hangen arnyn nhw ydy'r manylion banc er mwyn tynnu'r holl arian ohono. Dylech ddileu'r neges heb ei hagor.

## C: Gwyliau

Ydy mae'r gwyliau ar gael, ond bydd costau i'w talu. Bydd rhaid talu am gyrraedd y maes awyr neu'r porthladd ac am yr hedfan a'r cludiant. Bydd y print mân yn dweud bod rhaid talu am eich bwyd a'ch diod i gyd. Byddwch yn wyliadwrus o glywed eich bod chi wedi ennill unrhyw gystadleuaeth os nad ydych chi wedi cystadlu ynddi. Y bin ydy'r lle gorau i lythyr o'r fath.

## Ch: Gwaith

Mae hysbysebion fel hyn yn tynnu sylw pobl sy'n awyddus iawn i gael swydd. Sgam i dwyllo pobl i roi £25 yn y post ydy nifer ohonyn nhw. Y cyngor gorau ydy i'w hanwybyddu nhw'n llwyr.

## D: Ffôn

Mae sgam fel hwn yn gwneud arian o linellau ffôn drud. Byddwch yn ffonio i gael eich gwobr fydd yn rhywbeth digon diwerth. Cewch eich cadw ar y ffôn gan glywed dewislen ddi-ben-draw a bydd cost yr alwad yn fwy na gwerth y wobr. Peidiwch â ffonio neu cewch fil ffôn mawr.

## Dd: Gwobr

Dyma sgam y catalog amheus. Cewch gynnig siec ganddyn nhw ond rhaid i chi brynu rhywbeth cymharol ddrud o gatalog amheus. Rhaid archebu'r nwydd a thalu amdano o fewn deg diwrnod. Fydd y wobr byth yn eich cyrraedd. Rhowch y cynnig yn y bin yn syth.

## E. Betio

Bydd sgam fel hwn yn dweud y byddwch yn siŵr o ennill a dydy hynny byth yn wir. Mae ambell un yn dweud bod ganddyn nhw system berffaith a manylion cyfrinachol am y ceffylau. Peidiwch â chael eich twyllo – does dim y fath beth â bod yn siŵr o ennill wrth gamblo.

## F. Rhifau loteri

Mae rhai pobl yn credu yn y sêr felly bydd y sgam yn egluro sut maen nhw'n rhagweld y rhifau lwcus. Mae nifer yn gofyn am rifau ffôn er mwyn gallu erlid pobl eto fyth am ragor o arian. Mae rhai yn bygwth hen bobl ac yn sôn am bethau milain all ddigwydd iddyn nhw. Y bin ydy'r lle gorau i'r cynnig hwn.

# Gweithgaredd 17: Ydy hi'n werth mentro?

## Cefndir

Bwriad y gweithgaredd hwn ydy helpu pobl ifanc i ddeall y risgiau mwyaf cyffredin sydd mewn bywyd a sut y gall yswiriant fod yn gymorth i bobl warchod eu hunain rhagddyn nhw. Mae yswiriant yn bwnc dyrys iawn i'r rhan fwyaf o bobl ifanc. Mae'n llawn jargon a chymhlethdodau a dydy yswiriant ddim i'w weld yn bwnc sy'n berthnasol iddyn nhw. Gellir lleihau risgiau drwy gymryd gofal ond gallwch hefyd warchod eich hunan rhag digwyddiad annisgwyl. Wedi egluro natur y risg gallwch gysylltu'r math o risg â'r math o yswiriant all fod yn eich gwarchod.  Ar ddiwedd y gweithgaredd mae astudiaethau achos o ferch 18 oed sydd mewn coleg ac sydd am fyw'n annibynnol ac o ddyn teulu yn ei ugeiniau cynnar. Sut fathau o risgiau sy'n eu hwynebu? Pa fath o yswiriant y dylen nhw ei gael?

Gweler gwefan yr FSA am adnoddau a gweithgareddau ar risg ac yswiriant:
www.moneymadeclear.fsa.gov.uk/home.html.
Gweler hefyd www.abi.org.uk am ddisgrifiad syml o yswiriant a rhai ffeithiau a ffigurau defnyddiol.

| Amcanion y dysgu | |
|---|---|
| **Rhaid** | gwybod bod mathau gwahanol o risgiau yn effeithio ar bobl |
| **Dylent** | wybod bod mathau gwahanol o yswiriant ar gael i warchod pobl rhag colledion |
| **Gallent** | enwi'r math o yswiriant fyddai'n gwarchod rhag colled benodol |

| Cysylltiadau â'r cwricwlwm | |
|---|---|
| **ABCh** | Sgiliau<br>• gwneud penderfyniadau a dewisiadau gwybodus yn effeithiol<br>• datblygu sgiliau ymarferol sy'n angenrheidiol ar gyfer bywyd bob dydd<br>• gwerthuso cyngor ariannol, cymryd cyfrifoldeb personol am waith cynllunio ariannol, a rheoli'u materion ariannol personol yn effeithiol<br>Ystod<br>• deall sut i reoli'u materion ariannol personol yn fedrus<br>• deall pwysigrwydd cynllunio ar gyfer eu dyfodol ariannol |

| Geiriau allweddol |
|---|
| cais, cymal eithrio, disgownt dim hawlio, polisi, premiwm, taliad atodol, yswiriant adeiladau, yswiriant bywyd, yswiriant car, yswiriant cynnwys, yswiriant teithio |

| Awgrymiadau |
|---|
| Edrychwch ar daflenni yswiriant, e.e. rhai ffonau symudol i weld os ydyn nhw'n hawdd eu deall. |

# Gweithgaredd 17: Ydy hi'n werth mentro?

## Tasgau



### Cam 1
Gofynnwch i'r myfyrwyr os allen nhw enwi rhai o'r risgiau sy'n wynebu pobl yn eu bywyd pob dydd. Eglurwch bod rhai risgiau yn golygu bydd pobl yn colli arian neu'n gorfod talu arian i rywun arall. Er mwyn gwarchod eu hunain rhag y colledion hyn mae hi'n bosibl codi yswiriant. Gofynnwch i'r myfyrwyr weithio mewn parau. Rhowch y cardiau risg a'r cardiau yswiriant iddyn nhw a gofynnwch iddyn nhw osod y cerdyn yswiriant perthnasol nesaf at bob un cerdyn risg. Dylai hyn eu helpu i ddeall bod nifer o fathau o risgiau i'w cael a bod mathau arbennig o yswiriant ar gyfer pob un.

### Cam 2
Efallai y byddwch chi am gyflwyno peth o jargon yswiriant i'ch myfyrwyr. Gallan nhw geisio gosod y cardiau Clirio'r Jargon yn ôl yn eu parau.

### Cam 3
Dosbarthwch gopïau o'r astudiaethau achos a gofynnwch i'r myfyrwyr enwi'r risgiau sy'n wynebu'r ddau berson (a'u teuluoedd) a'r math o yswiriant fydd yn gallu'u gwarchod rhag y risgiau hynny.

# Gweithgaredd 17: Ydy hi'n werth mentro?

## Cardiau yswiriant a chardiau risg

| | |
|---|---|
| Yswiriant bywyd  | Mae pobl yn marw ac yn gadael dyledion ar eu hôl. |
|  Yswiriant car | Mae eich car mewn damwain neu wedi'i ddwyn. |
|  Yswiriant adeiladau | Mae tân yn eich tŷ chi. |
| Yswiriant cynnwys  | Mae lleidr yn dwyn eich eiddo chi. |
|  Yswiriant ffôn symudol | Rydych chi wedi gollwng eich ffôn i lawr y toiled. |
|  Yswiriant teithio | Rydych chi'n sâl ar eich gwyliau. |
|  Yswiriant anifeiliaid anwes | Mae'ch ci chi'n wael ac mae angen sylw milfeddyg arno. |

# Gweithgaredd 17: Ydy hi'n werth mentro?

## Cardiau clirio'r jargon

| | |
|---|---|
| Cymal eithrio | Rhestr o'r pethau sydd heb eu hamddiffyn gan yr yswiriant. |
| Disgownt dim hawlio | Byddwch yn talu llai o beidio gwneud cais am flwyddyn. |
| Ffurflen gais | Ffurflen i'w llenwi cyn derbyn arian gan y cwmni. |
| Gwarant yswiriant | Y pethau y cewch chi eich yswirio rhagddyn nhw. |
| Polisi | Manylion yr hyn sydd wedi'i yswirio a'r gost. |
| Premiwm | Yr arian sydd i'w dalu i'ch yswiriwr pob blwyddyn. |
| Taflen fanylion | Rhestr o'r hyn sydd wedi'i yswirio gan y polisi. |
| Taliad atodol | Yr arian sydd i'w dalu gennych chi cyn i'ch yswiriwr dalu'r gweddill. |

# Gweithgaredd 17: Ydy hi'n werth mentro?

Astudiaethau achos

## ASTUDIAETHAU ACHOS

**Darllenwch am y ddau berson hyn a cheisiwch ateb:**

- **Pa risgiau sydd yn eu hwynebu?**
- **Pa fath o yswiriant ddylen nhw'i gael?**

### Seren

Mae Seren yn 18 mlwydd oed ac mae hi ar fin gadael cartref a rhentu fflat gydag un o'i ffrindiau.

Mae ganddi swydd dda ond does dim llawer o arian yn weddill ganddi hi.

Hoffai Seren brynu car bach.

Roedd ei system sain yn un ddrud iawn.

Bydd hi'n mynd i ŵyl gerddorol yn Sbaen ymhen rhai misoedd.



### Winston

Mae Winston yn 21 mlwydd oed ac wedi priodi.

Mae ganddo swydd dda sy'n talu'n dda.

Mae ganddyn nhw un plentyn ac mae un arall ar gyrraedd.

Maen nhw'n berchen ar eu tŷ ac yn talu morgais arno.

Mae Winston yn gyrru car ond cafodd ddamwain rai blynyddoedd yn ôl.

Mae ei blentyn yn cadw cwningen.



# Gweithgaredd 18: Help!

## Cefndir

Yn y gweithgaredd hwn mae astudiaethau achos am ddau berson ifanc dan 22 mlwydd oed sy'n wynebu dyledion cynyddol. Dyfeisiwyd yr astudiaethau achos hyn fel y gall pobl ifanc uniaethu â nhw a chynnig cyngor defnyddiol iddyn nhw ar ôl dilyn yr ymarferion dechreuol. Bydd disgwyl bod y myfyrwyr yn hyddysg mewn rhai o'r termau ariannol, dulliau cyllido syml a gwybod am yr hyn y gall asiantaethau cynnal eu gwneud i gynorthwyo pobl gael gwared ar eu dyledion. Bydd rhai o'r myfyrwyr yn gyfarwydd â phroblem ddyled o fewn eu teuluoedd hwythau felly dylai athrawon fod yn ymwybodol o agweddau'r gymdeithas tuag at dderbyn credyd a benthyciadau â llog cyn cyflwyno'r testun hwn. Does dim trafodaeth ar y gyfradd ganrannol flynyddol (APR) yma ond gall athrawon ei gyflwyno pan fydd hynny'n briodol. Prin ydy'r defnydd yma o jargon a thermau mathemateg ond mae deall egwyddorion 'llog' a 'talu'n ôl fwy na'r benthyciad' yn greiddiol i ddeall dyled a'r problemau ddaw yn ei sgil.

Mae gwybodaeth gefndir fydd yn ddefnyddiol i athrawon yn y gwefannau hyn:

Llinell gymorth ffôn ydy'r National Debtline ond mae taflenni gwybodaeth ac arweiniad ar sut mae dod i'r afael â mathau gwahanol o ddyledion ar eu gwefan www.nationaldebtline.co.uk/.
Chwiliwch dan 'debt' ar wefan y Ganolfan Gynghori: www.citizensadvice.org.uk/ am ragor o gyngor.
Mae ClearStart yn sefydliad sy'n cynnig cymorth am ddim i bobl sydd â phroblemau dyled dyrys: www.clearstart.org/.

| Amcanion y dysgu | |
|---|---|
| **Rhaid** | deall sut mae rhai pobl yn mynd i ddyled |
| **Dylent** | wybod bod sawl dewis gan bobl sy'n wynebu dyledion |
| **Gallent** | wneud penderfyniadau gwybodus wrth wynebu mynd i ddyled |

| Cysylltiadau â'r cwricwlwm | |
|---|---|
| **ABCh** | Sgiliau<br>• gwerthuso cyngor ariannol, cymryd cyfrifoldeb personol am waith cynllunio ariannol, a rheoli'u materion ariannol personol yn effeithiol<br>Ystod<br>• deall pwysigrwydd cynllunio ar gyfer eu dyfodol ariannol, a sut i gael gafael ar gyngor ariannol<br>• deall eu hannibyniaeth gynyddol o safbwynt rheoli'u materion ariannol personol a chael gafael ar gredyd<br>• deall y ffactorau sy'n effeithio ar iechyd meddwl a'r ffyrdd y gellir meithrin lles emosiynol<br>• deall y manteision o gael mynediad i wahanol ffynonellau o wybodaeth, cymorth a chyngor |

| Geiriau allweddol |
|---|
| cyfuno dyledion, dyled |

| Awgrymiadau |
|---|
| Dangoswch rannau o'r ffilm fideo Spendaholics neu Bank of Mum and Dad o wefan y BBC: www.bbc.co.uk sy'n dangos pa mor rhwydd ydy hi i fynd i ddyled. |

# Gweithgaredd 18: Help!

## Tasgau

### Cam 1

Gan mai hwn ydy'r gweithgaredd olaf yn y pecyn dylai'r myfyrwyr fod yn gwybod am fanylion ariannu personol a chynllunio cyllideb. Mae penderfyniadau anodd yn wynebu pobl sydd mewn dyled ddirfawr. Trafodwch y ffyrdd ymlaen iddyn nhw gyda'r myfyrwyr er mwyn cael eu barn nhw ar y problemau. Efallai na fydd iaith ddigonol gan y myfyrwyr ond ceisiwch eu cyfeirio tuag at y canlynol:

- llunio cyllideb er mwyn iddyn nhw wybod faint sydd ganddyn nhw i'w wario bob wythnos
- lleihau gwariant
- newid eu patrwm gwario
- cael gwared ar eu cardiau credyd
- chwilio am swydd neu chwilio am swydd wahanol sy'n talu'n well
- trafod â'u credydwyr – tybed oes modd talu llai dros gyfnod hirach
- gosod eu dyledion mewn trefn a thalu'r rhai pwysicaf yn gyntaf
- cyfuno eu dyledion i un benthyciad.

Mae darnau da o ffilmiau fideo sy'n trafod mynd i ddyled ar www.bbc.co.uk/learningzone/clips/ (chwiliwch am 'debts').

### Cam 2

Ar y daflen Astudiaethau achos mae hanes dau berson ifanc sydd wedi mynd i ddyled. Gofynnwch i'r myfyrwyr, mewn grwpiau o ddau neu dri, geisio penderfynu beth all y ddau hyn ei wneud i glirio'u dyledion. Dylai'r grwpiau feddwl am dri neu bedwar syniad ar gyfer y ddau berson.

### Cam 3

Efallai y bydd rhai myfyrwyr am edrych ar ambell i wefan sy'n cynnig cyngor i bobl sydd mewn dyled i gael rhagor o syniadau. Yna gallwch chi ofyn i'r rhain weithio drwy'r tasgau ar y daflen Asiantaethau cynnal.

### Cam 4

Mae'r rhan fwyaf o'r achosion a ddaw ger bron y Ganolfan Gynghori yn drafferthion sy'n deillio o fod mewn dyled. Mae hyn yn gyfle i chi wahodd y cynghorwr sy'n arbenigo ar drafferthion ariannol i'r ysgol i drafod rhai o'r rhesymau pam mae pobl yn mynd i ddyled gyda'ch myfyrwyr. Dylai'r myfyrwyr fod wedi paratoi rhestr o gwestiynau ymlaen llaw.

# Gweithgaredd 18: Help!

## Astudiaethau achos

Astudiaeth achos 1

### Mati

Mae Mati yn fam ddi-briod 19 oed

Mae ganddi ferch sy'n 2 flwydd oed

Dydy hi ddim yn byw gyda thad ei merch

Mae ganddi swydd ran amser yn yr uwchfarchnad leol

Mae ei mam yn byw mewn tŷ gerllaw

Mae ei mam yn gwarchod ei merch pan mae Mati'n gweithio

Mae cardiau credyd a chardiau siop ganddi a bydd hi'n prynu o gatalog

Rhoddodd y gorau i weithio am naw mis pan gafodd ei merch ei geni

Mae ganddi ddyledion o **£2,000** ar ei chardiau siop a **£4,000** ar ei chardiau credyd

Mae ganddi orddrafft o **£2,000** yn ei banc

Cyfanswm ei dyledion ar hyn o bryd ydy **£8,000**



Astudiaeth achos 2

### John

Mae John yn 18 oed ac mae'n fyfyriwr mewn coleg

Cafodd fenthyg **£2,000** gan ei rieni i brynu car

Mae ganddo swydd ran amser sy'n talu **£80** yr wythnos

Mae'n hoff o chwaraeon ac mae ganddo gerdyn siop chwaraeon – a dyled o **£150** arno


Mae llawer o ffrindiau ganddo a bydd yn mynd allan gyda nhw'n aml

Mae'n defnyddio ei dri cherdyn credyd i brynu pethau i'w gariad

Mae wedi benthyg arian gan ei deulu i brynu llyfrau a deunyddiau ar gyfer ei gwrs coleg

Mae'n hoff o gamblo a bydd yn gwario **£40** y mis ar fetio

Cyfanswn ei ddyledion ar hyn o bryd ydy **£3,500**



# Gweithgaredd 18: Help!

## Asiantaethau cynnal



**Edrychwch ar y gwefannau hyn. Sut allen nhw helpu pobl sydd mewn dyled?**

**Atebwch y cwestiynau**

**1) Directgov: http://www.direct.gov.uk**

**Chwiliwch:** Arian, treth a budd-daliadau
Rheoli dyled
Mynd i'r afael â phroblem dyled - arweiniad

**Cwestiwn 1:**
Pa gyngor gewch chi ar y wefan i dalu eich dyledion?

..........................................................................................

**2) National Debtline: http://www.nationaldebtline.co.uk/**

**Cwestiwn 2:**
Beth mae'r asiantaeth hon yn ei wneud?

..........................................................................................

**3) Canolfan Gynghori: http://www.citizensadvice.org.uk/**

Chwiliwch am eich Canolfan Gynghori leol.

**Cwestiwn 3:**
Ysgrifennwch gyfeiriad y Ganolfan Gynghori sydd agosaf at eich cartref chi.

..........................................................................................

**4) Undebau Credyd: http://www.abcul.org/page/index.cfm**

**Cwestiwn 4:**
Beth ydy Undebau Credyd?

..........................................................................................

**5) ClearStart: http://www.clearstart.org/**

**Cwestiwn 5:**
Beth ydy'r rhif ffôn ar gyfer cyngor am ddim?

..........................................................................................

Pa wasanaethau maen nhw'n eu cynnig?

..........................................................................................

# Rhestr termau

Yn y rhestr hon mae diffiniadau syml o'r termau a ddefnyddir yn y gweithgareddau. Mae hi'n rhestr i athrawon gyfeirio ati. Gellir copïo'r termau a'r diffiniadau ar gardiau a'u defnyddio mewn parau fel ymarfer i wella geirfa a sillafu cyn dechrau ar y gweithgareddau.

| Termau Gallu Ariannol | Diffiniadau ar gyfer Gweithgaredd 1 |
|---|---|
| cronfa barod | arian sy'n cael ei ddefnyddio i roi newid |
| cwsmer | rhywun sy'n prynu rhywbeth gan fusnes |
| defnyddiwr | rhywun sy'n prynu nwydd neu wasanaeth |
| newid | yr arian sy'n cael ei roi yn ôl wedi prynu rhywbeth |

| Termau Gallu Ariannol | Diffiniadau ar gyfer Gweithgaredd 2 |
|---|---|
| adborth | sylwadau am y gwerthwyr ar eBay |
| amgryptiad | cod sy'n gwneud geiriau'n amhosibl i'w darllen |
| archeb bost | dull o anfon arian drwy'r post |
| ar-lein | defnyddio'r rhyngrwyd |
| arwerthiant | mae pobl yn rhoi cynnig i brynu nwydd |
| Canolfan Gynghori | mae'r Ganolfan yn cynnig gwybodaeth a chyngor am ddim |
| cerdyn credyd | cerdyn plastig a gewch gan y banc sy'n golygu y cewch fenthyg arian yn syth i brynu pethau |
| cerdyn debyd | cerdyn plastig a gewch gan y banc er mwyn i chi brynu pethau o siop |
| cynnyrch | rhywbeth sydd wedi'i wneud er mwyn ei werthu |
| defnyddiwr | rhywun sy'n prynu nwydd neu wasanaeth |
| dull talu | sut y gallwch dalu – arian parod, siec, cerdyn credyd, cerdyn debyd, cerdyn siop |
| gwarantwr | rhywun sy'n cytuno talu eich benthyciad neu'ch rhent os methwch chi ei dalu |
| gwasanaethau | gwaith mae un person neu grŵp yn ei wneud ar gyfer eraill |
| gwefan ddiogel | gwefan ddiogel i brynu nwyddau |
| gwefannau cymharu prisiau | gwefannau sy'n helpu pobl i gael nwyddau ar brisiau is |
| nwydd | rhywbeth sydd ar werth |
| PayPal | dull talu diogel ar eBay |
| Safonau Masnachu | mae'n dweud wrth ddefnyddwyr am eu hawliau |
| sgam | tric i'ch twyllo chi a chael eich arian |
| siec bersonol | mae'n dweud wrth eich banc neu'ch cymdeithas adeiladu i dalu rhywun |
| yswiriant | polisi sy'n eich amddiffyn rhag risg |

| Termau Gallu Ariannol | Diffiniadau ar gyfer Gweithgaredd 3 |
|---|---|
| cyllideb | y swm o arian sydd gennych i'w wario |
| diddodrefn | fflat heb ddodrefn ynddo |
| dimensiynau | maint ystafell neu solid (hyd, lled, uchder) |
| disgownt | lleihad yn y pris arferol |
| wedi'i ddodrefnu | fflat â dodrefn ynddo |

| Termau Gallu Ariannol | Diffiniadau ar gyfer Gweithgaredd 4 |
|---|---|
| bargen orau | nwyddau ar brisiau is a rhatach |
| bwyd bargen orau | bwyd ar brisiau is a rhatach |
| cyllideb | mae'n dangos eich cynllun gwario |
| gwerth gorau | nwyddau ar brisiau is a rhatach |
| maeth | bwyta'n iach |
| pris bargen orau | pris bwyd sydd ar brisiau is a rhatach |
| prynu byrbwyll | nwyddau rydych yn eu gweld ac felly am eu prynu |

| Termau Gallu Ariannol | Diffiniadau ar gyfer Gweithgaredd 5 |
|---|---|
| costau | eitemau sydd wedi'u prynu |
| cyllideb | yr arian sydd gennych i dalu'ch treuliau |
| cynilion | arian sydd heb ei wario |
| gwario | defnyddio arian i brynu nwyddau a gwasanaethau |
| incwm | yr holl arian gewch chi |
| treuliau | gwario rheolaidd |

| Termau Gallu Ariannol | Diffiniadau ar gyfer Gweithgaredd 6 |
|---|---|
| amgylchedd | y byd o'n cwmpas |
| boicot | pan mae pobl yn gwrthod prynu o siop neu'n gwrthod prynu nwydd arbennig |
| cynaliadwy | allwn ni gynhyrchu hwn heb niweidio'r blaned ar gyfer ein plant? |
| defnyddiwr moesegol | person sy'n ystyried – sut gafodd ei wneud? sut fydd hyn yn effeithio'r amgylchedd? – cyn prynu |
| masnach deg | sicrhau bod ffermwyr mewn gwledydd tlawd yn derbyn prisiau teg |
| milltiroedd bwyd | y pellter mae bwyd yn ei deithio cyn cyrraedd ein siopau |

| Termau Gallu Ariannol | Diffiniadau ar gyfer Gweithgaredd 7 |
|---|---|
| anghenion | yr hyn sydd ei angen ar bobl i fyw – bwyd, dillad a chysgod |
| brand | enw cyfarwydd am nwydd arbennig (megis Nokia) |
| cyfryngau | radio, teledu, papurau newydd, cylchgronau, rhyngrwyd, ac yn y blaen |
| cynnyrch | rhywbeth sydd wedi'i wneud er mwyn ei werthu |
| defnyddwyr | pobl sy'n prynu nwyddau neu wasanaethau |
| delwedd | sut mae rhywbeth yn edrych |
| dulliau o fyw | y gwahanol ffyrdd mae pobl yn byw eu bywydau |
| gosodiad cynnyrch | gosod cynnyrch mewn rhaglen deledu |
| gosodiad tudalen | sut mae testun a lluniau wedi'u gosod ar dudalen |
| grŵp targed | y math o bobl mae hysbysebwyr yn anelu eu hysbysebion atyn nhw – pobl yn eu harddegau, dynion, henoed |
| gwasanaethau | gwaith mae un person neu grŵp yn ei wneud ar gyfer eraill |
| 'hoffwn i gael' | yr hyn yr hoffai pobl eu cael |
| hysbysebu | gwerthu nwyddau drwy gyfrwng neges |
| incwm | yr arian mae pobl yn ei dderbyn |
| incwm gwario | yr arian sydd dros ben i'w wario ar ôl talu trethi |
| marchnata | hysbysebu a hyrwyddo gwerthiant nwyddau neu wasanaethau |
| nawdd | cwmnïau yn rhoi arian ar gyfer chwaraeon, e.e. Barclays Premiership |
| neges | yr hyn mae'r hysbysebwyr am i chi feddwl am eu cynnyrch |
| nwyddau | pethau sydd wedi'u gwneud i'w gwerthu |

| Termau Gallu Ariannol | Gweithgaredd 8 – gweler y cardiau yn adnoddau'r myfyrwyr |
|---|---|

| Termau Gallu Ariannol | Diffiniadau ar gyfer Gweithgaredd 9 |
|---|---|
| budd-daliadau | yr arian mae'r wladwriaeth yn ei roi i bobl |
| canolfan gwaith | swyddfa leol lle mae pobl yn chwilio am swyddi |
| cymhorthdal incwm | budd-dal y wladwriaeth sy'n cael ei ychwanegu at incwm pobl |
| hawl | yr arian mae'n rhaid i bobl ofyn amdano |
| incwm | yr arian mae pobl yn ei dderbyn |
| tlodi | mae pobl yn ei chael hi'n anodd byw ar incwm isel |

| Termau Gallu Ariannol | Diffiniadau ar gyfer Gweithgaredd 10 |
|---|---|
| anghyfreithlon | yn erbyn y gyfraith |
| cyfreithiol | caniateir gan y gyfraith |
| iechyd a diogelwch | peryglon sy'n gysylltiedig â swyddi gwahanol |
| yswiriant | polisi sy'n eich amddiffyn rhag risg |

| Termau Gallu Ariannol | Diffiniadau ar gyfer Gweithgaredd 11 |
|---|---|
| ar hap | bod yr un siawns gan bob rhif o ennill |
| arian betio | y swm o arian rydych yn ei fetio |
| cymhareb | fel 'ods' mewn gamblo – perthynas rhwng dau rif |
| gamblo | chwarae gemau siawns am arian neu enillion eraill |
| ods | 3 i 1; 5 i 1 – mae'n dweud faint o arian gewch chi'n ôl ar fet |
| ods 3 i 1 | ennill £3 am fet o £1 (cael £4 yn ôl) |
| siawns deg | betio £1 i ennill £1 (cael £2 yn ôl) |
| tebygolrwydd | y siawns y bydd rhywbeth yn digwydd (1 o 4 er enghraifft) |
| tships | cownteri sy'n cael eu defnyddio yn lle arian mewn casinos |

| Termau Gallu Ariannol | Diffiniadau ar gyfer Gweithgaredd 12 |
|---|---|
| arian annisgwyl | cael swm o arian annisgwyl |
| Bondiau Premiwm | dull o gynilo ac ennill arian |
| bonws | tâl ychwanegol gan gyflogwr |
| gorddrafft | trefniant â'r banc i chi wario mwy o arian nag sydd yn eich cyfrif |

| Termau Gallu Ariannol | Diffiniadau ar gyfer Gweithgaredd 13 |
|---|---|
| 8% y flwyddyn | enghraifft – am bob £1 wedi'i fenthyg rhaid talu £1.08 yn ôl |
| benthyciad banc | pan mae banciau yn benthyg arian i chi brynu rhywbeth costus |
| benthyciwr arian | person sy'n rhoi benthyg arian ar log uchel iawn |
| blaendal | yr arian mae disgwyl i chi ei dalu i sicrhau eich bod yn cael rhywbeth |
| cerdyn credyd | cerdyn plastig a gewch gan y banc sy'n golygu y cewch fenthyg arian yn syth i brynu pethau |
| costau rhedeg | faint mae'n ei gostio i ddefnyddio'ch car |
| credyd | taliad i'ch cyfrif banc |
| cwmni cyllido | cwmni sy'n fodlon benthyg arian i chi |
| cyfradd llog | fel canran (%). 8% = 8 o bob 100 |
| cyllid | swm mawr o arian sydd ei angen arnoch i brynu rhywbeth |
| cyllideb | mae'n dangos eich cynllun gwario |
| debyd | taliad o'ch cyfrif banc |
| disgownt | lleihad yn y pris arferol |
| dull talu | yr holl ffyrdd sydd o dalu am nwyddau, er enghraifft, arian parod, siec, cerdyn |
| DVLA | Asiantaeth Trwyddedu Gyrwyr a Cherbydau |
| gorddrafft | trefniant â'r banc i chi wario mwy o arian nag sydd yn eich cyfrif |
| NCA | neu'r cynnig agosaf |
| hurbwrcas | cynllun talu am rywbeth dros gyfnod o amser |
| m.y.g. | milltiroedd y galwyn |
| MOT | prawf blynyddol ar ddiogelwch car |
| pris pwrcasu | pris prynu |
| telerau ac amodau | eglurhad o'r cytundeb rydych chi wedi'i wneud |
| treth car | caiff ei dalu i'r DVLA i gadw'ch car ar y ffordd |
| yswiriant | polisi sy'n eich amddiffyn rhag risg |

| Termau Gallu Ariannol | Diffiniadau ar gyfer Gweithgaredd 14 |
|---|---|
| cerdyn credyd | cerdyn plastig i'w ddefnyddio i brynu nwyddau hyd at eich ffin arian |
| cerdyn debyd | cerdyn plastig i'w ddefnyddio â'ch cyfrif banc – chewch chi ond defnyddio'r arian yn eich cyfrif |
| cerdyn siop | cerdyn credyd i'w ddefnyddio mewn siop benodol |

| Termau Gallu Ariannol | Diffiniadau ar gyfer Gweithgaredd 15 |
|---|---|
| blaendal | yr arian mae disgwyl i chi ei dalu i sicrhau eich bod yn cael rhywbeth |
| *cashback* | yr arian parod bydd siopwr yn ei gynnig wrth i chi brynu rhywbeth |
| contract | math o gytundeb |
| cynnyrch | rhywbeth sydd wedi'i wneud er mwyn ei werthu |
| cytundeb credyd | cytundeb â banc neu siop sydd wedi rhoi benthyg arian i chi |
| cytundeb cyfreithiol | cytundeb â grym y gyfraith yn gefn iddo |
| cytundeb tenantiaeth | cytundeb wedi'i arwyddo rhwng y tenant a'r perchennog |
| defnyddiwr | rhywun sy'n prynu nwydd neu wasanaeth |
| gwarantwr | person sy'n cytuno talu eich benthyciad neu rent os methwch chi â'i dalu |
| gwasanaethau | gwaith mae un person neu grŵp yn ei wneud ar gyfer eraill |
| hurbwrcas | cynllun talu am rywbeth dros gyfnod o amser |
| nwydd | rhywbeth sydd ar werth |
| perchennog | rhywun sy'n rhentu fflatiau neu dai i eraill |
| polisi dychwelyd | yr amodau y cewch ddychwelyd nwyddau nad ydych chi am eu cadw |
| print mân | yr enw ar yr ysgrifen fân sy'n aml ar waelod cytundeb – modd o guddio pethau rhag pobl |
| rhent | yr arian mae tenant yn ei dalu i'r perchennog er mwyn cael byw mewn fflat neu dŷ |
| tenant | person sy'n talu rhent i berchennog yr eiddo lle maen nhw'n byw |
| Treth y Cyngor | treth ar dai i'w dalu bob blwyddyn i'r cyngor lleol |

| Termau Gallu Ariannol | Diffiniadau ar gyfer Gweithgaredd 16 |
|---|---|
| cynllun sgam | tric i'ch twyllo chi a chael eich arian |
| loteri | math o gamblo gan ddefnyddio haprifau |

| Termau Gallu Ariannol | Diffiniadau ar gyfer Gweithgaredd 17 |
|---|---|
| aswiriant | polisi sy'n eich amddiffyn rhag risg sy'n siŵr o ddigwydd |
| buddsoddiad | ffordd o geisio cynyddu'ch arian |
| cais | gofyn i'r cwmni yswiriant am iawndal |
| cymal eithrio | rhestr o'r pethau sydd heb eu hamddiffyn gan yr yswiriant |
| disgownt dim hawlio | cewch hwn os nad ydych chi wedi hawlio ar eich yswiriant |
| gwarant yswiriant | y gwarchod a roddir gan y cwmni yswirio |
| morgais | arian i'w dalu i'r banc neu'r gymdeithas adeiladu ar ôl benthyg arian i brynu lle i fyw ynddo |
| polisi | manylion yr hyn sydd wedi'i yswirio a'r gost |
| polisi yswiriant | datganiad o'ch sicrwydd yswiriant |
| premiwm | yr arian sydd i'w dalu i'ch yswiriwr bob blwyddyn |
| risg | y siawns bod rhywbeth gwael yn digwydd |
| sicrwydd yswiriant | yr amddiffyn gewch chi gan gwmni yswiriant |
| taflen fanylion | rhestr o'r hyn sydd wedi'i yswirio gan y polisi |
| taliad atodol | yr arian sydd i'w dalu gennych chi cyn i'ch yswiriwr dalu'r gweddill |
| tebygolrwydd | y siawns y bydd rhywbeth yn digwydd (1 o 4 er enghraifft) |
| yswiriant | polisi sy'n eich amddiffyn rhag risg |

## Rhestr termau

| Termau Gallu Ariannol | Diffiniadau ar gyfer Gweithgaredd 18 |
|---|---|
| anghenion | yr hyn sydd ei angen ar bobl i fyw – bwyd, dillad a chysgod |
| asiantaeth gynnal | asiantaeth sy'n helpu pobl mewn dyled neu drafferthion |
| benthyciad banc | arian gan y banc i brynu rhywbeth costus |
| benthyg | derbyn arian sydd i'w dalu yn ôl yn ddiweddarach |
| Canolfan Gynghori | mae'r Ganolfan yn cynnig gwybodaeth a chyngor am ddim |
| cerdyn credyd | cerdyn plastig a gewch gan y banc sy'n golygu y cewch fenthyg arian yn syth i brynu pethau |
| cerdyn siop | cerdyn credyd i'w ddefnyddio mewn siop benodol |
| credyd | taliad i'ch cyfrif banc |
| credydwyr | pobl yr ydych wedi benthyg arian ganddynt |
| cyfrif cyfredol | cyfrif banc neu gymdeithas adeiladu y gallwch dynnu arian ohono |
| cyfuno dyledion | cyfuno eich dyledion i gyd i un benthyciad |
| cyllideb | mae'n dangos eich cynllun gwario |
| cyllidebu | rydych chi'n cynllunio'r hyn fyddwch yn ei wario |
| cynilion | yr hyn sy'n weddill o'r incwm ar ôl gwario |
| debyd | taliad o'ch cyfrif banc |
| debyd uniongyrchol | taliadau rheolaidd o'ch cyfrif banc |
| dyled | yr arian sydd arnoch chi |
| dyledwyr | pobl sydd mewn dyled |
| gordynnu | gwario mwy o arian nag sydd yn eich cyfrif banc |
| gorddrafft | trefniant â'r banc i chi wario mwy o arian nag sydd yn eich cyfrif |
| hurbwrcas | cynllun talu am rywbeth dros gyfnod o amser |
| incwm | yr arian rydych chi'n ei dderbyn |
| llog | yr arian ychwanegol sydd i'w dalu'n ôl ar fenthyciad neu ei dderbyn wrth gynilo |
| treuliau | eich costau |
| undeb credyd | undeb sy'n cael ei reoli a'i berchenogi gan aelodau sy'n rhoi benthyg i'w gilydd |